



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

Call 5182.5150

HARVARD COLLEGE
LIBRARY



ANONYMOUS GIFT

Cover

~~DILLYNION. DOETHNEB~~

Cenedyl y Gymry:

SEP,

DETHOLION

DRIODD MOES A DEFAWD,

Thriodd Doethneb

BEIRDD YNYS PRYDAIN.

HEFYD,

ATHRAWLAETH Y BARD D GLAS

O'R GADAIR.

"TRI PHETH Y DYLA I FOD DYN SYNWYRAWL EU GWNEUTHUR: DAR-
LLEN ER GWYBOD, YSTYR ER ADDYSG, A CHOFIAW ER DAIONI
IDDO EI HUN AC I BAWB EREILL."

Somerian Press:

ARGRAFFWYD YN NOLGELLAU, GAN R. JONES,
DROS I. LLWYD.

1819

Call 5182.9.30

✓



*Anonymous gift
for humanities*

3

HYSBYSIAD.

Cyhoeddwyd Doethineb Cenedyl y Cymry yn Llundain, yn y flwyddyn 1807, yn y Trydydd Llyfyr o'r Myvyrian Archaeology of Wales. Mae y llyfrau hyny yn brinion, ac yn ormod pris i'r werin allu eu prynu. Y maent hefyd yn cynnwys llawer o bethau na fedr yr anghyfarwydd ar yr iaith Gymraeg a'r hen lythyaeth eu deall na'u darllen. Yn y casgliad hwn o driodd yr hen Gymry gellir gwelod eu beiau a'u gwendidau yn gymmysg a'u doethineb; am hyny da y gwna y sawl a'i darlleno gadw cynghor yr Apostol yn ei gôf yn ddibaid; "Profwch bob peth, deliwch yr hyn sy dda."

I. LLWYD.

PEN Y BRYN, DOLGELLAU, }
MAWRTH 8, 1819. }

CYNNWYSIAD.

Rhif.		Tudal.
1	Triodd y Cymro	4
2	— Gwragedd	7
3	— Etto	9
4	— Gwragedd Priod	11
5	— Wraig Dda	13
6	— Cybydd	14
7	— Meddwyn	17
8	— Awen	21
9	— Cerdd	21
10	— Etto	26
11	— Mydryddiaeth	29
12	— Addwynder	30
13	— Brodyr	34
14	— Kreill	37
15	— Doethion	38
16	— Doethineb	55
17	— Ereill	61
18	— Etto	67
19	— Etto	74

ATHRAWIAETH Y BARDD GLAS.

1	Cynghorion	79
2	Ereill	80
3	Dewisbethau	86
4	Casddynion	87
5	Gorddodau	88
6	Athronddysg	90
	Beilchion	93
7	Cyforddodau	94

DILLYNION

Doethineb Cenedyl y Cymry.

I. LLYMA DRIODD Y CYMRO.

Y rhai hyn y dylai bob Cymro eu gwybod a'u hystyried yn drybwyll, a gwneuthur yn eu hól, rhag dwyn gwaradwydd arno ef ei hunan, ac ar ei wlad, a'i genedyl.

1. Tripheth y dylai bob Cymro fod fal nas gwaradwyddo na'i hun, na'i wlad, na'i genedl: yn hael, yn ddewr, ac yn drugarawg.

2. Tri pheth sy glodfawr i Gymro eu diwyllio: ei dattref, ei deulu, a'i farn.

3. Tri pheth y dylai Gymro fod er ennill cariad ei wlad a'i genedl: yn ddifateh, yn ddirachwant, ac yn ddi-niwed.

4. Tri ymddwyn à ddylid ar Gymro parth ag at a'i anmharcho, a hyn i gyd yn yr un amrant: ymwrth, maddeu, ac anghofiaw.

5. Tri pheth y dylai bob Cymro eu cofio yn ddi dŵr, rhag eu anmharchu o hano: ei dād, ei wlad, a'i enw o Gymro.

6. Tri pheth y dylai bob Cymro eu cadw yn ei feddwl ac ar ei gof yn wastad: ei ddyled, a'i dylai, ac à ddylir gymmain un; a bydded ei ddyled à ddylir, ac yna iawn a mād a'i dylai.

7. Tri pheth y dylai Cymro eu cadw a'i hamddiffyn hyd farw: ei gledd, ei gyfrin, a'i gyfaill.

8. Tri pheth y dylai Gymro farw yn eu plaid: ei wlad, ei air da, a'r gwirionedd ba bynag y bo.

9. Tair cynneddf gynhenid Cymro y dylai ef eu gwellu: rhy lew, rhy laryaidd, a rhy lawen.

10. Tri pheth dan bwyl a rhiol à fyddant hardd ar Gymro: glewder, llaryeidd-der, a llawenydd.

11. Tri pheth y dylai Gymro eu caru o flaen Æim: cenedl y Cymry, devodau a moesau y Cymry, ac iaith y Cymry.

12. Tri pheth à ddylaint fod bob amser argof pob Cymro cynbenid: ei Dduw, ei ddyn, a'i ddyled.

13. Tri pheth y câr pob Cymro cywir: iaith ei wlad, doethineb ei wlad, ac ymhortâ ei wlad,

14. Tri anrhydedd Cymro: ymarfer à campan yr hên Gymry, myfyriaw gwellâu, & campan sydd yn awr, a chwilio'r byd am gampau daionus nas gwybuwyd am danynt hyd-yn-hyn.

15. Tair camp waradwyddus ar Gymro: edrych ag un Hygad, gwrandaw ag un glust, a chynnorthwyaw ag un llaw.

16. Tri pheth y dylai bob Cymro cynneddfol eu gwneuthur: ei arad, ei lyfyr, a'i gyfraith.

17. Tri pheth anrhydeddus eu bod ar bob Cymro, mal y bo gyfungamp a'r hên Gymry gynt: bod yn hael, bod yn wrawl, a bod yn hawddgar.

18. Tri pheth o'u bod ar ddyn tynger mai nid Cymro ydyw: cybyddiaeth, llyfredd, a sarrugrwydd.

19. Tri pheth na choeliad un Cymro: à weto dierth, à weter yn erbyn dierth, ac à weter yn erbyn a ddylai fod.

20. Tri gair y dylai bob Cymro eu hystyried yn llwyr, ac ymddarbod yn gyfiawn a'u pwyll a'u hystyr: Duw, Dŷn, a Chymro.

21. Tri pheth à weddant yn oreu i Gymro o'u cael o'z genedl a'i wlad ei hunan: Brenin, gwraig, a chyfaill.

22. Tri pheth dierth ac estrawu y dylai Cymro lwyr ym wrthod ag wynt: iaith, defawd, a chyfaill.

23. Tri pheth à gadwant yr enw o Gymro rhag diryfaeth: eynnal o Gymro hawl ac anrhydedd ei genedl, byw arno ei hunan, a byw fal y dylai parth ag at Dduw a Dŷn.

24. Tri peth y sydd o genedly Cymry yn oreuon o'urhyw yn y byd: barddas, rhaith, a cherdd dant.

25. Tri pheth à anrhydeddant Gymro: cadernyd tangnefus, doethineb haelionus, a llawenydd o gallineb.

26. Tri pheth clodfawr eu bod ar Gymro: gwybodan, doethineb, defodau rhadlondeb, ac ymbwyll ystyrgar.

27. Tri pheth à urddant Gymro o iawn ymarfer ag wynt: difyrwch ei genedl, bonedd gamp ei genedl, a awyfuader eu genedl.

28. Tri chyntefigaeth Cymro ar bob cenedl arall yn Ynys Prydain: cyntefig o briodawr, cyntefig o frodoriaeth, a chyntefig o Gristionogaeth.

29. Tri peth anheggor i Gymro fal nas gwarthar, d der ei wlad a'i genedl: ymddarbod yn ddoeth, ymfydiau yn gall, ac ymfucheddu yn lân.

Hopgin Twm Philip o'r Gelli Fid a'u dywed. Ac felly terfyna.

II. TRIODD Y GWRAGEDD.

1. Tair rhagorgamp benyw: addfwynder, diweirdeb, a gloywlander yn ei gorchwyl a'i gwisg.

2. Am dri pheth y cerir benyw: harddwch corfforawl, serchogrwydd meddwl, a threfnusder teuluaidd.

3. Tri pheth canmoliadawl ar fenyw: gwylder ymarwedd, cynnildeb llaw ac amcan, a diwydrwydd teuluaidd.

4. Tri pheth hawddgar ar fenyw: addfwyn o ddefawd, gwisg drefnus-loyw, a llafar sercnogaidd.

5. Tri pheth moliannus ar fenyw: caru bod yn nghartref, na bo yn rylafargar, a bod yn drugarawg parth ag at a'i gofyno; sef wrth dlawd, a chlaf, a dyeithr; a hyny e'f mwyn Duw a'i nawdd.

6. Tair dyledswydd gartrefawl benyw: gofal trefnus am ei thŷ a'i thylwyth, bod yn roesawgar wrth ei gwesteion, a bod yn garedig iddei gwr.

7. Tri pheth y canmolir benyw am danynt: glendid camp a defawd, glendid trefnusdeg ei thŷ, a hawddgarwch ei hymddwyn.

8. Tri pheth ar fenyw a ennillant gariad ei gwr: ufydd-dawd serchogaidd, cynnilgamp ar orchwyl, a gofalu yn warcheidwadawl am ei meddiant ac a fo dan ei llaw.

9. Tri pheth a ennillant air da i fenyw: ei chell yn brydd, ei thŷ yn loyw, a'i thylwyth yn drwsiadus.

10. Tri pheth dwyfawl ar fenyw: bod yn faddteugar, yn elusengar, ac yn anfoethus.

11. Tri pheth ni ddylai gwraig eu rhoddi i neb ond iddei gwr: ei serch, ei chorff, a'i chyfrinach.

12. Tri pheth a ddangosant wraig dda: ei gwr yn

drefnuslan ei wisg, dwyn ei phlant ar wybodau boneddig, a bod gair da iddi gan ei chymmogion.

13. Tri pheth a ddengys ddoethineb gwraig: ei gweinyddesi yn aros yn hir yn ei gwasanaeth, ei gwr yn caru bod y'nghartref, a boreuder eu theulu.

14. Tri pheth hardd ar forwynferch: gwylder, addfwynder, a deddfau boneddigion.

15. Tri pheth anferth ar forwynferch: bod yn dra chwethinawg, yn drachwedleugar, ac yn drasengar.

16. Tair arwydd gwraig ddrwg: bostio ei champ a'i gweithred ei hunan, beio ar ei chymmogoesau, ac ymdynu am y trechaf.

17. Tri gofynion benyw: gossymmaeth, gwisgodd, a charedigrwydd.

18. Tri pheth a wnant wr yn fodlon iddei wraig: glân a chyfan yn ei gwisg, serchog ei hymddwyn, a threfnu yn lân yn ei thŷ.

19. Tri pheth a fyddant lle bo cariad rhwng benyw a'i gwr: golud, anrhydedd, a gwynfyd.

20. Tri pheth hardd mewn teulu: gwr doeth deddfol, gwraig lanwaith serchogaidd, a phlant addwyngamp gwyhodgar.

21. Tri pheth y dylai gwraig ddwyn ei phlant arnynt: dwyfoldeb, deddfoldeb, ac addfwynder bonedd cenedyl y Cymry.

22. Tri anrhydedd gwraig: ei thŷ yn lân ac yn drefnus, ei gwr yn llwyddiannus, a'i phlant yn wybodus.

23. Tri pheth ffeiddfrwnt ar wraig: aflendid corff a dodrefn, sengarwch, a dioglydrwydd.

24. Tair gorhoffgamp gwraig: iaith groyw, synwyr croyw, a chynneddfau croywon.

25. Tair anhoffgamp gwraig: twyll-wybodau, twyll-gynneddfau, a thwyll-ymddangos ar ei thŷ a'i dodrefn.

26. Tri thwyll ar wraig a fyddant benaf o'r holl dwyllau, ac yn unrhyw y byddant ar bob dyn arall: twyll-ddwyfoldeb, twyll-gywirdeb, a thwyll-gariad; a lle bo un neu arall o'r tri hyn, bydd ar gydfod pob twyll arall yn y byd.

27. Tri pheth ar wraig, (ac ar bob dyn arall,) a'i dengys yn ddwyfawl: anfalch yn hawddfyd, aflorf mewn adfyd, aon yn ddiachwyn ar bob gwaith Duw.

28. Tri pheth â weddant ar bob gwraig dda: llawenydd diargyweddd, sywder tlysaidd ar ddillad; a mwythusder didwyll iaith ac ymadrawdd.

29. Tri pheth y dylai bob gwr ei gwneuthur parth ag at ei wraig: ei chara yn ddidwyll, ei chynnal yn ddiddiffyg yn ol y byd â fo arno, a gadael iddi yn â berthyn i drefn ei thŷ, a'i thylwyth, a'i gorchwyl.

30. Tri pheth y dylai gwr ddwyn ei blant arnynt: dysgeidiaeth ar lyfyr, celfyddydau anrhydeddus, a chelfyddydau cartrefawl.

31. Tair celfyddyd anrhydeddus y dylai bob gwr ddwyn ei feibion arnynt: milwriaeth, rheithyddiaeth, a llyfryddiaeth.

32. Tair celfyddyd anrhydeddus y dylai ddwyn ei ferched arnynt: syberwyd bonedd y Cymry, dosparth y Gymraeg a'i darllen yn gyfiawn, a cherdd dafawd ac arwest.

33. Tair celfyddyd gartrefawl y dylai ddwyn ei feibion arnynt: trin tir ac ysgrublaidd, saerniaeth, a meddyginiaeth.

34. Tair celfyddyd gartrefawl y dylai ddwyn ei ferchaid arnynt: ceginiaeth, gwēyddiaeth, a gwiniaduriaeth.

35. Tair celfyddyd dinesig â weddant ar feibion boneddigion: nid amgen, ysgoleigēith, fferylltaeth, a chyfnewidiaeth.

36. Tair celfyddyd wrolion â weddant ar ferchaid: barddoniaeth, meddyginiaeth, ac ysgolyddiaeth.

37. Tri pheth y dylai meibion eu gwneuthur parth ag at y merchaid, ymgyfeillach garedig, arhegion gweddeiddbarch, ac ymddwyn syberwydbwyll.

38. Tri pheth â wedd ar ferchaid parth ag at y meibion: gwylder serchogaidd, caredigrwydd parodbwyll, a syberwyd benywaidd gweddeiddbarch.

Ac felly terfyna.

III. TRIODD Y GWRAGEDD.

I. Tri pheth canmoledig ar wraig: ei hwyneb yn ddawns, ei hymddyddan yn synwyrus, a'i harferion yn ddaionus.

2. Tri pheth à barant i wraig gael tybied yn dda am dani: ei gwr a'i phlant yn lân olchedig eu dillad, ei ddo-drefn yn lân a threfnus, a'i bod yn ymgadw gartref.

3. Tri peth à barant i wraig gael tybied yn ddrwg am dani: bod yn chwanog i gytgam à gwŷr a gweisiou, yn amheuthyngar, a dywedyd yn ddrwg am ei chymmodogesau.

4. Tri pheth à wnant wraig yn dda ei chymmeriad: sywder yn ei gwisgodd, gwylder yn ei hymadroddion, a rhadlondeb yn ei hymarweddiad.

5. Tri pheth à ddangosant wraig yn anniwair: bod yn chweringar heb wybod pam, yn falch ar ei phryd a'i gwedd, ac yn achwyngar ar ei gŵr.

6. Tri pheth hoffaidd gan wr ei gweled ar ei wraig: ei bod yn rinweddus, yn cadw ei thŷ yn drefnus, ac yn ei gorchwyl yn fedrus.

7. Tri pheth à ennillant barch i wr o'u bod ar ei wraig: yn dda ei chynneddfau, yn anaml ei geiriau, ac yn aml ei gwybodau.

8. Tri pheth à wnant wr yn oludog: ei hunan yn ddiwyd, ei wraig yn lywodraethus, a'i dylwyth yn ffyddlawn iddo.

9. Tri pheth à wnant wr yn hoenus: ei dda byd yn mwyta, ei wraig yn ei garu, a'i Dduw yn ei nerthu.

10. Tri pheth à wnant wr yn anghenus: tylwyth gwallus, gwraig foethus, ac yntau yn afradus.

11. Tri pheth gweddus i wr eu bod yn ei dŷ: ei glustog yn ei gadair, ei delyn yn iawn gywair, a'i wraig yn ddfwair.

12. Tri pheth anghysurus i wr bod hebddynt: tân yn ei aelwyd, arian yn ei bwrs, a gwraig yn ei wely.

13. Tri pheth à wnant wr yn foddolawn iddei ginio: ei gylla yn iachus, ei fwyd yn foethus, a'i wraig yn fedrus.

14. Tri pheth a barant i wr hoffi cartref: ei deulu yn ddosparthus, ei orchwylion yn llwyddianus, a'i wraig yn gariadus.

15. Tri pheth a wnant wr yn llòn ei wynebpryd: ei dir yn dirion, ei berllan yn ffrwythlon, a'i wraig yn radlon.

16. Tri pheth à wnant i wr cwnu ei galon: ei gar yn ymweled ag ef, ei gwrw yn hoenus, a'i wraig yn llawen.

17. Tri pheth anesmwyth i wr yn ei dŷ: ei ffunell yn mygu, ei gronglwyd yn dyferu, a'i wraig yn ymdaeru.

18. Tri phelh serchog ar wraig: bod yn dawel ei nwydau, yn hawddgar ei hymadrawd, ac yn hael ei chalon.

19. Tri pheth prydfferth ar wraig: bod yn foneddigaidd ei champau, yn foliannus ei chynneddfau; ac yn ddwyfawl ei meddyliau.

20. Tri pheth hyfryd gan wr eu gweled: ei wartheg yn rhywiog, ei ar yn ffrwythlawn, a'i wraig yn ddiwyd.

21. Tri pheth a wnant wr yn hawddfydig: ei dŷ yn hawn, ei wraig yn syber, a'i blant yn brydfferth ar gorff a meddwl.

22. Tair camp lân ar wraig: groesewi yn hawddgar, diwallu yn wyllysgar, ac arlwyo yn aflafar.

23. Tri pheth y dylai gwraig briod eu caru uwchlaw pob peth arall yn hyn o fŷd: ei gwr, ei phlant, a'i chartref.

24. Tri pheth a ddylid i bob gwraig dda gan ei gwr: cariad ffyddlon, ymgeledd tirion, a bôdd ei chalon.

25. Tri pheth a wnant wraig yn-anniwair: wyneb tēg, pen ffol, a chalon falch.

26. Tri pheth a barant i wraig briawd gael cās yn lle cariad; bod yn anynad, chwennych blaenori, a bod yn dda wrth ei bola ei hunan.

27. Tri pheth ar wraig a wnant ei gwr yn flaenawr ar ei gymodogion: medrusder, diwydrwydd, a doethineb.

28. Tri pheth ar wraig a dyn arni-anmharch y byd a chās ei gwr: bod yn hir ei bore, bod yn warseddgar, a bod yn fudrogen.

29. Tair anurddas gwraig: bod yn chwedleugar; bod yn achwyngar, a bod yn athroddgar.

30. Tri pheth a ddygant urddas i wraig: ymadroddion pwyllgar, boddlondeb i'r byd a fo arni, a bod yn heddygar ymhlith ei chymodogion.

IV. LLYMA DRIODD Y GWRAGEDD PRIOD.

Yn dangos y Campau, a'r Cynneddfau, a'r Cysfarddonau, a ddylai fod ar bob Gwraig, fal y boddloni hi ei Gŵr, ac y caffo air da gan ei Chymodogion. a pharch ac anrhydedd yn ei Gwlad, gan bob Dyn doeth a deddfol.

Y pethau a ddylaint fod ar bob gwraig er boddloni ei gwr ydynt fal hyn, nid amgen:

1. Ei phryd a'i gwedd yn ddawnus, ei hymadrawd yn serchus, a'i chynneddfau yn foliannus.
2. Yn dawel ei hysbryd, yn serchog ei hwynebpryd, a'i dwylaw yn ddiwyd.
3. Ei thŷ yn drefnus, yn ei gorchwyl yn fedrus, a'i phlant yn fagwriaethus.
4. Ei deall yn llathraidd, ei gwybodau yn deuluaidd, a'i moesau yn foneddigaidd.
5. Yn brydferth ei hystafell, yn syw yn ei chell, ac yn trefnu yn ddigymhell.
6. Yn gyfiawn ei bwriad, a meddwl ananllad, a buchedd ddiafrad.
7. Ufydd-ded rhywiog, genau tawedog, a gwylder serchog.
8. Yn hoyw yn ei thro, yn sywion ei dwylo, a'i gorchwyl yn gryno.
9. Yn ddwyfol ei defod, yn lân ei chydwybod, ac yn gywir iddei phriod.
10. Ei llafar yn rhadlon, yn hael ei chalon, ac yn gweled ei digon.
11. Yn bur ei buchedd, yn ddoeth ei hymarwedd, ac yn caru tangnefedd.
12. Ei thrwsiad yn syber, yn garuaidd ei mwynder, ac yn gall ei hyder.
13. Unllaw yn casglu, llaw arall yn rhannu, a'i phen yn pryderu.
14. Yn gywair ei ffydd, a'i champau yn ddedwydd, ac yn ddoeth ei llawenydd.
15. Yn brydferth ei hymddwyn, yn erchi yn addfwyn, ac yn gwrandaw ar bob o Wyn.
16. Yn dda i'r cymodogion, yn drugarog wrth dylodion, ac yn coledd estron.
17. Ei theulu yn ei chanmol, ei deddfau yn rinweddol, a'i phlant yn ei hysgol.
18. Ei saig yn fiasus, ei hannerch yn weddus, a'i derbyn yn serchus.
19. Yn cael parch doethion, a chlod ei chymmodogion, a bendith y tylodion.
20. Yn dda yn ei hegiwys, yn dysgu yn ddiorphwys, ac ar Dduw yn ymbwys.

21. Yn ofni Duw beunydd, yn caru Duw'n ddedwydd, ac yn gweddio Duw yn burffydd.

V. LLYMA DRIODD Y WRAIG DDA.

Gwraig dda a ddylai fod:—

1. Yn gywilyddgar, yn ddiystryw, ac yn ufudd.
2. Yn dda ei chydwybod, yn radlawn ei thafawd, ac yn gywir iddei phriawd.
3. Yn ddifalch ei chalon, yn hardd ei harferion, ac yn drugarawg wrth dlodion.
4. Ei gorchwyl yn gryno, yn fedrus ei dwylaw, ac ar Dduw yn gweddiaw.
5. Ei hymddyddan yn serchus, ei gwisg yn weddus, a'i thŷ yn drefnus.
6. Yn gyflym ei llaw, yn gyflym ei llygad, ac yn gyflym ei deall.
7. Ei chorff yn lluniaidd, ei hymddwyn yn hoffaid, ei chalon yn bar.
8. Ei hwynebpryd yn ddawnus, ei phen yn ddeallus, ac yn wybodus.
9. Yn gymodogaidd, yn ddifalch, ac yn haelionus ei meddwl.
10. Yn hyfforddi yn gall, yn gwiliaw rhag gwall, ac yn meithrin ei phlant yn famawl.
11. Yn caru ei gwr, yn caru heddwch, ac yn caru Duw.
12. Yn foddlon i'r byd a fo, yn cynnal mesuroldeb yn mhob peth, ac yn gofalu am fod yn gyfiawn.
13. Yn amcanu y goreu, yn gwarchadw rhag y gwaethaf, ac yn gweled a fo reitiaf.
14. Yn rhoi bwyd yn ei bryd, yn gorwedd gyda'r ddafad, ac yn cwnu gyda'r hedydd.
15. Yn amyneddus, yn dangnefeddus, ac yn rinweddus.
16. Yn foneddig ei moesau, yn roesawgar ei geiriau, ac yn Gristionogaidd ei defodau.
17. Yn gymmedrawl ei geiriau, yn deall amserau, ac yn deuluaidd ei gwybodau.
18. Yn ddoeth ei llawenydd, yn welltugar ei cherydd, ac yn gydwybodlawn ei ohrefydd.
19. Yn faddeugar, yn gymodgar, ac yn wirioneddgar.

20. Yn warcheidwad ei meddiant, yn athraw iddeu phlant, ac yn feddyges ei theulu.

21. Yn diffawd cynhenau, yn gwasgar gwybodau, ac yn rhoi y blaen i bob goreu.

22. Yn cywilyddiaw diriad, yn llawenâu dedwydd, ac yn boddâu Dnw.

A'r wraig â fytho fel hyn â gerir gan ei gwr a'i theulu, a chan bawb a'i hadnapo, a chan Dduw: a gwyn ei fyd y gwr a'i medd.

FA HUNY—Rhyw wraig â gar myned lle myno, a chael crêd ar â weto, a chaffael â geisio, a gwneuthur fal y chwennycho, a gwareded Duw bob dyn rhag bono.

A rhy amyl y gwelir y cyfryw wragedd.

Ac felly terfyna.

VI. LLYMA DRIODD Y CYBYDD.

Pwy bynag o ddŷn â fytho yn gybydd, ni fydd ef heb y saith bechod marwawl, oni bydd tra hên, ac er ei hened ni ymedy ef â phechod nes i'r pechod ei adael ef yn gyntaf; a hyn a fydd mewn dau fodd; un o'r ddau yw *rhâd yr Ysbryd Glân* yn ei orddiwes ac yn rhag beri ar a wnelo ac â feddylio; a lle bo felly, *Nes i'r Enuid*; ail yw colli gan henaint, neu haint, pob galluogrwydd pechu; ac nid dioloh hyny i neb, ac nid gobaith amgen noc uffern i'r cyfryw.

1. Tair camp a fydd ar gybydd, nid amgen: ofnai castarn, casâu tylawd, a bygwth gwan.

2. Tair cynneddf a fydd ar gybydd, nid amgen: caru arwylion, casâu genedigaethau, a chwennyth tir arall.

3. Tri chas gan gybydd: tafarn, cerddawr, a neithiawr.

4. Tri pheth nis ceiff cybydd fyth: bendith y gwan, olod doethion, a rhâd Duw arno yn myned o'r hŷd.

5. Tri pheth ni wedd i gybydd: parch gan haelion, credu â ddyweto, a dioloh gan â gaffo y meddiant ar ei ol.

6. Tri pheth y cyll y cybydd yn dragwyddawl: ei dda bydawl, cariad y da rhinweddawl, a rhoddion gan Dduw.

7. Tri pheth â wna'r dyn â ole yn gybydd: rhoddi ar ei ol. lle na bo raid wrthynt, colli pob rhinwedd ddâ a allai

fod arno, a thybied ei hunan yn ddoeth cyd y bo ef yr annoethaf o bob annoeth.

8. Tri pheth y mae dŷn yn ymadael ag wynt pan ydd elo yn gybydd: ei glôd bydawl, ei gywilydd, a'i gydwybod.

9. Tri pheth a lawenaa y cybydd: ei fynych wahawdd, ei anfynych ofwy, a chaffael tylawd dan ei grafanc.

10. Tri pheth ereill a wnant gybydd yn llawen: goganu hael, colledu tylawd, a thwyllaw cyflawn.

11. Tri pheth a wnant gybydd yn drist: mynych weled ceisiaid, colli gwaith, a rhyfel pendefigion.

12. Tri pheth a wnant gybydd yn glaf: cardoteion anl, newid ar y marchnadodd, a dyddanwch cerddau.

13. Tri pheth a wnant gybydd yn iach: aruthr o waith gan ei wasanaethyddion, ei wala yn ddi gost, a drudan-iaeth yn y marchnadodd.

14. Tri pheth anwyl gan gybydd: caffaeliad yn lledrad, ei wraig yn tynu o flaen yr ychain, a'i blant yn marw.

15. Tri pheth nid cywilydd gan gybydd eu gweled: llan ar ei ddillad, gwan yn ei regi, a doeth yn ymswyn rhagddo.

16. Tri pheth ni hawdd geffir, gan gybydd: bwyd yn rhad, gair da i gymmodogion, a chyngor er daioni.

17. Tri pheth a ddeuant ar gybydd pan y bo'n ry hwyf: deall, cydwybod, a thifeirwch.

18. Tri pheth ni ymadawant fyth a'r cybydd: y cythraul, canys hwnnw yw y pechod; melldith y tylawd, sef yw hyny eisiau tragywyddawl; a chof cydwybod yn y byd a ddaw.

19. Tri pheth a wnant i gybydd ymyfydu: molianau hael, goganu trachwant, a gofyn rhoddion gantho.

20. Tri pheth y mae y cybydd yn eu hennill: melldith y tylodion, drygair y byd, a digofaint Duw.

21. Tri thâl y ceiff y cybydd yn y byd hwn am ei dda: trafferth yn eu casglu, gofal yn eu cadw, a thristwch am orfod ymadael ag wynt a'u colli.

22. Tri brodyr cyweithas y sydd: brawd llwyd, brawd, a chybydd.

23. Tri dyn sy'n troi y byd wynab i waered: eelwydd-og, balch, a chybydd.

24. Tri phrif-gampan y cybydd: cribddeiliaw, gormesu, a dwyn yn lledrad ei eiddo ei hunan.

25. Tri dŷn à fyddant yn hen eu gwala cyn y caffont air da y bŷd; celwyddawg, afrywiawg, a chybydd.

26. Tri dŷn y sydd, ac à garo eu cyfeillach, aed i uffern acese a geiff ei wala wen o hŷnynt: cyhuddwyr anudon-lyd, offeiriaid godinebgar, a chybyddion.

27. Tri pheth ymgadwed pob dŷn rhagddynt: ci cyn-ddeiriog, athrodwr celwyddawg, a chybydd.

28. Tri pheth nid hawdd eu dala: carw gwyllt ar ben mynydd, llwynog mewn creigle coediog, a cheiniog y cybydd anghawr.

29. Tri pheth nid mynych y ceffir eu clywed: cân adar Rhianon, cân doetnneb o ben Sais, a gwahoddiad i wledd gan gybydd.

30. Tri pheth yr un mor anhebyg y naill a'r llall o hon- ynt i ddŷn: cnec hen wrachan, chwyd llyffant, a chybydd.

31. Tri pheth à dybiant eu hunain yn ben ar y byd: costog ar ei domen ei hun, baw ar ben derwen, a hen gy- bydd.

32. Tri difrawd bŷd: celwyddawg, athroddgar, a chy- bydd; a'r cybydd yn bob un o'r tri; sef, o fod yn gy- bydd nis gellir amgen na bŷd yn bob un o'r ddau ereill:

33. Tri anallu Duw: digoni gwagedd merch, digoni rhyfyg balchder, a digoni trachwant cybydd.

34. Tri dyn nis gwyddys yn iawn pa un y dwg y diawl gyntaf: twyllodrus, balch, a chybydd.

35. Tri pheth ni wnant les iddeu perchenogion: gwy- bodau diriaid, tafawd gwraig, a thrythgwd cybydd.

36. Tri thâl am ei olud y ceif cybydd mewn byd arall ar ol hwn: bod lle nis gall ymgyfoethogi, bod yn lle y mae pob ceudodawl yn canfod eithafodd ei ddireidi, a gorfod edrych o bell ar bob hael mewn gwynfyd heb dranc heb orphen.

37. Tri chymmodawg goreu yn y byd: celfydd ei law, dedwydd ei fuchedd, a chybydd ar y grogbren.

38. Tri pheth goreu fydd ei crogi: eog hallt, het wleib, a chybydd.

39. Tri pheth a gâr cybydd yn ei galon: gweled hael yn myned yn dylawd, gweled tŷ cymmodog ar dân, a gweled rhyw ddarwall i gael craff yn lledrad ar eiddo arall.

40. Tri pheth hawdd ei cyfrif: rhoddion gwr wrth gerdd yn ngwledd Sais, cynueddfau da crachfoneddig, a'r maint cybyddion à geir yn y nef.

41. Tri pheth gweddied pob dyn nad elo fyth: yn nghrog, yn falch, nac yn gybydd. Poed felly y bo fyth.
Ac felly y terfyna Triodd y Cybydd.

VII. LLYMA DRIODD Y MEDDWIN.

1. Tri anifel arian dros ben: hwch yn ymlai mewn mewn drewdod, ci yn ymloddestu ar abwy pryfedlawn, a meddwin uwch ben ei ddiod.

2. Tri lledfegin mwyaf disynwyr yn y byd: ysgerbwd o gybydd ni chymmer o'i eiddo ei hun, hen geilacwydd dall, a mochyn o feddwin.

3. Tri balch ar ei campau: lleidyr gorwwlad, ymladdwr pen ffair, a bwystfil o feddwin.

4. Tri pheth gwrthun gan ddoeth: ymddyddan à hen wrachod eisingrug, ymgystlwn à diriaid cyfaddef, ac ymgyfeillachu à meddwin.

5. Tri dŷn à ostyngant eu gwaraun fel lladdgwn defaid: hen odinebwr yn gwan o buteindy, gwibleidr yn nyfnder nôs lle gwelo eilun dyn o bell, a meddwin lle cyfarffo à dŷn ymarweddgall.

6. Tri diriaid hawdd iawn eu hebgor yn mhob cymmodogaeth: cybydd lledradgar, anudonwr cyflog, a di-hiryn meddw.

7. Tri pheth ffiaidd yr olwg arnynt: hwch yn bwyta ei gwared, ci yn ymborth ar ei chwydion, a bwystfil o feddwin yn glafoerio uwch ben ei ddiod.

8. Tri pheth y bydd meddwin bob amser: mochynaidd ar ei gorff, ynfyddfol yn ei feddwl, a cythraul yn ei gynneddf.

9. Tri pheth anffaeledig ar feddwin: gweniaith twyllodtus, dichellion hocedgar, a chenfigen at bob un à ofno et fod yn brydfertnach noc efe ei hunan.

10. Tri ffetty cyffredin meddwin: bol clawdd, gwalfa oŵn, a thwic moch.

11. Tri pheth ymrwysgu dros ben: ynfyd a'i ffon yn bygwth lle na bo heb yn gweled nos yn clywed drwy wybod iddo, taioo yn ei ddillad newydd ddyw sul, a meddwin yn y dafarn tra bo grŵd yn ei falleg.

12. Tair bost ddigrif dros ben ei clywed: Sais yn bostio ei radlondeb, bybydd yn bostio ei haelioni, a meddwin yn bostio ei synwyr pen.

13. Tri pheth o'i dda bydawl y cyll meddwin yn llwyr: ei olud, ei iechyd, a'i ymbwyll.

14. Tri pheth o'i dda tragwyddawl y cyll meddwin yn llwyr: ceudawd gwybodawl, awen gysefin, a bodd Daw.

15. Tri pheth ydd o'r dyn gorau yn y byd pan elo yn feddwin: yn gelwyddwr, yn fradwr, ac yn lleidr.

16. Tri pheth naturiawl i feddwin: caru ewrw yn fwy no'i blant anghenus, caru y celwydd yn fwy no'r gwir, ac angharu, cymdaint a bod heb gwrw, pob un na fytho yn gydfeddwin iddo.

17. Tri pheth ni waeth gan feddwin ronyn o'u tŷ yn y bo lle gantho: gair da pob dyn, na fo mor ddiriaid a'i hunan, addewid a wnebo dan dwag ac adduned, a gorghymynion Duw heb ronyn yn talma arno.

18. Tri lle ni châr feddwin fod ynddynt fwy nos y câr y tân ar ei groch: ei gartref ei hun, cyfeillach dynion prydferth, a man lle ni bo digon o gwrw, y naill a'i yn llad neu yn lletrad.

19. Tri direidi a gydgerddant yn anesgorawl a meddawd: puteindra, lletrad, a llofruddiaeth.

20. Tri pheth serch eu crogi ni wna y meddwin: talu am a gaffo, perchi deddfoldeb, ac arbed o'r bola y gronyn lleif i'r cefn.

21. Tri chyfeillion meddwin: puteiniaid, bradwyr, a lladron.

22. Tri chorn enllib so athrawd: puten pen ifordd, bardd ysbyddaid, a meddwin.

23. Tri pheth a welir yn wastadawl ar feddwin: tyloedi mawr, afiechyd mawr, a mawr dros ben o bob direidi.

24. Tri pheth anferth eu clywed: hegi llaf, hresortiad asyn, a dadwrdd meddwin mewn tafarn.

25. Tair camp syddant yn eu trefn ar feddwin: ymserthu yn aflan, enllibaw yn gelwyddgar, ac ymorphwyllaw yn gynddeiriog.

26. Tri pheth à geir gan feddwyn am folaid dda o gw-
rw: gwedyd y celwydd à fyner, dangos yr anfoes à fyner,
à gwneuthur y gyflafan à fyner.

27. Tri pheth cyfarwydd arnynt y bydd pob meddwyn:
eddlib i bob dŷn dosparthus, meginaw cynhenau, ac ym-
ddichellu i gael cwrw ei wala heb na thal na dioloh.

28. Tri pheth à wna pob meddwyn heb ronyn eu talmu
ar ei gydwybod: gwedyd iē gyda phob dŷn a'i portho à
ohwrw aī ar wir aī ar gelwydd y gweto, gwaradwyddaw
pob un na roddo ddiōd iddo, a chenfigenu wrth bob un na
fytho gynnryced ag ef ei hunan.

29. Tri thal à fydd i feddwyn am ei feddwadawd: ei gas-
au gan bob doeth a deddfol, ef ofni gan blant a benywod,
ac am hyny cael curo ei ben yn ddiogel ac yn dda gan bob
arall, a chan bob un y trotho ef dafawd yn ei ben yn eu
herbyn.

30. Tri pheth y dylid eu pwyaw yn dda: gwanith ar y
flawr dyrnu, bethyn mewn pandy, a eblopa meddwyn ba
le bynag y bytho.

31. Tri chās gan feddwyn: gwedyd y gwir, ymarfer à
syberwyd, a thalu i bawb ei eiddo.

32. Tri pheth ni sawr ymarfer meddwyn ag wynt:
rhadtondeb, tangnefgarwch, a gwybodan daionus.

33. Tri pheth ynghylch meddwyn à ddrewant yn ff-
aid; ei ddillad, ei anadl, a'i ymadroddion.

34. Tri pheth sy'n drewi yn feleenydd ymhob man:
clod coegyn tringar, mawl cybydd goludfaleh, ac enw
meddwyn.

35. Tri pheth echrys eu drygsawr: hēn gadno bras mewn
prysgle, morfil marw ar y feisdon, a mochyn o feddwyn.

36. Tri pheth y bydd meddwyn: cyfaisll gwāl ewn a
moch, rhystr puteiniaid, a gwarthruddwr pob dŷn buch-
eddawl.

37. Tri dŷn à fyddant bob amser yn yr un-groen à medd-
wyn: dihiryn twyllawr, anrheithwr, ac anudonwr.

38. Tair prifgamp meddwyn: chwydu ar ei fwyd, pisg
yn ei eistedd, ac ymdomi yn ei wāl.

39. Tri hoffder meddwyn: difriaw y mwyaf a'i cār ac
a'i coledd, ymgyfrinaw à phob dihiryn a roddo iddo gwrw.
a meddwi yn orchestawl.

40. Tri gormes cymmodogaeth: melinydd lladronig, cybydd anghawr, a rheipusdwrch o feddwyn, am nad diogel i neb ei eiddo ei hunan lle bytho un neu arall o honynt.

41. Tri pheth a welir amlaf ar feddwyn: ymfydiau yn fochyn, ymfucheddu yn gythraul, ac ymorfoleddu yn ei ddihirwch.

42. Tri pheth a welir ar feddwyn, a moled a'i moled: ei syberwyd parth ag at ddyeithraid, ei gyfiawnder parth ag at y dylai ef yn fwyaf eu caru, a'i wroldeb lle caffo y fuddugoliaeth ar blant bychain a benywod egwan.

43. Tri dŷn y sydd ni waeth peidiaw na'u cynghori: ysgotyn o gybydd anghawr, dŷn oelwyddawg anudonllyd, a meddwyn.

44. Tri pheth ni waeth i ferch gael ei chrogi wrth ei sodlau no'u cael: cariad mab arglwydd, gair da gan garn buten, a gwr o feddwyn.

45. Tri gweision penaf y diawl yn hyn o fyd: godinebwr, anudonwr, a meddwyn; canys blaenoriaid pob difrawd ac anrhaithdynt.

46. Tri dihiryn anynad y sydd, ac nid teilwng y diawl-icaf o'r diawlaid i ddala canwyll iddynt, nac i'r naill neu'r llall o honynt: cybydd, hocedydd, a meddwyn; a phencrefft ar bob drwg yw pob un o'r tri.

47. Tri phriforchest meddwyn: gwedyd oelwydd a goruwyr y grefft, darllaw twyll a chadeiriogion y celfyddyd, a thraflyncu diod ag un afanc a fu erioed.

48. Tri pheth rhy aflan i ymgyffwrdd a nhwy: ysgarthion geudy, abwy mewn clawdd, a meddwyn mewn tafarn.

49. Tri pheth ymswyned pob dyn rhag ei fyned: yn anudonwr, yn gybydd, ac yn feddwyn; canys o fod yn un o'r cyfryw ddrygwyr, y bydd arno bob drwg arall yn anesgorawl.

50. Tri pheth cadwed Duw bob dŷn rhagddynt: meddwl gwallgofus, gwaliobaith angheuawl, a chyfeillach meddwyn.

Ac felly terfyna,

VIII. TRIODD AWEN.

1. Tair sail Awen: rhodd Dau, ymgais dyn, a dauwain bywyd.

2. Tri phrif anhebgor Awen; llygad yn gweled anjan, calon yn teulaw anjan, a glawder a fald gydfyaed ag anjan.

3. Tri anhebgor Awen: deall, ystyriaeth, ac amynedd.

4. Tair cynneddyf Awen: hardd feddwl, priodawl feddwl, ac amrywedd feddwl.

5. Tri bonedd Awen: nwyf, pwyll, a gwybodaeth.

6. Tri chadernyd Awen: athrylith, cof, a dysg.

7. Tri gweimidogion Awen: cof, nwyf, a dysg.

8. Tri nod Awen; anghyffredin ddeall, anghyffredin ymddwyn, ac anghyffredin ymgais.

9. Tri chyfaill Awen: nwyf, callineb, a digrifwch.

10. Tri pheth a gynnydd Awen: iawn arfer, a mynych arfer, a llwyddiant o'i harfer.

11. Tair effaith Awen: haelioni, gwarineb, a chared-igrwydd.

12. Tri pheth a ffrwythlona'r Awen: dyddanwch meddwl, coledd daionus feddwl, a phorthi cof.

13. Tri pheth a dderchaif Awen: dysg, ymgais, a pharch.

14. Tri chynnalïaeth Awen: llwyddiant, cydnabyddïaeth, a chanmolïaeth.

15. Tri pheth a ddybryn lwyddiant: priodawl ymgais, hywalth ymgais, ac anghyffredin ymgais.

16. Tri pheth a ddybryn Gydnabyddïaeth: caredig-rydd, celfyddydgarwch, a chynnesnder.

17. Tri pheth a ddybryn Gamolïaeth: hygar ymddwyn, hyddydg gelfyddyd, a glân gampau.

IX. TRIODD CERDD.

1. Tair caino y sydd ar Gerdd Dafawd: clerwriaeth, teulwriaeth, a phrydyddïaeth.

2. Tair cainc a berthynant ar glerwriaeth: ysgan, dyfala gair tra gair, a dynwared.

3. Tair cainc a berthynant ar deulwriaeth: sef, testunlaw,

a dyfalu gwera tra gwera yn deulnaidd araf, a gôrdderchgerdd deulnaidd drwy eiriau ymwas.

4. Tair cainc a berthynant ar brydyddiaeth: cywyddau, ynglynion, ac odlau cerddwraidd anhawdd eu caniad a'u dychymyg.

5. Tair enaid Cerdd y sydd: mesur, synwyz, a chyngbanedd.

6. Tri thwyll y sydd ar gerdd: twyll gyngbanedd, twyllawdt, a thwyll gymmeriad.

7. Tri bai cyffredin ar gerdd: tôr mesur, drwg ystyr, a cham ymadrawdd.

8. Tri thôr mesur y sydd: hir, byr, a thwyll yn yr awdl.

9. Tri rhyw ddrwg ystyr y sydd: cam ddychymyg, amherthynas, ac eisieu enaid.

10. Tri cham ymadrawdd y sydd: unig a lliosog ynghyd, gwryw a banyw ynghyd, a gwydd ac absen ynghyd.

11. Tri amherthynas cerdd: moliant a gogan ynghyd, rhwy ac eisieu ynghyd, ac eisieu berf.

12. Tri rhân ymadrawdd y sydd: enw, rhagenw, a berf.

13. Tri rhyw ymadrawdd y sydd: ymadrawdd perffaith, cyflawn, ac addurnedig.

14. Tri rhân prydyddiaeth y sydd: sillaf, gair, ac ymadrawdd.

15. Tri bai gwahanredawl y sydd ar gerdd dafawd: prost ac unodl yn gyd, lleddf a thalgron yn gyd, a thrwm ac ysgafn yn gyd.

16. Tri bai gwahanredawl ereill y sydd ar englyn unawdl: carn-ymorddives, tin ab, a drygosodiad; sef yr achos y gelwir yn wahanredawl, neu yn wahanedig, am eu bod yn rhyw fanau yn feiau, ac mewn manau ereill heb fod.

17. Tri pheth â berthynant ar wr wrth gerdd dafawd: cerdd, a chôf, a chyfarwyddyd.

18. Tair cainc y sydd ar gerdd dafawd: cywyddau, ynglynion, ac odlau.

19. Tri chôf y sydd: achau, arfau, a rhandirodd.

20. Tri chyfarwyddyd y sydd: hengerdd, ystoriau, a harddoniaeth.

21. Tri pheth â berthynant ar glerwriaeth: goganu, ymbil, a gwarthuddlaw.

22. Tri pheth à berthynant ar deuluwriaeth: haelioni, digrifwch, ac emynhaedd, neu erfyn da yn deuluaidd.

23. Tri pheth à berthynant ar brydydd: clodfori, digrifau, a gwrthwynebu gogangerdd.

24. Tri pheth à hoffant gerdd: dyfnder ystyr, goddawg feddwi, ac awdurdawd y prydydd.

25. Tri pheth à anhoffant gerdd: basder ystyr, sathredig dychymyg, ac anurddas y prydydd.

26. Tri pheth à gyweiriant gerdd: addurn-gyfansodded ymadroddion, amllder Cymraeg, a dychymygfawr gerddwriaeth.

27. Tri pheth à urddant gerdd: deheurwydd neu hyawledd parabl, awdurdawd y prydydd, a chyfrwyddiaid à wyponnt farnu.

28. Tri pheth à anurddant gerdd: ei datganu yn anamser heb ei gofyn, ei chanu yn amberthynas i'r neb nas dylyai, ac eisieu cerddwyr à wyponnt farnu ar gerdd.

29. Tri pheth à amlaant awen cerdd: hengerdd, barddoniaeth, ac ystoriau.

30. Tri pheth à bylant awen: anghyfarwyddyd, angherddwriaeth, ac anghanmawl.

31. Tri pheth à lwgyr awen: tra meddwdawd, tra godineb, a thra ysgymyndawd.

32. Tri pheth à ddyly cerddawr eu gochel: llyna, nei diota, puteinio, a disio, neu dablara.

33. Tri pheth à ddyly cerddawr eu canmawl: haelder, a digrifwch, a cherddwriaeth.

34. Tri pheth à ddistrywia cerddawr: noethi, ac anghydnabod, ac anghanmawl.

35. Tri pheth à sawraant gerddawr: gwisgodd, cydnabod, a chanmawl.

36. Tri pheth ni chyingain mewn cerddawr: anwadawch, ysmalawch, ac angherddwriaeth.

37. Tri gwarant cerdd: cerddwriaeth, hengerdd, a meddwl da.

38. Tri pheth y cau cerdd arnynt heb fyned yn eu herbyn: hengerdd yr hên gerddorion, dychymygfawr gywreindeb y prydydd newydd, a chelfyddyd o gerddwriaeth ni aller myned yn eu herbyn.

39. Tri pheth ni ddyly cerddawr eu credu yn hawdd:

gogan cler lle pryto prydyddion, cam-ganu o bencerdd canmoledig, a pheth ni allo bod herwydd y doethion.

40. Tri pheth a ddyly cerddawr eu gwneuthur: iawn ganu, iawn ddysgu, ac iawn farnu,

41. Tri pheth ni ddyly cerddawr eu gwneuthur o'i fodd: cam-ddysgu, cam-farnu, a goganu yn ddiachos.

42. Tri pheth a lawenycha cerddawr: ei ganmawl, gwrandaw ei gerdd yn ganmoledig, a rhoi rhoddion fodd.

43. Tri pheth a goddant gerddawr ac a'i tristaant: pi amherchi, goganu ei gerdd, a'i nacáu.

44. Tri gwarthrudd cerdd: ei hangredu, ei goganu, a'i chan-farnu.

45. Tri anhebgor cerdd: eglur barabl, hyder eofn, a cherddwriaeth.

46. Tri pheth a gyweiriant gerdd ac a'i teilyngant: deheurwydd parabl, cywreindeb synwyr, ac anianawli ddeall.

47. Tri pheth a anghyweiriant gerdd, neu ymadrawd: pwl ddatgeiniad, ac anghywraint synwyr, ac anystyriol ddeall y parablwyr.

48. Tri pheth ni ddyly cerddawr ei cyfaddef: cyfrinach, cywilydd cydymaith, a chelwydd argyweddig.

49. Tri pheth ni ddyly cerddawr eu celu: barn un-iawn ar gerdd, a gwir diwaradwydd, a chlod dyledus.

50. Tri pheth anweddu ar gerddawr: ffrost, gogan-gerdd, a chroesanaeth.

51. Tri pheth a ganmolant gerddawr: haelder, digrif-wch, a defodau da.

52. Tri pheth a waradwyddant gerddawr: cybyddiaeth, gwladdeiddrwydd, a dryg-ddefodau.

53. Tri pheth a ganiedir i gerddawr: clodfori pawb, barn gyfiawn, a dyddanwch.

54. Tri pheth a bair caru cerddawr: cyttundeb, cyn-nilrwydd, a chlodfori dynion da.

55. Tri pheth a bair casu cerddawr: anghyttundeb, anghynnilrwydd, a goganu dynion da.

56. Tri ffurwthlawn gerddawr: prydydd, bardd, ac ys-teriawr.

57. Tri ofer gerddawr: clerwr, bardd y blaewd, a hudol.

58. Tri pheth a wna ffurwthlawn gerdd: dyddanu

meddwl; gwellau cof ac athrylith, a distrywio dryg-fedd-
ylian.

59. Tri pheth a wna ofer-gerdd: methu, llygru synwyr, a mwyau pechod.

60. Tri sylfaen doethineb: ieuencid i ddysgu, cof i gadw, a synwyr i ddeall.

61. Tri chyweirgorn cadwedig cerdd dafawd: calon i feddyliaw, ceudawd i gadw, a thafawd i draethu.

62. Tri pheth a ddyly fod ar foliant gwr: clôd, gweddi, a chynghor.

63. Tri pheth a ddyly fod ar ofyngerdd: deisyf, dyfala, a diolch.

64. Tri pheth a ddyly fod ar farwnad: argyllaeth, cwynfan, a dadolwch.

65. Tri pheth a ddyly fod ar ogangerdd, poi perthyn i gerddawr ei gwneuthur: edliw, difenwi, a rhegu.

66. Tri pheth a ddyly fod ar rieingerdd: meliant, serch-awgrwydd, a chariad.

67. Tri rhyw brifgerdd y sydd: cerdd dafawd, a cherdd dant, a cherdd fegin.

68. Tair prifgerdd dafawd y sydd: prydu, datgana, a chanu gan dant.

69. Tair prifgerdd prydyddiaeth y sydd: gwengerdd, rhiengerdd, ac unbengerdd.

70. Tair rhàn cerdd y sydd: sillaf, gair, ac ymadrawdd.

71. Tair rhàn sillaf y sydd: llythyren amser, ac accen.

72. Tair rhàn gair y sydd: llythyren, sillaf, ac amser.

73. Tair rhyw lythyren y sydd: bogail, llythyren fud, a Hythyren dawdd.

74. Tri rheolaeth sillaf: ei hŷd, ei phwys, a'i natur.

75. Tri pheth a berthyn ar gynghanedd groes: cydat-
teb, cyfnewid, a gorphwysfa.

76. Tair rhàn iaith y sydd: rhàn feddylodig, rhàn ddy-
wededig, a rhàn ysgrifenedig.

77. Tair gwarant ymadrawdd y sydd: llythyr, lliawa, ac arfer; ac nid gwarant camarfer.

78. Tri braint y sydd i bennill o gywydd: pencerdd-
aidd, disgyblaidd, ac iselradd, neu dincerddaidd.

X. TRIODD CERDD ETTO.

*A dynwyd o'r Rhagdraethawd i Ganiadau Llymarch. Mon-
tan y Deg Pen-cantlynopl,*

Yr iaith Gymraeg.

Dychymyg a chrebwyll.

Amcan a dyben. Cerdd.

Rhyw ac ansawdd cyflawn bysiedawd.

Trefyn o barth ymddwyn.

Trefyn ar gyflawn ddyfalu.

Amlder deunydd a dychymyg.

Trefyn ar ganiadaeth, o barth hon, awdyl, pennill, cyng-
hanedd, ac acan.

Gwirionedd.

Rhywiau cerdd, herwydd sylfon, crebwyll, achaws, ac

ystyl. Wyth rhyw ysydd: cerdd sawl, cerdd faneg,

neu hanesgerdd, cerdd addysg, cerdd anereh, dyfal-

gerdd, cerdd alawgwyn, gogan, neu dychan a sen,

hawl ac ateb.

1. Tair cynran celfyddyd: anian, lles, a phriodoldeb.
2. Tri chynnod Anian a Hanfod: lle ni ellir gwell, lle ni ellir amgen, a'r lle ni raid amgen.
3. Tri chynnod lles Celfyddyd: ei hoffi gan y byd, ei rhinwedd yn gwellau'r byd, a i pherffoith-gamp yn oynnal ei hun.
4. Tri nod priodoldeb Celfyddyd: iawn achaws, iawn ymdrefyn, ac iawn gyfuniad.
5. Tri amser Celfyddyd: pan fo iawn, pan fo hardd, a phan fo raid.
6. Tair hyweddiant Celfyddyd: ar a'i hoffo, ar ei de-
allo, ac ar a'i dirper.
7. Tri dyben Prydyddiaeth: cynnydd daioni, cynnydd
deall, a chynnydd dyddanweh.
8. Tair ansawdd Barddoniaeth: athrylith awen, barn
wrth ddysg, a gwynfyd meddwl.
9. Tair colofyn Barn: eon amcan, mynych arfer, a
mynych gamsynied.
10. Tair colofyn Dysg: gweled llawer, dyoddef llawer,
ac ystyried llawer.

11. Tair colofyn Gwynfyd: goddef o foddlonrwydd, gobuith y daw, a chred y bydd.
12. Tair ffynon gwybodaeth: crebwyll, ystyriaeth, a dysgeidiaeth.
13. Tair ffynon Deall: eonder, nwyf, ac yngais.
14. Tair colofyn Synwyr: eglurdeb, llawnder, a chyflawnder.
15. Tri harddwch Synwyr: eglurdeb, cywirdeb, a newydddeb.
16. Tair colofyn Eglurdeb: y gair a fo raid, y madd a fo raid, a'r dull a fo raid.
17. Tair colofyn Llawnder: priodawl feddwl, amyl feddwl, ac angen feddwl.
18. Tair cynneddyf cyflawn Fyfyrdawd; a ddichon fod, a ddylai fod, ac y sydd hardd ei fod.
19. Tri anhebgor Cerdd: awen-fryd, celfydd-bwyll, a gwirionedd.
20. Tri thecâd cerdd: hardd grebwyll, hardd berthynas, a hardd gywreïn-gamp ar fydryddu.
21. Tri ardderchogrwydd Cerdd: godidawg iaith, godidawg ystyr, a godidawg grebwyll.
22. Tri rhaid Cerdd: godidawg amean, synwyr, a deunydd.
23. Tri harddwch Cerdd: mawl heb druth, nwyf heb alladrwydd, a dyehan heb serthyd.
24. Tri amrywiaeth Cerdd: amrywiaeth myfyrdawd, amrywiaeth iaith, ac amrywiaeth colofyn cerdd.
25. Tri gwycheder Cerdd: hygaredd, bywawdledd, ac eonder.
26. Tri melusder Cerdd: hawsder deall, trynwyf iaith, a mwythusber fyfyrdawd.
27. Tri pheth blodeuawg ar Gerdd: ystyrbell iaith, gol-en-ber synwyr, a chywrain gelfyddyd.
28. Tri pheth a wnânt flâs ar Gerdd: amryfal iaith, amryfel fyfyrdawd, ac amryfel gainc ar fesur.
29. Tri ohyttundeb a ddylai fod ar Gerdd: rhwng amryfeiliant a chyfundeb, rhwng rhagor-iaith a ohyffredin-iaith, a rhwng gwir a rhyfeddawd.
30. Tri pheth a bair Gerdd yn dda: ei llwyr fyfyrtaf, ei mwyntych chwiliaw, ac ollawl yntegniaw.

31. Tri phriodoldeb Cerdd; ei maint, ei hamcan, a'i hachaws.

32. Tri iawnder Cerdd; iawn grebwyll, iawn drefyn, ac iawn fydyr.

33. Tair urddas Cerdd; gwired y peth a sonier am dano, godidoced y peth a sonier am dane, a chelfyddyd y dall a sonier am dano.

34. Tri hoffder Cerdd; ei godidawg newyddiant, yr hawsder o'i deall, a'i chywraïn brydyddiaeth.

35. Tair trwyogaeth Cerdd; trylen, trynwyf, a thry-naws.

36. Tri gloywineb Cerdd; gloyw iaith, gloyw ystyr, a gloyw ddyben.

37. Tri dyben Cerdd; gwellâu 'r deall, gwellâu 'r galon, a dyddanu 'r meddwl.

38. Tri gweddusder Cerdd; gweddus achaws, gweddus iaith, a gweddus drefn ar ddychymyg.

39. Tri hoywder Cerdd; hoyw iaith, hoyw fyfyrdawd, a hoyw drefyn ar ganiadaeth.

40. Tri chyflawnder Cerdd; cyflawn iaith, cyflawn ddychymyg, a chyflawn gelfyddyd.

41. Tri deunydd Cerdd; iaith, crebwyll, a chelfyddyd.

42. Tri anhebgor iaith; purdeb, amledd, ac hyweddiant.

43. Tair ffordd yr amleir iaith; amryfelu geiriau cyfystyr, amryfodd gylmeiriau, ac amryddull ymadrawd.

44. Tair cynneddyf purdeb ar iaith; prif ansawdd, prif arfer, a phrif ddeunydd.

45. Tair cainc hyweddiant iaith; a ddeeler, a hoffir, ac a gredir.

46. Tri chynnorthwy iaith; trefyn, nwyf, a chyffelybair.

47. Tri iawnder y sydd ar iaith; iawn eirioli, iawn ymddwyn, ac iawn leferydd.

48. Tair swydd iaith; adrawd, cynhytffu, a dyfalu.

49. Tri pheth a bair iawn Ddyfalu; iawn ddewis ar air, iawn iaithyddu, ac iawn gyffelybu.

50. Tri pheth y sydd ar iawn Ddewis; y iaith oreu, y drefyn oreu, a'r gwrthrych goreu.

51. Tair llafarwedd y sydd ar y Gymraeg; y Wen-

nwyseg, y Ddeudartheg, a'r Wyndddeg; a chyfiawn ar gerdd ymarfer a phob un o'r tair ynghymysg, blith-dra-phlith, yn ol barn ac awdardod y prif feirdd.

52. Tri pheth a wnant Brydydd: awen, gwybodaeth, a chynhyrriad.

53. Tri phrif aithcan Bardd herwydd Pwyll a Dyled: boddiaw Duw, llestu dyn, a pharcht serchogrwydd.

54. Tair prif orchest Bardd: celfyddyd gyrwydded ol sbell ni's gellir cynnefnach o'r symledd, godidawg fyfyr-dawd ni's gellir addach, o'r symledd, a rhagorawl brif-oldeb ni's gellir gweidusach o'r symledd.

55. Tair dyledswydd Bardd: iawn ganu, iawn ddyagu, ac iawn faria.

56. Tair rhagorgamp ar Gerddawr: cyfiawn ddynodi-ant ar bob peth, cyflwyr fanegiant, a chyflwys ganialaeth.

57. Tri dyledogrwydd Cerddawr: grymudor athrylith, cyflawder dysg, a glendyd ei gampan.

58. Tair rhagoriaeth Canu; iawn fydrydda; iawn ddy-fala, ac iawn ymddwyn.

IX. TRIODD MYDRYDDIAETH.

1. Tri anhebgor Mydryddiaeth: colofyn, cynghanedd, ac awdyl.

2. Tri phriodoldeb Mesur: hyd y ban, dull y pennill, a phwys yr acon.

3. Tri phrif rywogaeth ar Fesur: cowydd, ynglyn, ac awdyl.

4. Tri rhagoriaeth Mydyr: cywreindeb, rhwyddineb, ac acon ber.

5. Tri amrywiaeth Ban: amrywiaeth cyhydedd, amrywiaeth cynghanedd, ac amrywiaeth acon.

6. Tair Cynghanedd y sydd o brif ansawdd: cynghanedd sain, cynghanedd groes, a chynghanedd lusg.

XII. TRIODD ADDWYNDER.

1. Tair colofn addwynder: cyfarch parchus herwydd moes a defod, derbyniad serchogaidd a groesawus, ac ymddwyn syber wrth fodd a barcher.

2. Tri enaid addwynder: parch, haelioni, a dyddanwch.

3. Tri anheggor addwynder: groesaw, nawdd, a syberwyd cynneddfawl.

4. Tri hawddgarwch addwynder: cerdd dafawd, cerdd dant, a chyfarwyddyd herwydd doethineb a dyddanwch.

5. Tri harddwch addwynder: doethineb, gwybyddiaeth, a serchogrwydd.

6. Tri chyfarch addwynder: llysair, gofyn hynt a helynt y dŷn a'i dylwyth, a gwahawdd ymarfoll.

7. Tri chyfarch cyfarfod a ddylit gan addwynder: sef ydynt rhad Duw arnoch, neu ar eich gwaith a'ch gorchwyl; pryd bynag y bo o'r dydd yn dda i chwi; a Duw a fo gyda chwi.

8. Tri chyfarch ymadaek: Duw fo gyda chwi; y dydd, herwydd ei bryd, yn dda i chwi; a hanpoch well, neu hanpo gwell y boch.

9. Tri phrif roddion addwynder: ymborth, nawdd, a chyfarwyddyd.

10. Tri chyffredinion llettyaeth herwydd addwynder: lwyd, gwely, a thelyn.

11. Tri rhyw ymdeithydd y ddylit gerdded yn ymrafael gydag wynt, herwydd moes a defod addwynder, a defod bonedd cenedyl y Cymry: ar ol a fo gogynnefin a'i ffordd, o flaen a fo anghynnefin a'r ffordd, a gadael ar ddeheulaw a gerddo gydag ef, neu a ymgyferfydd ag ef ar y ffordd, gan fyned heibio fido yn gyfarchus gan syberwyd.

12. Tair defawd foneddig y sydd gan addwynder: ymgytgerdd, ymgyspwyll, ac ymgychwedl.

13. Tri pheth herwydd addwynder nis dylit eu gofyn i f llettyer: o ba le yr henyw, ei helynt bydawl, a'i fynediad.

14. Tair hawl addwynder, a hyny o'r gwahoddiad diweddaf gan a'i llettyo: nawdd tridiau, gossymaeth, a charedigrwydd.

15. Tri rhagorion addwynder: moethau, llawenydd, ac anrhegion.

16. Tri enaill addwynder: cariad, anrhydedd, a nawdd rhag y bo achaws.

17. Tair gobrwy rhagorion addwynder: bodd Duw, bodd dŷn, a bodd calon a chydwytod a'i daffair.

18. Tri ynniau addwynder: cariad, llawenydd, ac haelioni.

19. Tri arddelwyddion addwynder: estron, rhagor-gamp, a chyteiliornus ei ffordd.

20. Tri dyledogion addwynder: tylawd, gwan, a benyw.

21. Tri blaenoriaid addwynder: adfydig, benyw, ac estron.

22. Tri à flaenorant o flaenoriaid addwynder: y gwanaf, y tylataf, a'r anghyfiaith.

23. Tair cynnosparth addwynder: lletty, cywirdeb, a chariad.

24. Tri holiadolion addwynder: penaeth, benyw, a dyeithr cymrrawd.

25. Tri breinjedigaeth addwynder: gwr llên, crefyddwr, a phlentyn.

26. Tri gofynion er mwyn, nis gellir gan addwynder eu nacáu: er mwyn Duw a'i dangnef, er mwyn a'i gofyn, ac er mwyn à ddichon, dygwydd a damwain.

27. Tri dŷn y dylit addwynder parth ag attynt yn mraint syberwyd: boneddig o barch ac anrhydedd iddo, benyw o hawddgarwch a nawdd iddi, a phlentyn o nawdd ac addysg iddo.

28. Tair braint bonedd y sydd gan addwynder cenedyl y Cymry: braint gynhenid, llên a gwybodau, a gorchestolion moljannus er gwlad a chenedyl.

29. Tri brad addwynder: cyhuddaw ar y llettyedig, datgan ei rin, a thôr nawdd tridiau, sef y bydd y nawdd hono o'r pryd y derbynier hyd ymhen y tridiau, ac o hyn y hyd ymhen y triugeinawr wedi y pryd y gwetawr Duw yn rhwydd i chwi, neu Duw à fo gyda chwi, neu hanpo gwell gan Dduw erddoch.

30. Tair braint gyffredin addwynder: nawdd Daw a'i dangnef, trugaredd anianawl, a syberwyd o fonedd cenedyl y Cymry.

31. Tair braint wahanredawl addwynder: hawddgar-

wah o serchogrwydd, mal y bydd parth ag at fenyw; addysg, mal y bydd i blentyn, ac arall o anwybodus; ac arbenicdor parch, mal a'i dylit i gelfyddigar a gorchest-olcamp foliannus; megis y bydd milwr a wnelo yn orchestwaith, a doeth celfydd yn gwellâu gwyboda.

32. Tri pheth gan addwynder y dylit parth â gwasteion: derbynïad serchawgfwyn, diwallïad parawdlwys, ac ymddyddan cyfeillgar.

33. Tri pheth y dylai gwasteion fod wrth ymadael: yn ddiwallaid o fwyd a llyn, yn fforddiadol eu hymdaith, ac yn gynperchiadol o barch a syberwyd.

34. Tri y dylai gwr eu rhoddi ar fwyd a chyfeillach gyda ei wasteion: ei wraig, ei fab hynaf, a'i ferch hynaf, neu â fythor o henynt; ac efe ei hun yn goreiliaw.

35. Fair defawd gyntafïle delo gwasteion: dwr i olchi traed, cyfarch groesaw gan bendodiaid y teulu, a chadair gar aelwyd.

36. Tri pheth nesaf at yrhain: ei arfaa i'r gwestwr, ymborth o fwyd a diod, a dangaws ei wely, fal y gallor gymmeryd y gorphwys y bo'r corff yn gofyn.

37. Tri pheth hardd ar westwr a gwestai: bod yn addfryn, bod yn dawedawg, a bod yn ddioga.

38. Tri nawdd gwasteiaeth: nawdd Duw a'i dangnef; nawdd iawn a chariadoldeb, a nawdd defodan syberwyd ac addwynder cenedyl y Cymry.

39. Tri ebyfarch bendith gwestwr a gwestai: wrth ddyfod i mewn, bendith Duw yn y tŷ; tra fythor ynddo, am bob dawn a chymmwnias, bendith Duw i chwi, neu Duw a'ch bendithio; ac wrth ymadael, dewch a bendith Duw i chwi, yn wahoddiad dros bob addwynder.

40. Tri atebion bendith: bendith Duw arnoch, bendith Duw yn rhad i chwi, ac ewch â bendith Duw gyda chwi.

41. Tri defawd arferiadawl gwasteion: cyfarch yn nawdd Duw a'i dangnef; ymddiosg â'u harfaa a'u hestyn yn llaw ei oeb, a dangaws rhaid ac achaws mal y gwyper â wnelor iddo ac erddo.

42. Tri pheth boneddig ar west a gwestai eu rhoddi lle delawr: ei arfaa, ei enw, a'i hanfod; a lle gwnelo iawn iddo dri nawdd gwasteion, a'i brodor a'i estron y bo.

43. Tri phrif syberwyd groesaw gan addwynder: dangos caredigrwydd haelionus, dangos â ddiwallawr yn ym-

berth a gorphwys yn y bo achaws a rhaid, ac arfau yn ol yn llaw a'u pieuffo.

44. Tair camp addwynder herwydd pe rai dylit arfoll gwesteion: trugaredd haelionus, deddfoldeb trefnus gan syberwyd, a llawenydd gweddus a diargywedd.

45. Tri harddwch gwesteiaeth ac addwynder: arafwch, trefnusder teuluaidd, ac ymddwyn cysbwyllus.

46. Tri anhardd gwesteiaeth: bod yn rwyholgar, yn lodd-estgar, ac yn athrodgar.

47. Tair urddas gwesteiaeth: rhywiogrwydd defodau a moesau herwydd a ofyn syberwyd, gwybodau moliannus ac urddasawl, a llafariaeth gyfiawn heb ledryw ar bwyll a cheinmyged y Gymraeg a'i hymadroddion.

48. Tri pheth anhardd ac anaddwyn ar bob rhyw a gradd o ddyn, beth bynag, a pha le bynag, a phryd bynag y bo: sef dioglydrwydd, surllydrwydd, ac annysg herwydd ei rádd a'i ansawdd.

49. Tair camp anferth, anaddwyn, ac ansyber: tyngllydrwydd anudonllyd, celwyddgarwch, ac athrawd onllibgar.

50. Tri anaddwynder ni waeth cythraul noc a'u gwnelo: datrin cyftinach, ansyberwyd parth ag at a rotho letty a groesaw yn ddosparthus gan syberwyd haelionus ac addwynder defodawl, ac anniolch lle delawr yn y troatto ar westeiaeth.

51. Tri ansyberwyd a wrthladdant addwynder yn gyflwyr: ansyberwyd parth ag at fenyw, ansyberwyd parth ag at ddoeth a gwybodus cyhoeddig, ac ansyberwyd parth ag at gwr wrth grefydd a dwyfoldeb.

52. Tri mygedigion cyntaf pob cyfarch syberwyd ac addwynder: benyw, gwr wrth ddysg a gwybodan, a gwr wrth fraint ac urddas gwlad.

53. Tri rhyw y sydd o ddynion wrth fraint ac urddas gwlad a chenedyl addwyn: gwyr wrth deyrnedd, megis y bydd arglwydd y cyfoetha'i wyr swydd dosparthus a gwarantedig; gwyr wrth grefydd a dwyfoldeb dosparthus; ac athrawon celfyddydau a gwybodau gwladolion, lle bont warantedig o fraint a swydd; sef heb y tri hyn, nis gellir addwynder ar wlad a chenedyl.

54. Tri anmharch ac anurddas tywr gan syberwyd ac

addwynder, o'u gweled llw dydd a'i flunon yn mygu: ef cyfarthgar yn y baili, drain ar ei gymmad, neu borth yn nghaead, ac anatteb cyfarch drws.

55. Tri pheth anferth ar lasar gan westeiaeth: celwyddau, budreddair, a beiau neu achwyn ar arall, lle nas gofyn-er gan wr na chan achaws dosparthus a gorfod o gyspwyllad.

56. Tri anaddwynder anferth ar bob dyn, ac a'i dyfethant yn y diwedd: dichell, llid, a glythineb ar fwyd a diod, rhag anmoneddiced y cynneddfau hyny.

57. Tri pheth anweddus ar fwyd: rhy chwedteua, mur-sendod, a chanmawl neu feiaw y bwyd; can y dylit ei gymmeryd mal y danfono Duw ef.

58. Tri pheth à fawr weddant eu bod ar west à gwest-elwr: glander corff a gwisg, glander ymadrawdd; a glan-der moes a defawd; can nis gellir addwynder a syberwyd hebddynt y cynneddfau hyn.

59. Tri pheth ni ddylai neb gymmeryd tâl gan ddyeithr, neu ddyn ar ymdaith, a'u gofynio: flaeth, halen, a bara; ac am amgen o bethau gwerth nid anaddwyn derbyn tâl lle à'u gofynwr dros dâl.

60. Tri pheth à ddylit yn rhydd heb na thâl na gwobr i, bob gwr ar ymdaith lle ydd elo: dwr, tân, a gwasgawd rhag dryc-hin.

61. Tair rhodd elusen à ddylit i bob dferth ac anghen-us: ymborth, nawdd, a dangaws.

62. Tair anaddwyngamp gythreulig ar ddyn: gormes, cenfigen, a balchder.

63. Tri pheth à ddylit o addwynder eu diolch gan syberwyd: gwahawdd, budd, ac annerch.

64. Tri pheth y dylit parth ag at gwesteion yn barch arnynt: eu haroll o bell yn garedig lle gwyper eu dyfod, eu groesawu yn foneddigaidd ac yn anrhydeddus gyda phob llawenydd ac haelioni tra'dd arosont, a'u hebrwng yn garedig a pharchusbyll y pryd ydd elont.

Ac jelly y terfyna Triodd Addwynder.

XIII. LLYMA DRIODD Y BRODYR.

1. Tri brodyr doethineb: a wrendy, a edrych, ac a ddaw.

2. Tri brodyr sbectach: diymdaws, gencurwth, a chwertinus.
3. Tri brodyr callineb: araf, ymbwyllgar, a diwyd.
4. Tri brodyr casineb: anynad, neu fyrbwyll, trachwantus, a diawg.
5. Tri brodyr cyfenrhaith: hael, tangnefus, ac ewyllysgar.
6. Tri brodyr cyfeillach: cyfarchgar, ufudd, a chelfydd.
7. Tri brodyr cyfiawnder: deddfawl, trugar, a serehawg.
8. Tri brodyr tangnef: gwirioneddus, tawedawg, a maddeugar.
9. Tri brodyr cynhwrf: a thorfysg: taringar, cribddeilgar, a chelwyddawg.
10. Tri brodyr prydfertbwch: glân, o gamp, syber, a syw.
11. Tri brodyr ffeidd-dra: badr, o gorff, ansyber, ei foes, ac amhrydferth ei gamp.
12. Tri brodyr celfyddbwyl: oerddgar, myfyrgar, ac anfalch.
13. Tri brodyr cerddoriaeth: penigamp, ymchwelawg, a boneddig.
14. Tri brodyr anrhydedd: doeth, moesgar, a-gwrawl.
15. Tri brodyr gwarth a gwaradwydd: annoeth, anwr, ac anfoesgar.
16. Tri brodyr braint a urddas: huddygawl, diffyngar, a diwyllgar.
17. Tri brodyr amraint: ffoedar, anniwyll, a bradwr.
18. Tri brodyr eifannedd: bardd, fferyll, a thelynawr.
19. Tri brodyr fferylltawd: gôf, maensaer, a phronsaer.
20. Tri brodyr teuluaeth: prydydd, ysgolydd, ac yspinydd.
21. Tri brodyr cyweithas: deddfwr, llafurwr, a gwedydd.
22. Tri brodyr anghyweithas: ynad, milwr, a masnachwr.
23. Tri brodyr gwroldeb: cydwybodawl, cartrefawg, a gweithgar.
24. Tri brodyr gwladolder: meddiannawg, heddgar, a gwybodus.
25. Tri brodyr cadernyd: gwladog, trasog, a boddog.
26. Tri brodyr trefogaeth: dewr, tirion, ac amyneddgar.
27. Tri brodyr oymmed: cyfymbrawf, tostur, ac anfalch.

28. Tri brodyr boddlendeb: haelionus, anfoethus, ac afrwysgus.

29. Tri brodyr cyfoeth: gwar, cywir, a hyddysg.

30. Tri brodyr tylodi: gwrthnysig, diddysg, ac anghywir.

31. Tri brodyr gwirionedd: glew, cymmedrawl, a chydwybodawl.

32. Tri brodyr harddwch: rhadferthus, cyfiawn, a chariadus.

33. Tri brodyr rhadferthwch: trefnus, gochelgar, ac awengar.

34. Tri brodyr deall: ymgeisgar, gwybodgar, a phrofiadawl.

35. Tri brodyr dysg: awen, athraw, ac ymgais.

36. Tri brodyr awen: selgar, chwilgar, a gafaelgar.

37. Tri brodyr gwybodaeth: obf, trefn, ac ystyriaeth.

38. Tri brodyr cyfundeb: deallus, hywedd, a dwyfawl.

39. Tri brodyr cyfrinach: bardd, brenin, a gwrawl.

40. Tri brodyr blaenoriaeth: medrus, addfwyn, a ffyddlawn.

41. Tri brodyr cymmyred: cyweithas, telediw, a dyledgar.

42. Tri brodyr ffydd: cyfrin, cywir, ac a garer.

43. Tri brodyr dwyfolder: dyoddefgar, cariadgar, a gwirioneddgar.

44. Tri brodyr llwyddiant: gofal, hyder, a diwydrwydd.

45. Tri brodyr cymmodogaeth: cymmwynasgar, trywyngar, a chynneddfawl.

46. Tri brodyr gwladoldeb: teuluawg, llonyddgar, a gwelleugar.

47. Tri brodyr dyddanwch: cerddgar, cyfarwydd, a difyr.

48. Tri brodyr celfyddyd: cofus, anghenus, a myfyr.

49. Tri brodyr teuluaeth: syberwyd, sywder, a serchog-rwydd.

50. Tri brodyr dedwyddyd: cariad, cywirdeb, ac isel-fryd calon.

Ac felly y terfynant.

RISIART IORWERTH a'n Cant

XIV. LYMA EREILL O DRIODD Y BRODYR..

1. Tri brodyr cân a chwiban: iach, digonawl, ac a ddang air da.
2. Tri brodyr charyddiaeth: hawddfydig, llawen anianawl, a chyfeillgar.
3. Tri brodyr oferwaith: gormeddawg, diswydd, ac ynfyd.
4. Tri brodyr llawenydd: nwyfus, buddygawl, a chled-gael.
5. Tri brodyr cyfeddach: prydydd, piwydd, ac offeir-iad.
6. Tri brodyr gwallgof: chwareugar, diodgar, a phat-eingar.
7. Tri brodyr celwydd: gwr llên, henddyn, a theithiwr o bell.
8. Tri brodyr oyanach: arglwydd cyfoeth, rhingyll, a gwr diarn.
9. Tri brodyr brâd a chynllwyn: tlawd, trachwantus, a gorthrymedig.
10. Tri brodyr cyfathrach: anudawr, brodyr, a brawd llwyr.
11. Tri brodyr cyfeilin: cybydd, tollwr, a chythranko-uffern.
12. Tri brodyr henywaeth: trwsiadgar, celiweingar, a gwenieithgar.
13. Tri brodyr marsendod: mânfoethus, chwedleugar, ac anwybodus.
14. Tri brodyr canwaith: arianog, diddef, a diglod.
15. Tri brodyr gormeilgarweh: anneddfawi, annedhus, ac anfoneddig.
16. Tri brodyr tringarweh: swyddog llys, eglwyswr, ac anffodus.
17. Tri brodyr gormes: meddwyn, masnachwr, a llagw-arian.
18. Tri brodyr ahwyaid: celwyddawg, ymfrostiawg, ac anghalonawg.
19. Tri brodyr diawl cŵslawn, dabeiniawg, a chen-figenus.

20. Tri brodyr syrfddandod: carwr nwyfwyllt, campwr awenboeth, a hen wr oilpentan.

21. Tri brodyr difyrwch: dideulu, diymgais, a mab ei fam.

22. Tri brodyr pen tai: maensaer, prensaer, a datgeiniad.

23. Tri brodyr pen mynydd: hafodwr, heliwr, a myfyrgar.

24. Tri brodyr diofalwch: di arglwydd, di wraig, a diddyled.

*Ac felly y terfyna Triodd y Brodyr; a RISIART IOR-
WERTH o'u cant yrhain hefyd, ger bron Twmpath
prydyddion Tir Iarll.*

XV. TRIODD Y DOETHION.

*Sef Cynghorion er daioni yr Enaid, a lles bywyd corff-
arawl.*

1. Tri madgael y sydd, ac a'u caffo nid rhaid iddo ychwaneg: car cywir, cydwybod lân, a deall ar iawn a gwirionedd.

2. Tri pheth à barant hir iechyd ac einioes: gweithgarwch cymmesurawl, myfyrdawd awenaidd, a thangnef meddwl.

3. Tri pheth goreu y byd hyn: iechyd corff, pwyllgarwch meddwl, a chydwybod dangnefeddus.

4. Tri pheth à wnant ddedwydd: gwybodau daionus, defodau moliannus, a thangnef cydwybod; ac a'u medd nid rhaid iddo mwy.

5. Tri pheth goreu fydd eu gochelyd à holl nerth traed ac ymbwyll: neidyr ddu, merch gwnawdgar, a phechawd amlwg.

6. Tri pheth, bod hebddynt, bod heb y cwbl à wedd arddyn ar ddyd eu meddau: heb gywilydd, heb wybodaeth, a heb gywirdeb.

7. Tri pheth ni chywelyfant fyth: cwsg mawr à gwybodau, golud à haelder, a ffydd yn Nuw à bydoldeb.

8. Tri pheth nid call rhwy ymddiried iddynt: gwynt-odd gwanwyn, breuddwyd meddwyn, a llwyddiant byd-awl.

9. Tri pheth ni chydwyddant byth: dwy wraig yn yr un tŷ, dwy gâth am yr un llygoden, a dau fab am yr un ferch.

10. Tri pheth â gyd gerddant â serch ar ferohaidd: tra-fferth corff, colli-cwsg, a gwall ymswyn.

11. Tri pheth nid call eu bostio: blas dy gwrw, tegwch dy wraig, a rhif yr arian yn dy bwra.

12. Tri pheth nid rhaid addysg arnynt: oysgu, chwerthin, a charu.

13. Tri anghysur gwr yn ei dŷ: sawell fyglyd, tō dyferllyd, a gwraig geintachyd.

14. Tri choll â fyddant goll dros byth: coli morwyn-dawd, coll amser, a choll gair da.

15. Tri chwylf ni's gellir eu meddyg: poethni gwyn-osaïnt, cariad rhieinferch, a chnôad cydwybod.

16. Tri pheth goréu pa bellaf oddiwrthynt: ci cynddeir-ïog, merch anllad, a gwr gwenieithus.

17. Tri pheth iachus ei harfer: rhodio yn fywns, llafaru yn soniarus, ac ymborth lywōdraethus.

18. Tri anhebgor trafaetwr: march da, bathgod lawn, a chyfaill cywir.

19. Tri anhebgor meddyg: llaw rbieinferch, llygad heb-og, a chalon llew.

20. Tri anhebgor celwyddwr: cōf da, wyneb cadarn, a ffol i wrandaw.

21. Tri pheth â welir ar y paep: gwisg angel, rhoddiad lleidyf, a llof cythraul.

22. Tri anghudd pob llysewyn: ei flâs, ei floteuaeth, a'i addon.

23. Tri pheth anferth eu gweled: mab diddysg, merch drythyll, ac offeiriad ymladdgar.

24. Tri dŷn y chwerddir am eu penau: hen wrach yn ymbincio, hen wr yn neidio, a hen offeiriad meddw.

25. Tri pheth nid hawdd eu cael: cywirdeb mewn gwen-iaith, pwyll mewn bōl bras, a dysg ar dda mewn cyfeillach ddrwg.

26. Tri pheth da chustfeinio arnynt: cynghor doeth, llafar gwirionedd, a'r ceiliog pylgain.

27. Tri oferwaith byd; cyrchu dwr mewn gwagyr, rhybuddiaw berthawg, a chynghori henddyn.

28. Tri anhawsder byd dadwallgofi balchder, dadlygru calon cybydd, a fattroi meddwl henddyn.

29. Tri pheth a frathant yn ddot: hen gostog tom, hen neidyf dan sawdl, a chybydd euog.

30. Tri pheth a wnant oludawg yn dylawd! gwrtaig falch, tŷ mawr, a gwats anghywir.

31. Tri pheth a barant yn ddwg y neb y bont arno: amwydaeth, balchder, a thrachwant.

32. Tri pheth arall hanpid gwaeth a font arno: glyth-inob, fsmallweh, a godineb.

33. Tri arwydd ffol ac amnoeth: digio yn ddiactios, chwerrhan heb achos, a rhagu ar arall y beiaf font arno ef ei hŷn.

34. Tri ffol pendafad: cynghorwr merch wingfhyd, rhybyddiwr mab diodgar, ac a ddoto addysg o flact a dyble ef hunan yn gah.

35. Tri dŷn y sydd a gwae a ddeio dan eu erafanga: cyfnewr o frawd llwyd, llogwr arfan, ac arglwydd tir o gostoglwyth.

36. Tri pheth sy yn cadw y byd yn ei le: eosb, gobrwy, a rhyddid.

37. Tri pheth a ddettry y byd yn ei wrthwyneb: eosb anghyfiawn, gobrwy annheilwng, a rhyddid i bechu.

38. Tri pheth a ddengys corawg: rhoi yn llawen, rhoi yn ddiattreg, a chadw yn rhin a roddwyd.

39. Tri pheth a ddengys anghawr: rhoi yn drist aflawen, rhoi yn hwyr gan hir ymattreg, a datgan ar gynolud a roddwyd.

40. Tri pheth a fyddant gyda dŷn dros byth: ei serch, ei gas, a'i gydwybod, a'r drydedd yn barnu byth ar y ddau ereill.

41. Tri pheth lle nas deddfoler a barant wed yn y diwedd: serch, gas, a chydwybod.

42. Tri pheth a fynant dros byth wrth bob dŷn: ei awen, ei rymiad, a'i gydwybod.

43. Tri gorchymyn a ddodwys Duw ar ddyn: ymgais a gwybodan molianus, gwnethur a ellir o ddaloni, a

chenedlu plant o brïodas gyflawn; canys o'r tri hyn y ced-wir y byd yn ei le.

44. Tri pheth gydag amser anianawl a dyfant hyd add-on yn ddiymffael: yr hâd a ddoder yn naiar, y daioni a wneier o gydwybod, a'r drwg a wneir o ddirieidi.

45. Tri pheth a gâr diriaid: anwybodaeth yn arall, an-wireddu ymhob peth a weto ac a wnelo, ac argyweddu y ffordd y cerddo.

46. Tri pheth a gâr dedwydd eu gwneuthur: ymwellau o gydwybod, llesâu arall, a gwyllaw rhag argyweddu.

47. Tri ymattal dedwydd: ei dafawd, ei ddwrn, a'i flysigrwydd.

48. Tri ymattal diriaid: ei bwyll, ei barch, a'i lês tragywydd.

49. Tri goruchafiaeth dedwydd: bod yn ddeallus mewn daioni, yn serohog tuag at bob daioni, ac yn llwyddiannus yn mhob daioni.

50. Tri goruchafiaeth diriaid: deallus mewn drwg, seroh at bob drwg, a llwydd yn mhob drwg.

51. Tri pheth ni chydfydd a dedwydd: rhaccraff, rhagrith, a rhagraith.

52. Tri pheth ni chydfydd a diriaid: rhagddarbod, rhagddeall, a rhagddangos.

53. Tri pheth y gwna dedwydd: ymgais a gwybodau gan arall, ymarfer a'i wybodau ei hunan, a dangos gwybodau i arall.

54. Tri pheth y gwna diriaid: gwaradwyddaw gwybodau yn arall, ymfodloni yn anwybodaeth ei hunan, a chuddiaw a wyr o wybodau rhag arall.

55. Tri arwydd dedwydd: gwneuthur daioni, gochel niwed, a myfyrio dwyfoldeb.

56. Tri arwydd diriaid: ymwynfydu mewn drwg, ym-egniaw i niwed, a myfyriaw cythreuligrwydd o bob rhyw a rith.

57. Tri banogion dedwyddyd: ufudd-dawd, diweirda, a dirwest.

58. Tri banogion direidi: gwrthneus, anlladrwydd, a gloddest.

59. Tri gwynfyd dedwydd: ei ddiwydrwydd, ei wybodau, a'i ddeddfoldeb.

60. Tri gwynfyd diriaid: ei ddlogi, ei ddichell, a'i anrhaith.

61. Tri ymwrthod dedwydd: ymwrthod â'i rymwyf, ymwrthod ag anneddfoldeb, ac ymwrthod â bydoldeb.

62. Tri ymwrthod diriaid: ymwrthod â phob dirwest, ymwrthod â phob-deddfoldeb, ac ymwrthod â Duw.

63. Tri pheth hoff gan ddedwydd eu bod ar ei law eu gwneuthur: gwirioneddu ar farn, gyru addysg ar wybodau, ac amwellâu ar wybodau a chynneddfau.

64. Tri pheth hoff gan ddiriaid eu cael ar ei law a'u gwneuthur: anwireddu ar air a gweithred, argyweddu gwybodau, a gwaethyg pob defodau a chynneddfau daionus.

65. Tri thywysogaeth dedwydd: diwydrwydd, galledigaeth, a chyflawnder.

66. Tri thywysogaeth diriaid: overedd, trais, a dichellion.

67. Tri pheth y pwys dedwydd arnynt: ar ei ddiwydrwydd, ar ei wybodau molianus, ac ar ei Dduw.

68. Tri pheth y pwys diriaid arnynt: ar a gaffo yn rhâd, ar ei ddichell, ac ar ni ddaw byth i ben.

69. Tri pheth â wna diriaid: lle nas gallo ddichell murn, lle nas gallo ei obaith lledrad, lle nas caffo-ddawn ym grogi.

70. Tri anffawd cymmodogaeth: diriaid ysgymyn, cybydd anghawr, a gwas i ragwas arglwydd.

71. Tri pheth â flaenlymant y pwyll a'r deall: bodd cydwybod, budd corfforawl, a chlôd y doethion.

72. Tri pheth â gynhyrfant awen: gobait, serch, a llawenydd.

73. Tri pheth a ddifenwant awen: anobaith, cas, a thristwch.

74. Tri phrif gyferddawn enaid: serch, pwyll, a chydwybod.

75. Tri gwrthuniaid byd: oer a thwym, mawr a bach, a thywyll a goleu.

76. Tair sail camp a gweithred: barn doeth, arfer gwlad, a serch cydwybod.

77. Tri pheth â barant lwydd ar awen a deall: cynneddfau daionus, digonedd bydawl, a myfyrdodau doethion.

78. Tri pheth a ddwyfolant awent: cariad perffaith, pwyll gwybodgar, a chalondid haelionus.

79. Tri anhardd ar ddyn: gylthni, drogi, a diglhedd.

80. Tri pheth a yrant bob peth ar wallymsawdd: hyrbwyldra, trachwant, a balchder.

81. Tri pheth a geiff glwth: cywilydd, afiechyd, a dig ofaint Ddu.

82. Tri hollawd a ddylit yn mhob ymgais: yr holl serch, yr holl ddeall, a'r holl allu.

83. O dri pheth y ceir gwyboda: odf er yn oes oesoedd, ymgaffaeliad pwyll, ac addysg athraw dysgedig.

84. Tri oferion byd: ceisiaw attal y gwynt, eroywdd y môr, a gyra addysg ar ddriaid.

85. Tri arwydd doethineb: defodau dalonus, ufydd-dawd rhag athraw, a threfnu yn ddorparthus.

86. Tri pheth a geir o fyfyrdawd gyflawn: gwyboda, boddlondeb, a pharch doethion.

87. Tri pheth a ennillont barch i wr: gwyboda, mol-iannus, cynneddfau dalonus, a chalngynnal dosparthus.

88. Tri pheth a ddangosant wybodaeth: ymddwyn haelionus, buchedd, gynneddfus, ac ymgynnal yn anrhyddus.

89. Tri pheth cythreulig ar ddyn: twyll cynnen, ac enllib.

90. Tri pheth ni ddiffyg ar neb i ddiertth o bydd haelionus: tywarchen orphwys, dŵr rhag syched, glan gyfarch cariadus.

91. Tri dyn nid oes gand Dduw a wnel ag wynt: a ymfalchio yn ei ddryg, a ymfoddlono yn ei anwybodaeth, ac a ymddarostyngo dan bob dihiryn dryglawn er ennill bydawl.

92. Tri dyn da ei gochelyd: claf, cynddeiriawg, a thafodrydd.

93. Tair merch gocheler eu priodi: merch bengoch, merch chwedleugar, a merch fadrogled.

94. Tri pheth a wnant ddyn yn ddifawl parod: gloddest, balchder, a chreulondeb.

95. Tri dyn y dyllid gadael yn rhydd y ffordd iddynt: oedranus, dolurus, a llwythog.

96. Tri pheth cystal y naill a'r lleill o honynt: seren bren, march brwynen, a bardd annysgedig.

97. Tri pheth byr en parhad: cariad-crotyn, tŷnagled-yn, a llif cornant.

98. Tri pheth molalwy ar wraig: arafwch, tawedoc-rwydd, a sywder.

99. Tri goreuon bywyd: iechyd, boddlondeb, a chyd-wybod lân.

100. Tri pheth à barant ddyddanwch anhygell: ymbwys ar à ellir o hunan, ymbwys ar ddaioni, ac ymbwys ar Dduw.

101. Tri pheth nis gellir dyddan o henynt: ymbwys ar à ddygwylhier gan arall, ymbwys ar ddrwg, ac ymbwys ar wagobaith.

102. Tri sylwedd ystyriaeth: à fo hardd, à fo daionus, ac à ellir ei dwyn i ben.

103. Tri sylwedd gwall ystyr: oferedd ansyber, argy-weddu o ansawdd, a'r hyn nis gellir ei ddwyn i ben.

104. Tri pheth ni ddaw ond à fo drwg o henynt: à wneir yn fyrbwyll, à wneir gan ofn, ac à wneir gan ddiogi neu lesgyngais.

105. Tri dŷn ni waeth ba leiaf à ymwneler ag wynt: ofnus, anystywallt, a byrbwyll.

106. Tri pheth à ddangosant ddŷn yn gythraul cyflwyr: balchder ar ddrwg, twyll diynnill, a drygu diniwed.

107. Tri dangos y sydd ar bob peth: yr enw arno, y màn y bo, a'r ansawdd; a'r gair à gamddengys, ysgwaethaf o gelwydd hwnw.

108. Tri pheth ni ddiffyg arnynt faddeuant am hech-awd à chamwedd: maddeu-cam, cariad haelionus, a diwyg-law à wnaed o gam i arall.

109. Tair cynneddf dwyfawl ar ddŷn: bod yn drugar, bod yn wirgar, a bod yn wybodgar.

110. Tri uffernolion byd: enllibwr, ymladdwr, a lleidyr.

111. Tri phrif-anrhaith byd: enllib à ddwg à fo iawn ac eiddo arall o'i glod a'i air da; godineb, à ddwg à fo iawn ac eiddo i arall o'i briawdserch a'i fraint o etifeddiaeth; a thrachwant à ddwg o ledrað, a chribddail, a thwyll, à fo iawn ac eiddo i arall o ddiodd byd à meddiannau gwlad-awl.

112. Tri chyngor y llafurwr iddei fâb: bydd ddeallus y gwanwyn, bydd llafurgar y cynhauf, a bydd ystyrgar bob

113. Tri Hafar y marw o'r hedd: gwyddost beth oeddwn, gwel beth ydwyf, a choſa beth fyddi.

114. Tri chyfeirnod ymgais a diwydrwydd: byw glân, gwybedau doethineb, a chynneddfoldeb dwyfawl.

115. Tair ffordd ddaionus y ceir golud: ymlafuriaw yn ddiwyd drwy gyflawnder, o ddoethineb gwelleugar ar wybodaau a chelfyddydau, ac o ddawn cywiriad o geraint a chyfeillton.

116. Tair deddf sy bènaf i bawb: gobrwy i'r dawnus, cosp i'r drwg, a llonydd a gadael i bawb ereill yn y wyper eu hansawdd parth camp ac athrylith.

117. Tri chyspwyll teyrnedd: nawdd cywiriad, cosp di-hiraid, a chyflawnder i bawb.

118. Tri anhebgor gwybodaeth: cywirdeb meddwl, awen anianawl, a diwydrwydd trysorch.

119. Tri chyfrwym gwybodaeth: ysgoleigddod llythyr a llyfrau, athrawon trwyddedogion, a chof gwlad a chenedl.

120. Tri anhebgor ysgoleigddod: awydd diwydgais, pwyll awenfryd, a llyfrau cyfiaith.

121. Tri anhebgor pwyll: nwyf, arafweh, a gwybodau.

122. Tri pheth a wnant ddoethineb: gwybodau, pwyll, ac awen.

123. Tri chyferddawn doethineb: digonedd bydawl, dyddanwch meddwl, a gwynfyd tragywyddawl.

124. Tri pheth a barant wynfyd calon i ddyn: iechyd corff, llwyddiant bydawl, a bodd cydwybod.

125. Tri pheth a geir o fyw yn fras ac yn foethus: afiechyd corff, pylder deall, ac anwydau pechadurus.

126. Tri pheth a geir o fyw ar lysiau y ddaiar: doethineb, iechyd, ac einioes hir dawelfyd.

127. Tri pheth a wnant wr yn ben ar y byd: bod yn ddiwyd yn ei orchwyl, yn ddoeth ei ymddwyn, ac yn gywir ei gynnoddffau.

128. Tri pheth sydd gystal a'r goreu: bara drwyddo rhag newyn, dwr ffynon rhag syched, a phais lwyd rhag anwyd.

129. Tri pheth a fyddant gystal a'u hamgen: dwr brwnt i ddiffod tân, gwraig hagr i wr dall, a chleddyf pren i wr llwr.

130. Tri pheth nid rhaid eu gwell yn hyn o fyd: iechyd

i weithio, gwybodaeth i wneuthur gwaith, a gwaith idde i wneuthur.

131. Tri pheth ni ddylaint fod byth oddigartref: câth, sawell, a gwraig y tŷ.

132. Tri dau ni fawr ymgyttunant: dau gi am yr un asgwrn, dwy wraig yn yr un tŷ, a dau fab am yr un ferch.

133. Tri pheth ni waeth gadael iddynt ne cheisiaw tro arnynt: ei cynddeiriog, trenllif afon, a doeth yn ei olwg ei hun.

134. Tri ansyberwyd gwledd: trachwerthin, ymrysonau anghysbwyll, a meddwdawd.

135. Tri pheth canmoladwy ar wr: hyder, arafwch, a diwydrwydd.

136. Tri pheth serchog ar ddŷn: haelioni, llawenydd, ac awen.

137. Tri pheth ar ddyn a enilliant anmharch iddo: bod yn daer am ei gardawd, yn fyr ei gymmwynas, ac yn hir ei eistedd lle ydd elo.

138. Tri pheth ar ddŷn a enilliant iddo barch a chymmeriad: gwylder yn gofyn, parod ei gymmwynas, a gochelyd gormes.

139. Tri anhebgor celfyddyd: awen gynhenid, addysg gynnwysbwyll, ac ymgais diymball.

140. Tri chadernyd celfyddyd: ansawdd gywirbwyll, dosparth gyweirglaer, a llesioldeb cyffredin.

141. Tri cyfles celfyddyd: trefnu gwybodau, hawddan gorchwyl, a mwyâu deall.

142. Tri chyfrwym celfyddyd: trefnu gwybodau, galluoldeb, a buddioldeb.

143. Tri chyfrwym cenedl: teyrnedd, rhaith, a braint.

144. Tri chyfrwym teulu: pendawd, dosparth gywair, a chariadoldeb.

145. Tri chyfrwym cyfeillach: lawenydd, cymmwynas, a syberwyd.

146. Tri chyfrwym teyrnedd: cadernyd, cyfiawnder, a thrugaredd.

147. Tri chyfrwym gwybodau: cyfiaith, cyfnerth a chyfarwyddyd.

148. Tri chyfrwym dosparth: gloywder, hawsder, a chyfiawnder.

149. Tri chyfrwym doethineb: awen arllanawl, gwybodaau gloywon, a chynneddfau cyfiawnbwyll
150. Tri chyfrwym cyfiawnder: deall, gwirionedd, a chariad.
151. Tri chyfrwym dwyfoldeb: créd, serch, a gobraith.
152. Tri chyfrwym créd: tyst, galledigrwydd, a goreu-der.
153. Tri chyfrwym dedwyddydd: dwyfoldeb, goddefoldeb, a chadernyd.
154. Tair colofn cyfiawnder: *gwarineb*, sef ymattal rhag ymddarsang ar arall mewn na gair, na gweithred, nac ymddwyn; *caredigrwydd*, a hyny ni wna yr hyn a boeno neu a fino arall ar na gair, na gweithred, nac ymddwyn; a *haelioni*, yr hyn ni gttail rhag arall a fo cyfiawn iddo, ai meddiant, ai meddwl, a'i cymmyred y bo.
155. Tair colofn anghyfiawnder y sydd: *balchder*, yr hyn a ddamsaing arall ac a'i gormeilia ar air, a gweithred, ac ymddwyn; *creulondeb*, yr hwn a bair i arall boen a blinder corff a meddwl yn amgen nac a ddylit iddo o gosp gyfiawn; a *chribddail*, yr hyn trwy ledrad a thwyll ac ymball, a ddifuddia yn anghyfiawn arall o'i dda byd, ac o'i barch, ac o'i feddwl cyfiawn.
156. Tri pheth y sydd lai no dim: benyw heb ddiweirdeb, gwr heb ddoethineb, ac athraw heb amynedd.
157. Tri pheth y rhoddes Duw ar bob dŷn a danfonwyd i'r byd: ymgais a gwybodau doethineb, ymarfer a chyfiawnder, a gwneuthur trugaredd hyd eithaf gallu.
158. Tri pheth a ddygant ddŷn yn bensych drwy'r byd: iechyd, celfyddyd, a gair da.
159. Tri pheth a wnant wr yn foddolawn iddei fyd: gwraig rinweddawl, llwyddiant ar ei ymgais, a chydwybod diargywedd.
160. Tri pheth nis gellir dedwyddydd hebddynt: ufydd-dawd, cyfiawnder, a chariad.
161. Tri chyfarlludd dedwydd: trachwant awyddus, gwyniau afreolus, a choegwybodau twyllodrus.
162. Tri chyfarlludd daioni: gwendid corff, anwybodaeth, a chwantau annosparthus.
163. Tri cyfarlludd awen: trachwant bydawl, gwall-addysg, a thrallesgedd.

164. Tri chyfarfudd doethineb: cyhydd-dra, gythineb, ac ofergampan.
165. Tri chyfarfudd llwyddiant: anwybodaeth, an-niwydrwydd, ac anneddfoldeb, neu anghywirdeb.
166. Tri chyfedllw doethineb: trachwant, dichell, ac ofn; a phenaf ydynt à ellir yn ffoldeb.
167. Tri chyfergyr doethineb: gwerinaw gwlad a chenedl, tangnefol meddwl a chynneddf, a medru ar wynfyd tragwydd, sef hyny boddau Duw.
168. Tri chyfnerthawen: cyfarwyddyd, côf, allwyddiant.
169. Tri chyfergyr awen: harddwch, deall, a lles-ioddeb.
170. Tri chadernyd deall: darbod, côf, a dosparth.
171. Tri chyfnerth deall: threfnusder, ystyr, a chyssulw.
172. Tri amgyffred deall: amser, lle a dichwain.
173. Tri chyfarffordd anesgorol dŷn ffordd ydd elo drwy y byd: haint colled, a phechawd.
174. Tri ardymmyr enaid dŷn: serch, côf, a deall; ac o'r tri hyn y tardd yr holl wybodau a'r celfyddydau; ond heb y lleill ni fydd y naill ond diffwrth; a diffwrth y lleill heb y naill.
175. Tri ardymmyr gwybodaeth: ceudawd, cynneddf, a dosparth.
176. Tri ardymmyr ceudawd: côf, deall, ac awen.
177. Tri chyfnwydd ceudawd: dychymygu, diongli, a chyfarwyddaw.
178. Tri daffarollion ceudawd: amlygu gwirionedd, amldau gwybodau, a threfnu dosparthau cedeirn.
179. Tri chadernyd ceudawd: awen, côf, a gwybodau dosparthus.
180. Tri chyfiawnder ceudawd: gwirionedd, lleuerawd, a dedwyddydd.
181. Tri ardymmyr dedwyddydd: doethineb, tangnefoldeb, a dwyfoldeb.
182. Tri pheth y cyfymbwys dedwyddydd arnynt: ar-ddiwydrwydd cynneddfawl, ar wybodau mad-ddaffarollion, ac ar gydwybod lân.
183. Tri pheth ydd ymegnia dedwydd eu gochel: trachwant cybyddaidd, gelyniaeth ffyrnig, a balchder am-rwysgus.

184. Tri pheth y fŷ dedwydd oddiwthant; ymryson-
as cynnenllyd, trythyllwg annoeth, a gweithredodd ar-
gyweddus.

185. Tri pheth ni châr dedwydd: distadledd, anwiredd,
a sarugrwydd.

186. Tri pheth ni chymmer dedwydd: synghor diriaid,
rhodd diriaid, a gair diriaid.

187. Tri chas gan ddedwydd: dychymygion ofer, rhy-
wyf corfforawl, a champau anneddfolion.

188. Tri gorfod dedwydd: ar ei drachwant, ar ei dry-
thyllwg, ac ar ei ddiglionedd.

189. Tri pheth ni lefair dedwydd: annoethineb, rhin
arall, a gwir argweddus.

190. Tri dŷn ni ymgais dedwydd ag ŵynt: tragolud-
awg, anneddfawl, a doeth yn ei olwg ei hun.

191. Tri dyn ni ymgyrin dedwydd ag ŵynt: gwen-
ieithwr, dichellgar, a gwraig gwr arall.

192. Tri myfyrdawd gwastadawl dedwydd: doethineb
dwyfawl, ufydd-dawd cynpendfawl, a daioni anfeidrawl.

193. Tri pheth y câr dedwydd yn ddiymbaid: arferion,
daionus, doethineb cynnyddiawl, a phob peth yn ei ryw
cyfiawn a noturiawl.

194. Tri pheth ni ddiffyg ar ddedwydd: hir iechyd ac
einioes, da byd digonawl, a pharch doethion.

195. Tri pheth y ceiff dedwydd yn anffaeliadawl ac yn
gadarn eu gorfodoldeb: anrhydedd diderfyn, a dyddan-
weh cydwybod annarfodiadawl, a gwynfyd nefawl gan
Dduw yn dragrwydd heb dranc heb orphen.

196. Tri pheth gwastadawl ar ddedwydd ac ni fethant
arno: ddeddfoldeb, tangnefoldeb, a chariadaldeb; sef y:
tri hyn ac nid amgen o geinnyged a wnant ddwyfoldeb,
ac nid dwyfoldeb ond dedwyddydd, ac nid dedwyddydd ond
dwyfoldeb.

197. Tri chadernyd dedwyddydd: diniweidrwydd o gar-
iad perffaith, diwydrwydd madweithgar, a thangnefoldeb o
gyflawder trugar.

198. Tri chadernyd dedwyddydd: boddlondeb meddwl
a chydwybod, cariad trugareddbell, a dwyfoldeb awen-
bwyll.

199. Tri anheggor dwyfoldeb: gwybodaeth, cariad ym-

byllig, a chyflawnder trugareddibwyll; ac heb y tri hyn ynghyd nis gellir dwyfoldeb ansoddawl.

200. Tri chyflawiau dwyfoldeb a dedwyddyd: doethineb gwybodgar, ymbwyll gwirioneddgar, a chyflawnder trugareddgar.

201. Tri enw cymmherthynas a ddoded ar un daioni cysefin: doethineb, dedwyddyd, a dwyfoldeb; can nas gellir un heb y llall o'r tri pheth hyn.

202. Tri dyagleirdeb doethineb: awen, haelioni a thangref.

203. Tri anheggor cardawd gyflawn: haelioni llawen, awynder difalch, a chydwybod drugareddgar.

204. Tri phrif golofnau cardawd: nawdd i ddierth ac estron, ymborth i newynog a sychedig, a dangos anwybodus.

205. Tri dibiryn a ddygant gyrch a gosod ar y gwanaf, ac a ffoant a'u cynffonau yn llusgo y llawr rhag y cryfaf: gwr balch, gwr cyfoethawg, a Heilyr pen ffordd.

206. Tri pheth y gwel gwr o bell: ei gŵr, ei gŵs, a'i clyw.

207. Tri achos clefyd: gormodd, segaryd, a thristwch.

208. Tri anegor clefyd: gwanau y corff, pylu y deall, a bysta yr einioes.

209. Tri chadernyd iechyd: ymborth iachus a chymmedrawi, gweithgarwch neu ymdrafod cymmedrawi, a llawenydd o foddlondeb meddwl a chydwybod.

210. Tri pheth nid lawdd gwr o honynt: Hostwrn cath, mochyn marw, a chybydd anghawr.

211. Tri pheth sydd raid ei porthi yn fynych: cywion man, plant bychain, a * * *

212. Tri dyn a fyddant hir oesawg: arwr sychdir, hafotwr mynydd, a physgotwr môr.

213. Tri ychydig a fyddant well na llawer ar y pryd: ychydig o fwyta, ychydig o yfed, ac ychydig o chwedl-eua.

214. Tri pheth daionus a fagant bob daioni arall: cariad priodas, cymmwynasgarwch cymmudogion, a heddwch gwlad.

215. Tri llafarwch syberwyd: llaw, llygaid, a llais.

216. Tri pheth ansyber ar wr yn ei dy ei human: ymsis-

ial a'i dyfwrth llg gwypo ei westeion, gmgylla ar a wello arnynt a chanthynt, a bod yn ddiymarbod parth ag atynt.

217. Tri anferthwch gwledd: meddweod, ymrysonau, a chrochwerthin am ben bychanigion o ohweiniau.

218. Tri harddwch gwledd: haelioni groesawgar, ymddyddan doethineb, a chywirdeb ymgysfrin.

219. Tri chyfrwym gwybodaeth: cymmwynasan, cadernyd defodau, a gwybodau gwladolion.

220. Tri chyfrwym gwybodaeth: athraw gwarantedig, dosparth gywair, a chof llythyr cyfiawn.

221. Tri cheimnyged gwybodaeth: gwirionedd, buddioldeb, a dyddanwch.

222. Tri cheimnyged dosparth: rhwyddau deall, cyweiriau cof, a llwybraiddiau addysg.

223. Tri cheimnyged celfyddyd: mwyau galluodd, lletta trafferth, a chyweiriau deall.

224. Tri pheth anferth eu gwleod: celfyddyd heb dosparth gywair, teulu heb wybodaen bucheddawl, a gwlad heb arferau daionus.

225. Tri pheth nis gellir gwlad hebddyat: gwybodau bucheddawl, cyfraith gyfiawn, ac athrawon gwarantedig.

226. Tri ynnioldeb pob peth: plaid, gwrth, a chynglyd.

227. Tri harddwch gwlad: ysgwbawrdeg, eglwys lawn, a llys heb hawl.

228. Tri harddwch ty a'i gyleh: aelwyd ian, celfi glo-ywon, a chaeadgyleh trefnusdeg.

229. Tair arwydd cymmodog da: diwydrwydd llawen, syberwwd meesau, a chyfareh hawddgar.

230. Tair arwydd gwr doeth: gair da cymmodogion, boddlondeb i'r byd a fo, a diwydrwydd yn ei atwad.

231. Tair arwydd gwraig dda: ei thy yn drefnus, ei phlant yn drwsiadus, a'i gwr yn gartrefgar.

232. Tri pheth da iawn yn weision a drwg iawn yn fesstri: ian, dwr, a gwynt.

233. Tri pheth a waant lewndid mewn gwlad, a golud mewn teulu: llafuriaw tîr, plannu coed, a gwaith rhod a chribau.

234. Tri pheth serchus am gyleh ty: gardd lysieuolawn, perllan driniedig, a slydd sychion.

235. Tri phrif anferthwch dyn: diogi, celydd, a thra:

(chwant; ac o honynt y tŷ pob peth arall â fo yn anferth.

236. Tri pheth ni fyddant byth yn wahaniaid: tafod hir, pwyll byr, ac awen bôl.

237. Tri pheth ni waeth eu colli no'u cael: cell heb fwyd, tŷ heb gronglwyd, a dŷn heb iddo air da.

238. Tri pheth a gymmerant fwy no'u rhan gyfiawn: meddwyn, cybydd, a chist melinydd.

239. Tri pheth a dröant y byd wynebi waered: digywilydd-dra merch, anwybodaeth mab, a phendodaeth gwraig.

240. Tri pheth ni cheffir yn hawdd: dydd heb nos, a fon heb geulan, a gwraig heb afrad.

241. Tri chynhebygion y naill i'r lleill o henynt: ys-gubawr deg heb yd, ffiol deg heb ddŷd, a merch deg heb rinweddau da.

242. Tri pheth â ddifianant yn ebrwydd: ewyn ar ddwr, niwl bore tesog, a charedigrwydd-gwr goludog.

243. Tri pheth nid hawdd eu gweled: tân gwlyb, dwr sych, a benyw dawgar.

244. Tri haelion byd: haul, môr, a chwsig.

245. Tri prif gyfnerth dŷn: pwyll, amynedd, a chydwybod lân.

246. Tri pheth o'u cael ni waeth beth amgen nas ceir: bodd pwyll, bodd cydwybod, a bodd Duw.

247. Tri pheth y sydd a gwyn ei fyd a'u caffo: cyfaill cywir, llonyddwch cartrefawl, a bodd ei gydwybod ei hunan.

248. Tri pheth â wnânt fywyd dŷn yn gysurus: gwraig dda, car ffyddlawn, a chymmodawg tangnefgar.

249. Tri nid call eu coelio: dierth yn bostio ei foredd, hen yn canmawl â fu gynt, ac â fostio ei ddoethineb ei hunan.

250. Tri pheth â newidiant yn fynych: y gwynt, y lleuad, a meddwl merch.

251. Tri pheth er cael beunydd a geisiant fwy yn ddi-orphwys: mor, meddwyn, a chybydd.

252. Tri pheth ni rydant byth: arian haelion, peddlen seffyl melinydd, a thafawd gwraig.

253. Tri dŷn ni fawr welir yn ddaioni arnynt: ymladdgar, ymfrestgar, a godinefgar.

254. Tri dŷn-hawdd eu nabod: glwth, trachwantus, ac anwybodus.

255. Tri pheth goreu yn y byd: cydwybod lân, gwybod y gwir, ac iechyd corff a meddwl.

256. Tri pheth nis gellir yn iawn heb wybodau: oymydio yn dangnefus, amddiffyn bywyd, a deall cyfiawnder.

257. Tri pheth nid addéf hebddynt: cartref dosparthus, baint o genedl, a chyfarwys yn warantedig.

258. Tri pheth ni hawdd geffir: pren mawr heb un golffen gam arno, afon heb un tro ynddi, a chenedl heb ynddi ryw un neu gilydd â champ gywilyddus arno.

259. Tair colofn dedwyddyd: dwyfoldeb, doethineb, a syberwyd.

260. Tri pheth y dylai bob dŷn gadw yn graff gydag ef bob amser: ei gŵf, ei gywilydd, a'i gydwybod.

261. Tri chynoriaid doethineb: dispaid, dispwyll, a dosparth.

262. Tri cheinmyged myfyrdawd pob doeth dedwydd: bodd Duw, llës dŷn, a syrth anian.

263. Tri phrif-ddiawligrwydd dŷn: balchder, cybydd-iaeth, a chelwydd; canys o'r tri hyn y tardd pob drwg arall.

264. Tri pheth y bydd pob dŷn da: gweithgar, heddgar, ac elnsengar.

265. O dri digon y mae pob annigon ac eisiwed: digon o gyfoeth bydawl, digon o iechyd cnawdawl, a digon o esmwythder corfforawl.

266. Tair arwydd cydwybod lân: doethineb, caredigrwydd, a llawenydd.

267. Tair arwydd cydwybod wallbwyll ac aflan: an-noethineb, ofnusder, ac anynadrwydd.

268. Tri y sydd ac ni wyddys pa un waethaf o naddynt: gwr creulawn annbrugarawg, celwyddog anudongar, a'r cythraul mawr ei hunan.

269. Tri pheth y bydd meddwyn: mochyn yn ei gampau, ei cynddeiriog yn ei wyn, a blaidd yn ei ddadwrdd; ac o'r tri hyn y bydd cythraul yn ei gynnedd.

270. Tair camp ar-ddyn â barant ar bawb ei lwyr gasau:

bod yn enllibgar, yn gaffaelgar, ac yn ddoethach no neb yn ei feddwl ei hun.

271. Tri pheth atgas ar ddŷn: meddwdawd, glythineb, a diogi; ac nis gellir glân o gamp ar a fo yn ymarfer a'r bryntion hyn o gampau.

272. Tri chydfaeth doethineb: iechyd corff, llawenydd meddwl, a pharch pob da cynneddfawl.

273. Tri chydfaeth dirieidi: afieched corff, aflawen feddwl, a gwarthrudd gan bob daionus o fyw a bôd.

274. Tri chydfaeth gwybodau: doethineb hunanbwyll, llwyddiant bydawl, ac urddas yn ngwlad gan anrhydedd.

275. Tri chyfargoll direidi: awen gysefin, iechyd corff, a dyddanwch meddwl.

276. Tri pheth anghyffredin: ieuanc heb lawenydd, ysgubawr heb lygod, a hên ddŷn digybydd-dra.

277. Tri chymmediwiau trefn a dosparth: rhif, pwys, a mesur.

278. Tri argyffred pob peth: llun, lliw, a sylwedd.

279. Tri goreuon gwybodau doethineb: i ddŷn adnabod ei hunan, ac adnabod Duw a'i ddaioni, a gyru ar ei gydwybod wneuthur a ddangosant y prifwybodau hyny.

280. Tri goreuon gwybodau celfyddyd: llên, fferyllt-æth, ac araduriaeth.

281. Tri goreuon gwybodau llawenydd: cerdd arwest deulnaidd, ymgorelwi, a chwedlau difyrbwyll; sef y dichon pob dŷn ymgyingyd a'r pethau hyn, er iechyd corff a dyddanwch meddwl.

282. Tri pheth ni wneir yn hawdd: tôri syched a than, sychu gwlyb a dŵr, a boddloni pawb yn mhob peth a wnelir.

283. Tri pheth y dylai dŷn fod bob amser yn ddiymat- tal yn eu gwneuthur: gweithredodd daionus, dysga gwyb- odau, a darostwng ei wyniau; canys er maint a wnelo efe o'r pethau hyn, ni wna efe byth ei ddigon, ac a dylai.

284. Tri pheth ni wyr neb y myrddiynfed rhan o'u maint yn eu heithafoedd: llês doethineb, nerth celfyddyd- au, a dyddanwch cydwybod lân.

285. Tair gwobr diwydrwydd: digonoldeb fodd i fyw, blaenoriaeth ar ereill, a chanmoliaeth doethion.

286. Tri pheth à wnant wr yn flaenor ar ei gymmodogion: haelioni, doethineb, a chelfyddydau.

287. Tri dŷn à wnant ddaioni yn y byd: arwr hywaith, bardd awenddysg, a dwyfawl cariadgar.

288. O dri pheth y tardd gwybodau: angen yn ymddiwallu, côf yn ymgysfuniaw, a hoffder dyddanwech.

289. Tri pheth y sydd ar bob ceinmyged: dechreu, canawl, a diwedd; a lle bo da y diwedd, da pob un o'r ddau ereill; a lle bo drwg y diwedd, ni ellir un da o'r lleill.

290. Tri pheth y dylai bob un ei wneuthur yn ddwysbwyll à gaffo gynghorion da: eaf colfaw yn grâff, eu hystyried yn ddiwyd, a gwneuthur ar eu hol yn ddiymbaid.

Ac felly terfyna Triodd y Doethion; a phoed i bawb eu cofaw, a'u hystyriaw, a'u dylun.

XVI. TRIODD DOETHINEB.

1. Tri amryson à ddygwydd ar farwolaeth cadarn draws cyfoethawg: cythreuliaid am ei enaid, perthynasau am ei eiddo, a phryfed am ei abwy.

2. Tri math ar ddyn à sy felldigedig: à ddro orchymynion Duw ac na bo edifar ganto, a'r hwn na wypo ddim o dda ac na cheisio ei ddysgu, a'r dyn à wypo lawer o ddysg ac nas dangoso i neb.

3. Tri pheth a ddylai Cristion daionus eu gwneuthur: caru Duw yn fwy no neb, ofni Duw yn fwy no neb, a gwasaneuthu Duw yn fwy no neb.

4. Tri pheth sydd anghenrhaid i bechadur eu gwneuthur: cydnabod ei bechodau, edifarau am ei bechodau, a deisyf maddenant am ei bechodau.

5. Tri pheth à geiff dŷn drwg annedwydd: tylodi, ac aflwyddiant, a phoeni.

6. Tri pheth a geiff dŷn difalch: amledd, llawenydd, ac esmwythder.

7. Tri pheth à geiff dyn gwallas: cywilydd, a gwatwar, a cholled.

8. Tri pheth a geiff dyn o gyfodi y bore: iechyd, a chyfoeth, a santeiddrwydd.

9. Tri pheth a geiff dyn cysgiadur: cywilydd, ac afiechyd, a methiant.

10. Tri pheth à geiff dyn cywir: dawn, a pharch, a ffyniant.

11. Tri pheth à geiff dyn ffalst: drygfyd, a drygair, a drygddiwedd.

12. Tri pheth à geiff dyn dyoddefus: cariad, a pharch, a chanmoliaeth.

13. Tri pheth à geiff dyn trugarawg: dawn, a chariad, a tbrugaredd.

14. Tri pheth a geiff dyn o ddylyn hirddrwg: carchar cystuddiawl, a newyn poenydiawl, ac uffern dragrwyddawl.

15. Tri pheth à ddyly dyn eu hystyrled: o ba le ei daeth, a gwybod pa le y mae, ac ofni pa le ydd âa.

16. Tri gelyn enaid crïstion y sydd: y byd, a'r cnawd, a'r cythraul.

17. Tri meddyg enaid dyn y sydd: Ympryd, a gweddi, a chardawd.

18. Tri gair o gynghor à roddes Lasar i ddyn: nid angen, car dy Dduw yn fwy no dim, canys ef a'th wnaeth di; gweddiâ ar Dduw, canys ef a'th brynoedd di; ac ofna Dduw yn fwy no dim, canys ef a'th farna di.

19. Tri pheth serchawg eu gweled: dirlad yn myned yn ddedwydd, cybydd yn myned yn hael, a phechadur yn myned yn santaidd.

20. Tri pheth à ddaw a'r ddyn heb wybod iddo: cysgu pechawd, a henaint.

21. Tri pheth sydd yn arwyddocâu bod dyn yn gadwedig: casâu pethau drygionus, caru pethau daionus, a gweddiâw yn ddiwallus.

22. Tri pheth a ddyly Crïstion eu cofiaw yn wastad, rhag pechu yn farwawl: gorchymynion Duw, llawenydd nef, a phoenau uffern.

23. Tri pheth à wna gwr yn flaenor ar ei gymydogion: bod yn ddoeth, a bod yn hael, a bod yn gyfoethawg.

24. Tri pheth à bair i ddyn golli gwahoddiaeth: bwyta gormodd, dywedyd gormodd, a cheisiaw gormodd.

25. Tair cynfedd anweddus a'r ddyn: bod yn daer i geisiaw, bod yn galed i roi, a bod yn ddrwg ei dyb.

26. Tri pheth nid ydynt yn gorphwys un amset mewn dyn: y bladyr (bledr) yn sugnaw, yr anadyl yn cerdded, a'r enaid yn meddylid.

27. Tri phrif achaws y sydd i ddyn garu Duw: am i Ddaw Dàd ei greu, am i Dduw Fâb ei brynu, am i Ddaw Ysbryd Glân ei lywodraethu.

28. Tri pheth à ennill gariad Duw: fydd lân difrychau, a gobaith cryf difeiaiu, a chariad perffaeth dieisiau.

29. Tri pheth à gymhell ddyn i weddiaw ar Dduw: hir glefyd, hir adfyd, a hir dristyd.

30. Tri pheth à sydd yn gwaethygu y byd: seguryd difyr, balchedd diystyr, ac afrad difesur.

31. Tri pheth à sydd yn trallodi y byd: cenfigen wenwynig, a llid cythreulig, a thrachwant baiedig.

32. Tri pheth anhawdd i ddyn eu gwneuthur: oeri y tân, sychu y dwr, a boddloni y byd.

33. Tri pheth a ddysg dyn o fod yn segur: dysgu meddwl yn ddrwg, dysgu gwneuthur yn ddrwg, a dysgu dywedyd yn ddrwg.

34. Tri pheth o'u dirmygu à dynant ddial: cynghor gweledydd, barn pwylllog, a chwyn tylawd.

35. Tri pheth caamoledig ar wr: bod yn ddoeth ei ymadrawd, yn gyfiawn ei weithredodd, ac heb wneuthur dim gormodd.

36. Tri pheth à geiff dyn mewn tafarn: difyrwch i bechu, difyrwch i fethu, a difyrwch i ymwaethu.

37. Tri dyn ni ddylai wr eu gwahawdd i'w ciniaw: twyllwr gwenieithus, testynwr gwatwarus, a bradwr cenfigenus.

38. Tri pheth nis ceiff dyn yn ddiffael wrth ei angen: benthyg arian gan ocrwr yn ddi lûg, pleidio ei hawl yn y llys gan wr o gyfraith yn ddiidwnc, a'i giniaw o fwyd moethus yn uhŷ y cybydd anghawr yn ddirybudd.

39. Tri rhyw o ddynion anhawdd eu cael yn yr un meddwl: y all a'r ffôl, yr hael a'r cybydd, a'r cywir a'r lleidyr.

40. Tri pheth à geiff dyn wrth ymgyfreithiau: cost, a gosal, a thrafael.

41. Tri rhyw o ddynion a gyll eu harafwch yn debyg i rai allan o'i pwyll: helwyr, dawnswyr, ac ymladdwyr.

42. Tri rhyw o ddynion a sydd heb ofni Duw: traetur-faid, cynllwynwyr, a threiswyr.

43. Tri pheth a sy ddaionus i ddyn: meddwl yn dda, dywedyd yn dda, a gwneuthur yn dda.

44. Tri pheth ni all dyn eu cuddiaw: cyfoeth mawr, carlad mawr, a chás mawr.

45. Tri pheth a sy raid i gristion da ryfela yn eu herbyn: y byd, y cnawd, a'r cythraul.

46. Tri pheth a sy rhaid wrthynt wrth wneuthur pob gwaith: gwybodaeth pa fodd ei gwnelir, a gallu i'w wneuthur, ac ewyllys i'w ddwyn i ben.

47. Tri pheth anhawdd i ddyn eu gwneuthur yn gwbyl: adnabod ei hunan, gorchfygu ei chwant, a cadw ei rin.

48. Tri chynfedd ddrwg ei bod ar ddyn: balchedd heb haelioni, trachwant heb gyflawnder, a lliid heb drugar-odd.

49. Tri modd y sydd i adnabod dyn: ei ymadrawdd, ei ymddygiad, a'i arferion.

50. Tri pheth cyntaf a dwylla ddyn: geiriau tæg, ehwant ennill, ac eisiau gwybyddiaeth.

51. Tri pheth gwrthwynebus gan wr i ymadael ag hwynt: y wlad lle y ganed ac ei maged, y cyfoeth yr hwn a gasglodd ef ei hun, a'i gyfeillion y rhai a oedd ef gwedi ei profi yn gywir iddo.

52. Tri pheth ardderchawg ymhlith pethau bydawl: casau ffolineb, caru rhinwedd, a dymunaw dysgu yn wastad.

53. Tri pheth a ennill enw da i ddyn: dywedyd ychydig, gwneuthur daioni, a llafurio.

54. Tri pheth y dyly dyn bryderu eu gwneuthur: gwr-andaw yn ufydd, ateb yn gall, a dangaws ei hunan yn wybodus.

55. Tri pheth rhyfedd a sydd yn y byd gan gymmaint o wahaniaeth y sy rhyngddynt: wynebau dynion, dywediad dynion, ac ysgrifenedau dynion.

56. Tri pheth sy'n gyrru'r byd at gyfeiliorn: addewidion arglwyddi, gwisgodd brawd llwyd, a syberwyd rhi-einferch.

57. Tri ofn a waethygant galon dŷn: ofni gwedyd y gwir, ofni tylodi, ac ofni diawl.

58. Tri pheth a wellânt galon dŷn: ofni credu pob peth a glywer, ofni da y byd, ac OFNI DUW.

59. Tair sail doethineb y sydd: ystyriaeth, gwybodau, ac ymgais.

60. Tri pheth à ddangosant ddoethineb lle y bytho: llafar, camp, ac anwydau.

61. Tri anheggor doethineb: deall cadarn, awen lathraidd, a chydwybod lân.

62. Tri pheth à welir lle bô doethineb: trefn brydferth ar bob trafod, cyflawnder yn mhob ymgais, a thanguel yn mhob ymarweddiad.

63. Tri pheth hawdd fydd adnabod dyn wrthynt: wrth à gâr, wrth a'i câr, ac wrth nas câr y naill a'r llall.

64. Tri pheth à ddangosant beth yw dŷn: ei ddyddan-woh, ei gâs, ac ni welir ar ymdawr gantho.

65. Tri thêyrnedd gwybodâu: gwellâu moes a defawd, diwallu pob eisiwed, a dyddanu meddwl.

66. Tair prif ddyledsdydd gŵr: dwyn plant i fynydd ar ddysg ac yn ddeddfawl, dangos daioni ar ei weithred odd, a dangos gwybodaeth i'r diwybod.

67. Tri pheth à wna gŵr deddfawl: ynnill eariad a pharch ei genedl a'i wlad; ynnill boddlondeb a llawenydd iddei hunan, a gadael côf anrhydeddus ar ei ôl.

68. Tri chyfeillion goreu dŷn, lle byddont dda, a gwaethaf lle byddont ddrwg: ei serch, ei ddeall, a'i gydwybod.

69. Tair phrif ddyledsdydd y sydd: dwyfawl, gwladawl, a theuluawl.

70. Tri pheth cyntaf à ddylid eu hystyried y'mhob gorchwyl a thrafod: y lle, y pryd, a'r dyben.

71. Tri pheth yn ail à ddylid eu hystyried cyn ydd eler y'ngyhylch un gorchwyl ba bynag ei ryw; trefn, moddion, a galluoled.

72. Tri pheth anheggor i bob gorchwyl: modd, medr, a myn.

73. Tri pheth yn gyfun a'u gilydd à lwyr amddiffynant, ac nis gellir eu gorthrechu: cyflawnder, deall, a chariad.

74. Tri pheth à geir o iawn ddeall ar drafodau bywyd : golud, nerth, ac anrhydedd.

75. Tri pheth a ddangosant aflywodraeth: y cryf yn gormesu'r gwân, y celwydd yn drech no'r gwir, a glodd-est yn drech nog arbedoldeb.

76. Tri pheth à amddiffynant wladoldeb: cariad, ofn, ac ynnill.

77. Tri pheth à ddyfethant wladoldeb: creulondeb yn lle cosp, diymdawr o bwyll yn lle trugaredd, a gwastraff yn lle gobrwyon.

78. Tri pheth à ddylai pob doeth ymarfer ag wynt yn ei dy, a'i deulu, a'i gymmydogaeth: tangnefoldeb, ynadoldeb, a thadoldeb; sef o'r deddfau hyn y bydd heddwch, a chariad, a chynghorion doethion a daionus; a donioldeb haelionus a gofalus bob un tu ag at y lleill; ac o hyny cymmodogaeth dda; ac heb hyny nis gellir na bydoldeb, na chydfoldeb, fal y bo iawn a daionus herwydd dymunoldeb doethion.

79. Tri pheth anheggor ar bob pencynghor: bod yn ystyrgar, yn iawngar, ac yn ystrywgar i chwilio i maes à fo twyll ar wirionedd.

80. Tri goreuon menwydoldeb: iechyd, boddlondeb, a heddwch.

81. Tri syrth y sydd ar bob trafod: agweddoldeb, cylchiadoldeb, a damweinioldeb.

82. Tri chyflwr y sydd ar bob peth: ynniawl, cylchiadawl, a galledigawl.

83. Tri pheth nis gellir neb yn ddedwydd hebddynt, pe bei onid ef ei hun yn byw ac yn bod: iechyd, caredigrwydd, a gwybodau.

84. Tri pheth y dylid eu hystyried yn bybyrbwyll deirgwaith bob dydd: deddfau cariad haelionus, dyled teulü-eiddrwydd, a gofynion Duw; a myned yn ôl y tri gofynion dyled hyn.

85. Tri drwg y sydd ac nis gellir eu cynddrwg: murn cynllwyn, godineb, a meddwdawd; canys mamau ydynt i bob dhwg arall.

86. Tair elusen y sydd yn hênaf ar bob elusen: nawdd, ymborth, a chynghor da.

87. Tri arwyddion a welir ar bob dŷn, ac wrth y rhai hynny ei adnabod: ei ddifyrwech, ei gŷs, a'i gyfeillion.

88. Tair gormes gwlad: anymgais, cybydd-dawd, a glythineb.

89. Tair gormes teulu: gwr anwybodus, gwraig anynad, a phlant anuffydd.

90. Tair gormes teyrnedd: anmrawd, anrhaith, ac an ymdawr.

91. Tair gormes ymgais: diffyg offeryndawd, diffyg gwybodaeth, a diffyg tŷl a gobrwy.

92. Tair gormes gwybodaeth: celfyddyd annoeth, dosparth anghywir, ac iaith aneglur; ac ni ddylid ymarfer ag un o naddynt.

93. Tair gormes celfyddyd: iaith gyfing aneglur, dosparth anhrefnus, ac afreidioldeb.

94. Tair gormes awen: diffyg addysg a gwybodau, ei stwed corfforawl, ac anghydnabyddiaeth.

95. Tair gormes doethineb: cymmodawg genawg dirfald, arglwydd cyfoeth anghyflawn, a gwraig anynad fflaig.

96. Tair gormes cymmodogaeth: treiglaw ohwedlau, tafarndŷ annosparthus, a chybydd anghawr.

97. Tri pheth nis dylid eu gofyn: ced ag elusen gan gybydd anghawr, cynghor gan annoeth, a nawdd gan anwr.

98. Tri rhagoriaeth daioni: addfwynder, daioni, a phwyllgarwech.

99. Tri pheth a ddielir ag anmenwedigrwydd: cribdail, anudon, a chreulondeb.

100. Tri chyflawnder doethineb: serchogrwydd, pwyll, a chywirdeb.

XVII. EREILL O DRIODD DOETHINEB.

1. Tri arwyddion anwybodaeth: ymddwyn anfoesus, iaith anghyflawn, a holi dirgelion y cymmodogior.

2. Tri chyttundeb a wnant wr yn gyfoethawg: cyttundeb a gair Duw, cyttundeb a'i wraig a'i deulu, a chyttundeb a'i gymmodogion.

3. Tri pheth y sydd ac hebddynt nis gellir â wnânt wladwr: bonedd, celfyddyd, a dawnusder.

4. Tair arwydd tangnefgarwch ar ddŷn: trugaredd at ei ysgrubl, cara cartref, a chanu gyda ei orchwyl.

5. Tair arwydd bonedd o gwnad ar ddŷn: haelioni, cyfarch hawddgar, a gwybodau deddfolion.

6. Tri arwyddion creulondeb: tarfu anifel yn ddi raid, briwa coed â llysiau yn ddiachos, a bod yn daer am gymmwynas.

7. Tri arwyddion trugaredd: syniadu cwyn plentyn, troi oddiar ffordd anifel gorweddawg, ac ymddwyn serchawg tuag at ddierth ac estron.

8. Tri arwyddion anian ddrwg mewu dŷn: rhoi cynghor eyn a'i ceisier gantho, â wnelo na bo raid nag achos iddo, ac â sôn am â welo ar ei gymmodogion.

9. Tri pheth â ddiweddant yn ddrwg fynychaf, am hyny goreu yw ei gadael: cyfeddach, ymryson, a chwilio helynt dyn arall.

10. Am dri pheth ni cherir neb gan ei gallach: caswir heb achos cyflawn drosto, cynghor ni ofyner, ac athrodion.

11. Tri pheth â ddylid eu diolch: gwahawdd, rhybudd, ac annerch.

12. Tri thywysogion serchog: digrifwch, haelioni, a syberwyd.

13. Tair gormes doethineb: meddwdawd, godineb, a dryganian.

14. Tri gwreiddyn doethineb: gwirionedd, dysg, a chydwybod.

15. Tri pheth â gadarnâa gynnefawd: addwynder, awdardawd, a doethineb.

16. Tri pheth ni fawr brisier am danynt onid elo yn ryhwyr: cynghor car, rhybudd oedran, a barn cydwybod.

17. Tri pheth hardd ar ddŷn y'mbob lle, ac ar bob amser, ac y'mhob gradd a chyflwr, ac â ennilliant barch ac anrhydedd iddo: caredigrwydd, diwydrwydd, a gwybodau molannus.

18. Tri argae doethineb: gwirionedd, cariad, a phwyll.

19. Tri pheth â gau yn erbyn doethineb: celwydd, liid, a rhyodres.

20. Tri argae awen: gwybodau, haelioni, a diwydrwydd.

21. Tri pheth à gau yn erbyn awen: diawgswrth e gamp, cybydd-dawd, ac anwybodaeth.

22. Tri chyfrwym gwybodaeth; llythyr, dosparth cyfiawn, a llës gwlad a chenedl.

23. Tri ymglywed doeth a deddfol: ymglywed à'r gwirionedd, ymglywed à'i serch, ac ymglywed à'i nerth.

24. Tri pheth à lanwant wagder: dadwrdd anghall y'mhen gwág, chwerrthin anghall o galon wag, a llaid budreddus mewn ffynon wag; sef doethideb à yr i maes y dadwrdd, a syberwyd cynneddfol a yr i maes y chwerrthin, a dwr gloywffrwd à yr i maes y llaid.

25. Tri pheth à geiff dŷn trugarog: cariad ei gymmodogion, parch doethion, a thrugaredd Duw.

26. Tri pheth à geir o hir ddilyn drwg: cosp cyfraith ei wlad, ei gasáu gan bawb, a digofaint Duw.

27. Tri dyn y maë Duw yn eu caru: cadarn cyfiawn, dewr trugarawg, a hael diedifar.

28. Tri dŷn a fyddant noturiol i dri pheth: melinydd i ladrata, eglwyswr i ragrithiaw, a chlerwr i gelwyddu.

29. Tri pheth a geiff dŷn dyoddefus: cariad a'i adnapo, ffyniant yn ei drafodion, a rhâd Duw ar a wnelo.

30. Tair dedwyddgamp gŵr: bod yn llawen yn ei dŷ, yn ddiwyd yn ei orchwyl, ac yn ddyddiwr rhwng ei gymmodogion.

31. Tri pheth sy'n dyfethu'r byd: brenhin ffôl heb gynghor, barnwr heb gyfiawnder, a gwæ heb ufudd-dawd.

32. Tri menwydigion teulu: pendawd gofalus, bugail cywir, a negeswr doeth brysgar.

33. Tri anffawd teulu: goruchwylwr diofal, bugail anghywir, a chenedad annoeth na ddelo yn ôl o'i neges.

34. Tri pheth nid iawn ymddiried iddynt: ischyd henaïnt, hinon gauaf, a diniweidrwydd arglwydd.

35. Tri pheth nid callach credu y nail no'r lleill: llw gorderchwr, breuddwyd gwrâch, a chwedl heb warant.

36. Tri pheth anhebgor i ddoeth: gwrandaŵ, gweled, thewi.

37. Tri pheth ar ddŷn a bair hoffi ei gyfeillaeth: syberwyd, pwyll, a daioni.

38. Tri pheth byr eu parhad: rhyfeddoleb, gwagogyntiant, a thegwch leneuctid.

39. Tri dyn a ddywedant y gwir: plantyn, ffâl, a di-
ofal.

40. Tri pheth di glwyf di glefyd a fawr gystuddiant a'u
harwain: cariad, cäs, a galar.

41. Tri pheth a ffrwythionant ddoethineb: gwybod am
à fu, ystyr am y sydd, a phryderu am à ddaw.

42. Tri pheth a arwain i dylodi: gloddest, diogi, a
mercheta.

43. Tri pheth ni wna ddyn doeth: myned ar hyd fôr lle
gellir tir, gellwng i maes ei gyfrinach, a gellwng dydd i
fynd heibio heb wneithur daioni.

44. Tri pheth a hair cywreïnrydd: galluogrwydd,
awen ewyllysgar, a gwybodaeth o gelfyddgarwch.

45. Tri pheth a barant hawddfyd: iechyd corff, medd-
iant diangen, a chydwytod lân

46. Tri pheth a geir o ymgynneddfu yn dda: parch ac
anrhydedd y byd, boddlondeb meddwl a chydwytod, a
derbyn da gan Dduw..

47. Tri pheth a hair i wr glôd a chymmeriad caredig:
dywedyd yn dëg yn wyneb, rhoi gair da y'nghefn, a ffydd-
londeb cyfeillach.

48. Tri pheth annifyr eu gweled: cyfoethawg hael yn
myned yn dlawd, a dedwydd yn myned yn ddiriaid, a
chwertin am bën y dÿn doeth ymbwyllgar.

49. Tri a fyddant oreu'r byd arnynt lle nas adnaper:
delwyddogion, bradon, a lladron.

50. Tri pheth ffâl eu gwneuthur: gweiddi hoi ô! cyn
ynnill y gamp, cyfrif a bwrw ar ddydd cyn y delo, a barn
cyn gweled y diwedd.

51. Tri pheth a hir gynnaill ddiireidi ar ddÿn: medd-
dawd, godineb, ac ymladdgarwch.

52. Tri pheth ni wna ddoeth: dysgwyl am analladwy,
tristâu am anadferadwy, ac ofni anocheladwy.

53. Tri pheth balch: ceiliog ar ei domen ei hun, gol-
wyn ar arffed ei weinyddes, a chrach swyddwr yn ei an-
sawdd.

54. Tair camp ganmawledig: haelioni Cymro, syber-
wyd Ffranc, a hyder Sais.

55. Tri rhywiogrwydd meddwl a hair syberwyd: tym-
ner goddefus, parodrwydd i reddi, a llawen o gynnadedf.

56. Tri pheth ni wrandawent ar gynghor ba gystal bynag y ho: brŷs, dig, a thrachwant.

57. Tri pheth iawn i wr ymladd yn eu plaid: ei wlad, ei gâr, a'i fywyd ei hunan.

58. Tri anhebgor priodas, er gwynfydirwydd o heni: cyttundeb diddig, cariad cydgalon, a chyfawch y ddau mewn daioni.

59. Tri pheth hardd ei gweled: cyttundeb rhwng brodyr, cymhwynasgarwch rhwng cymmodogion, a chariad ffyddlon rhwng gwr a gwraig.

60. Tri pheth, lle bo a'u perchennu, nid rhaid mwy: tir rhywiog da ei driniaeth, gwraig dda ei champau, a deall da ynddo ei hunan.

61. Tair prifgamp rhagrithwr: tystiolaethu yn wrthwyneb i air Duw, cyhuddaw yn anghyfiawn, a barnu heb âwdurdawd.

62. Tri pheth anwadal dros ben: cymmeriad gwŷr sawr neu arglwyddi, cariad merch, a llygedyn o haul mis Ionawr.

63. Tri pheth â gyd-gerddant â phob daioni â wneler: ynnill bydawl, anrhydedd a pharch gan ddoethion, a llawenydd cydwylod.

64. Tri pheth nid call ymyryd â nhwy; llywodraeth tŷ arall, cynghori pondeffigion goludawg, a chwilio dirgelion Duw.

65. Tri pheth â ddiogelent i wr wasanaeth o gywirdeb: cariad a'i gwasanaetho, a'r modd a'i diogeler yw cariad am gariad; ynnill a budd, ac o'i rhoddi y diogelir cywir o wasanaeth; a ohymeryd, â ddengys gymmeradwy ar â wneler yn wasanaeth, ac o'i ddodi y diogelir cywir ar wasanaeth.

66. Tair camp ganmoladwy ar ferch: tawedocrwydd, hedneisrwydd, a diw eirdeb.

67. Tri dyn gwynfydig pei gwelent eu bod felly: gwr diangen, gwr di ddyled, a gwr di wraig.

68. Tair hendith â ddygant fendith Duw ar a'i cast: bendith tad a mam, bendith y llawd, a bendith bardd llinolingerdd.

69. Tri rhyfel yn heddwch, ac nid ebrwydd y darfyddant: tir drwg, arglwydd drwg, a gwraig ddrwg.

70. Tri gair cyngor Teilo Sant: gwybydd dy allu, gwybydd dy wybodaeth, a gwybydd dy amser: ac o wybod y tri hyn, cais ymwybod a'r deddfau y sydd arnad, y gan Dduw, a chan ddŷn, a chan ddoeparthau doethineb:

71. Tri pheth a ddylid eu hystyried cyn gwedyd: y modd, y man, a'r amser.

72. Tri pheth y sydd ac nid hawdd dwyn dŷn oddiar-nynt: ei farn, ei awen, a'i genedl.

73. Tri phen byd: dedwydd, celfydd, a diwyd.

74. Tri chael mwyaf yn y byd: gwybodau doethineb, cydwybod lân, a chariad Duw.

75. Tri cholled, a rhagdynt nid colled dim arall: colli pwyll ac ystyr, colli cydwybod lân, a cholli chariad Duw.

76. Tri pheth rhydd i bob dŷn: ei fyfyrdawd, ei farn, a'i lafar; achos heb hyny nis gellir na gwelliad na dangaws ar wybodau daionus.

77. Tair cainc y sydd ar ddoethineb, doethineb parth ag at Dduw, doethineb parth ag at bob cyd-ddŷn, a doethineb parth ag at ddŷn ei hunan.

78. Tri adnahyddiaeth a barant ddoethineb: adnabod Duw, adnabod calon dŷn, ac adnabod calon ei hunan.

79. Tri pheth a geir o ddoethineb: da'r byd, dyddan-wch meddwl, a chariad Duw.

80. Mewn tri pheth ydd ymddengys doethineb; awen, gwybodau, ac ymddwyn (ymarwedd.)

81. Tair ymgais doethineb: deall anian o awen, gwoted gwirionedd o'i ymbwyllaw, ac ymarfer a chariad a thangnefedd.

82. Tri pheth ar ddyn a'i gwnant yn ddoeth ac yn dda: cynneddfau, gwybodau, a galltiau.

83. Tri pheth nis gellir doethineb lle y byddont: trachwant gloddest, a balchder,

84. Tri pheth nis gelir doethineb hebbynt: haelioni, dirwest, a rhadferthwch.

85. Tri nodd cywirddyn: genau tawedog, llygad digildrem, a gwynebpryd difraw; sef a'r tri yn un.

86. Tri nodd lleidyr: tafod holgar, llygad chwilgar, a gwyneb brawychus gocheldrem; sef a'r tri yn un.

87. Tri chynaeiliad doethineb: calon yn ymsynwyrw, iaith i ddatgan, a chof i gadw.

88. Tri pheth à ddylid eu selwi gyntaf ar ddŷn: tafod, defod, ac ymmod; can mai o'i anian a'i athrylith y tyfant.

89. Tri pheth obrwydd yn ymddangos ar ddŷn; pwyll, serch, a chás.

90. Tri pheth nid hawdd i ddŷn eu cuddiau ynndo ei hunan, llawenydd, tristwch, ac asbri.

91. Tair ffordd yddadnabyddir dŷn: wrth ei ymadrawdd, wrth ei ymarwedd, ac wrth farn ei gymmodogion am dano.

92. Tri pheth à barant amhwyll: edludd awen, gormes anoddefiadawl, a gwrthladd cydwybod.

93. Tri llwybr doethineb: llwybr ymgais, llwybr gwybodau, a llwybr cydwybod.

94. Tair prif-gamp doethineb: edrych ar bob peth, dyoddef wrth achos pob peth, ac ymgudw yn rhydd oddi wrth bob peth.

95. O dri pheth y mae barn gyfiawn: o wybod y gwir, o ganfod angen, ac o gariad haelionus.

96. Tri phrif athraw dŷn: synwyr o anian yn dirnad, pwyll o ymgais yn ystyried, a chydwybod o achreth yn barnu; ac nis gellir cyfiawn a chyfiawn ar wybodau doethineb heb addysg y tri-hyn.

97. Tri pheth nid ydynt ond un o gysefin ymdardd: gwirioned, cyfiawnder, a thrugaredd; sef o'r un cariad y daw y tri hyn; sef yw cariad y cwbl ar ddoethineb.

98. Tair sail deall: gwybod pwys a gwrthbwys, gwybod dygwydd a gwrthdygwydd, a gwybod barn a gwrthfarn; ac o'r rhai hyn deall; sef yw deall medru ar fod a gwrthfod, herwydd dichonoldeb.

99. Tri pheth à rwym ddaioni ar ddŷn: ei wneuthur un waith ei hun, ei ofyn unwaith gan arall, a'i ganmawl unwaith yn arall, neu yn nghlyw arall.

100 Tair ffordd y mae gyru daioni ar ddŷn: canmawl daloni à wnaeth efe yn nghlyw arall o ddaionus; gwneuthur daioni yn ei wydd ef, a thewi ar fai à fo arno ef.

XVIII. TRIODD DOETHINEB ETTO.

1. O dri chynghor ynghyd y cefir un cynghor da: cynghor cár, cynghor gelyn, a chynghor ei gydwybod ei hun.

2. O dair iaith y ceir iaith gwirionedd: iaith anian, iaith ymbwyll, ac iaith cydwybod.

3. Tri defnydd pob deddfoldeb: addysg, pwyll, a chydwybod.

4. Tri pheth à wnânt farn a beirniad cywir: ystyriaeth, ymoddef, a medru ar à èl wrth farn.

5. Tri banogion doethineb: pwyll, cyfiawnder, a thangnef o garedigrwydd.

6. Tri phrif gynneddfau daioni: dywedyd y gwir er gwaethaf oll, caru bob daioni, a dyoddef yn lew dros pob gwir a daioni.

7. Tri pheth nid rhaid gofal nas ceir o garu'r iawn yn rhob peth a'i wneuthur: cariad, clòd, a chyfoeth.

8. O dri phethry mae celfyddyd: deall, côf, ac arfer.

9. Tri pheth à wedant yn well no thafawd beth à fo mewn dŷn: ei law, ei lygad a'i ymdawr.

10. Tri pheth da iawn eu meddu cyn y dyweter à fo yn gelwydd: synwyrhwyl cadarn i ddychymyg; côf da rhag gwrthddywedyd à ddywespyd yn ôl llaw, a ffol i wrandaw ar à ddyweder.

11. Tri pheth trwsgl y sydd, a lle a'u gweler trwsgl pob peth arall ar gorff a meddwl: troed, llaw, a llafar.

12. Tair cainc dyledswydd dŷn: ymgylfarchwel à Duw, llesâu dŷn, a gwellâu gwybodau.

13. Tri chyfarwel deall: iawn, hardd, a llesawl.

14. Tri pheth nid gwlad lle nas caffer: llafuriaeth, cyfraith, a chrefydd, sef golychwyd.

15. Tri pheth à wnânt ddŷn yn anneddfol; ofn, chwannocerwydd, ac anwybodaeth.

16. Tri pheth anhawdd eu gorchyfygu: glewder, cariad, a chydwybod.

17. Tri pheth à ddylid eu cadw fyth yn egored: clust, llygad, a deall.

18. Tri pheth à wnânt ddŷn yn waeth nog anifel: caru'r bol, caru golud, a charu clòd dynion yn fwy no bodd Duw.

19. Tri pheth à wnânt ddŷn yn ogyfuwch ag angel: caru pob daioni, caru ymgardedi, a charu boddau Duw.

20. Tri chynghor y dylid yn bènaf eu gwrandaw, can nas buant erioed amgen no da: cynghor tymmor, cynghor oedran, a chynghor cydwybod.

21. Tri chynghor nid mynych y byddant ar gam: cynghor cyfamwain, cynghor doeth bucheddol, a chynghor gŵr ni wrandawodd erioed ar un cynghor.

22. Wrth dri pheth y bydd oll à wnelo dyn: wrth ryddyd, wrth gosp, ac wrth obrwy: ac nis gellir à se amgen ar à wnelo dyn yn ei lawn byyll.

23. Mewn tri pheth y gwelir prif-gynneddfau enaid dyn: yn à fo yn ei ofui, à fyno ei gelu, ac à fyno ei ddangos.

24. Tri gweddus y sydd, ac ni bydd llawer yn anweddus lle a'u gweler ac a'u caffer: iaith weddus, dillad gweddus, ac ymadod gweddus.

25. Tri pheth ni ddiffyg fyth eu cael: peth golud o ddiwydrwydd mawr, peth anrhydedd lle a'i dirperer yn fawr, a pheth gwybodaeth lle a'i ceisier yn fawr.

26. Tri pheth moladwy ar ieuanc: tawedigrwydd, diwydrwydd, a boneddigeiddrwydd.

27. Tri pheth moladwy ar hên: oynghori yn serchawgswyn, haelioni dwyfolgamp, a doethineb diymged.

28. Tri pheth y gwna mawl dyledus ac haelionus: y gorchwyl yn hawdd, yr ymbwyll yn ddychymygfawr, a'r gobaiith yn gadarn.

29. Tri pheth da iawn eu meddu: oartref o dref tad, crefft o gelfyddyd, a hraint o fonedd cynhenid.

30. Tri pheth gwell no'r rhai hyny: corff iachus, gwybodaeth o gynneddfau moliannus, a rhyddyd o hawl.

31. Tri pheth gwell no'r cwbl: pwyll ynnfawl, calonddif amyneddgar, a chydwybod lân.

32. Tri pheth sydd ar wirionedd: ni waeth beth à fo ef à ddylid ei ddywedyd, ni waeth pryd na lle nag achos a'i dyweter, ac ni waeth beth a ganlyn o'i ddywedyd.

33. Tri phrif anghudd dyn, ac wrthynt a'i adwaenir: trem ei olwg, achaniad ei lasar, a'r modd ydd ymchwyf.

34. Tri pheth ni cheir o'u caru a'u chwennych yn ormodd: eanmoliaeth, hawddfyd, a golud.

35. Tri pheth à ddislanant o'u cofseidiaw gormodde hawddfyd, elad, a da'r byd.

36. Tri pheth ni châr Duw à garo eu gwelcd: gweled ymladd, gweled anghenfil, a gweled rhodres balchder.

37. Tri pheth y sydd a chyda'r trydydd nis gellir hebgor y ddau gyntaf: sef â ddichon, â ddylai, ac â fynai.

38. Tri pheth â ddylid eu hystyried cyn y gweter ambell peth, y modd, y man, a'r amser.

39. Tri pheth na chared neb a'u hangharo: rhogleu y meillion, blas llaeth, a chan adar.

40. Tri thebygaeth dŷn i ddiawl: ofaf plentyn, magla'r ffordd, a chwerthin am ben y drwg.

41. Tri dyn y dylai bawb edrych yn serchog arnynt: sef â edrych yn serchog ar bryd a gwedd y ddaiar, ac ar blant bychain, ac ar ymbwyll celfydd.

42. Tri pheth anrhydeddus ar dŷn: ymgaloni mewn adfyd, ymwarâu mewn llwyddiant, ac ymddwyfoli yn mhob un o'r ddau.

43. Tri athraw dwyfolion dŷn; aflwyddiant bydawl, nychdawd corfforawl, a gelyniaeth anhaeddiannawl; ac nid oes namyn Duw yn wared rhagddynt.

44. Tri pheth â ddadanhuddaut athrylith a chynneddau anianawl dŷn: ei olwg, ei lasar, a'i ymmodiadau.

45. O dri pheth y ceir gwybodaeth gyfiawn ar bob peth: gweled, clywed, a theimlaw; ac o'r tri hyn y mae'r deall; ac hebddynt nis gellir na phwyll, na deall, na gwybod ar ddim yn iawn.

46. Tair barn â fydd ar bob peth, a heb y tair y'nghyd nis gellir barn gyfiawn ar ddim: barn car, barn gelyn, a barn cydwybod.

47. Tri thyb anwedus ac anghyfiawn ar bob dŷn o'r byd: tybied ei hun yn ddoeth, tybied pawb ereill yn annoeth, a thybied y gwedd arno pob peth â fydo.

48. Tri ymwrdd annoethineb: ymwrdd rhyfel, arf tros arf, neu ladd tros ladd; ymwrdd cyfraith, cosp dros gosp; ac ymwrdd casineb, gogan tra gogan.

49. Tri ymwrdd doethineb: addysg tros addysg, pwyll dros bwyll, a chariad tra chariad.

50. Tri pheth hawdd ac un llygad hanner agored eu gweled: syrth anian, deddfau cyfiawnder, a gofynion casiad: a'r un modd mor hawd d gweled eu gwrthyddion; sef ydynt direidi, cas, ac anwiredd (anghyfiawnder.)

51. Tri pheth a welant yn y tywyll: cariad, crebwyll, a chydwybod.

52. Tri pheth ni welant ddim er maint y goleuni: trachwant, trachas, a diogi.

53. Tri pheth a wneir yn y tywyll o fodd a dewis: a wneler gan drais, a wneler gan drachwant, ac a wneler gan anwr.

54. A welo dri pheth ni wel ddim arall: balchder yn hardd, tragolad yn fuddiol, a diogi yn wynfyd.

55. Tair cors anwybodaeth, ac a lyno ynddynt ni fawr wybydd a ddylai: balchder, trachwant, ac annarbodrwydd.

56. Tair pont sydd dros y corsydd hyn: addfwynder, haelioni, a diwydrwydd.

57. Tri anghydfodogion gan ddoethineb: balchder a gwynfyd, gloddest ag iechyd, ac ysmalawch a llawenydd o gallineb.

58. Tri pheth y dylai bob dyn gan am danynt yn wahanol: llawer am a gar ac am a gaffo'n gymmwynas, ychydig am a'i anghar, ac am a gaffo'n anghymmwynas, a dim am a wnelo ei hunan yn gymmwynas i gar, neu yn anghymmwynas i elyn, neu i a'i hanghar.

59. Tri pheth a ddylid eu traselwi ar bob dyn: y son am dano, yr olwg arno, a'i son ei hunan am ereill ac am bethau.

60. Tri achosolion pob peth o gyntefigaeth: angen, dewis, a dygwydd; ac o un o honynt y daw ac y gwneir pob peth.

61. Tri chyntefigaeth hanfod, sef ydynt y tri angenyddyl Duw, nid angen: nerth, gwybod, a chariad; ac o gynghyd y tri bodoldeb a hanfodoldeb.

62. Tri angenyddyl bodoldeb Duw: sylwedd, bywyd, ac ymmod; ac o'r rhai hyn pob sylwedd, a bywyd, ac ymmod, yn dreigledig o han; sef o Dduw a'i ddefnyddion y mae pob peth.

63. Tri anhebgorion ystyriaeth: gwybodaeth parth ag at a ystyrier, serch dewisgyrch at yr hyn a ystyrier, a rheidioldeb er lles y peth a fyther yn ei ystyried.

64. Tri pheth a wnânt lwybrau doethineb yn ddirwysrian: meithriniad bucheddawl gan rieni, addysg ar ddeddfoldeb cyfawn gan athrawon, ac ymgyfeillachu a doethion eynneddawl yn unig.

65. Tri pheth a ddangosant ddoethineb: medru ar y

celwydd lle y cyffyrdder ag ef, caru ac ymarfer & gwritonedd, a gochelyd pob peth a ofyn cêl a chudd.

66. Tri phrif wrthyddion y sydd: mawr a bach, oer a thwym, goleu a thywyll; ac o addasder neu anaddasder trefn ar y pethau hyn y bydd cyfiawnder neu anghyfiawnder.

67. Tri pheth a wedant beth a geir y'n rhob dŷn: tafawd, llaw, a llygad; sef o syniadu yn fanolddoeth ar bob un o'r tri.

68. Tri pheth a ddangosant ddoethineb dŷn: ei fod yn gofus o'i wybodaeth, yn gyfarwydd yn ei orchwyl, ac yn ystyriaethus yn ei amcan.

69. Am dri achos y ceisir gwybodaeth: budd, prydfertch, a dyledswydd.

70. Tri pheth anferth eu clywed: serthedd neu frynti, celwydd, ac athrawd; ac nid gwell a'u gwrandaw nog a'u gweto.

71. Tri phethsy'n ymborth ar dwyll: serch, ofn, a diogi.

72. Tri pheth anghall i ddŷn eu gwneuthur: ymladd dwrn moel a haiarn gwynias, llochi pen ei cynddeiriawg, a chellwair ag anghall gwladaidd.

73. Tri anghallder call: dadlu ag anghall, ymgyfrinaw ag anghall, a cheisiaw gyru syberwyd a moesgarwch ar anghall.

74. Tri pheth y sydd ar ddŷn deddfawl a'u canlyn ac a'i cais hyd fedd: ffes a lluniaeth ei deulu, ffes a llwyddiant ei genedl cywlad, a mwyau gwybodaeth ar wirionedd.

75. Tri pheth y sydd, a'r dŷn a wnelo un o honyat a wna'r lleill; bychanu eiddo arall, trachwanta eiddo arall, a dwyn yn lledrad eiddo arall.

76. Tri pheth nis gellir a fo deddfawl a dwyfawl hebddynt: maddeu cam a gelyn, bod yn haethonus meddwl ac ymddwyn, a bod yn gywir a chyfawna tuag at bob byw a bod.

77. Tri pheth, sef gloddest, gwfn, a diogi, a wnant dri pheth arall, sef difa'r meddiant, tywyllu'r deall, a byrau'r einioes.

78. Tri pheth a ddylai fod gan bob gwr iddo ei hunan: ei wraig ei hunan, ei gartref ei hunan; a'i farn ei hunan.

79. Tri pheth lle nas gwylier arnynt & syrthiant yn hawdd i dwyll answadd: synw yrau corff a meddwl, athrylith awen, a dosparth celfyddyd.

80. Tri pheth mid hawdd eu gweled yn amlwg mewn arall, ac ata hyny nid iawn rhyfarnu arnynt: tuedd a syrth awen, ymgais deall, a barn cydwybod; ac nid oes namyn Duw a'u gwyr ac a'u barn yn gyfiawn.

81. Tri pheth y sydd ac erynt y cadarnëir y gwirionedd o'i ganlyn: er maint yr anhawsder, er maint y colled, ac er maint y cosp a'r poen.

82. Tri cholled i ddŷn a bair iddo ennill yn y diwedd: colli a fo'n ormodd gantho, colli iechyd fodresgamp, a cholli a fo nesaf at ei galon, canys yn hwnw y bydd mwyaf ei heebawd ef.

83. Tri pheth y dylid eu cadw dan law: chwant y cnawd, rhwysg y tafawd, a gwŷn digofaint.

84. Tri nêd annoethineb: ymolygu yn sawr, ymchwanta yn sawr, ac ymchwedlennu yn sawr.

85. Tri anfeidrolion y sydd, ac nis gellir angen na phob peth bodiadawl ynddynt: ehangder, tragwyddoldeb, a Duw. Can nis gellir angen: na ea bod yn mhob man, ac yn mhob amser, ar unwaith heb ymsymud.

86. Tri pheth nis gellir o bwyll bod ar y tri anfeidrolion: dechreu, diwedd, a chanol.

87. Tri aberth a enuilliant gariad Duw o'u rhoddi yn llwyr o galon er Duw a daioni bŷd: ymgais o gorff a deall, cydwybod, a hywyd lle bo achos.

88. Tri pheth a ddangosant ynnioldeb dŷn yn o gwbl: y tri pheth cyntaf y tery olwg arnynt, y tri dasmal cyntaf, a'r tri pheth cyntaf y son ef am danynt.

89. Tri rhyw o ddynion a fyddant yn orowan byd yn y man y bont ac a'u hadnaper: cywiriaid, deddfolion, goludogion haelionus, a gwybodolion dedwyddgamp.

90. Tri dynion a fyddant oren'r byd arnynt lle nas adnaper: celwyddogion, bradon, a hadron.

91. Tri pheth anhawdd eu tawelu: tŷnau'r môr, rhygyr gwynt, a thafawd gwraig arynad geintachlyd.

92. Tri pheth digon annyddan: cell wag, bwyd heb helen, a thy heb oleu.

93. Tri dŷn a welant eu hunain yn ddigon call: dŵl ni welwys, balch ni ddysgwys, a ffol a gredwys.

94. Tri dŷn a welant eu hunain yn ddigon anghall: difalch a ŵyr ei ddiffyg, awengar yn fawr eu ymchwil, a phwyllgar yn ofni y gwaethaf o ddiffyg canfod y goreu.

95. Tri dŷn goreu pa fwyaf o dir fo rhyngddynt a phawb: anynad, anwireddus, ac anwybodus.

96. Tri pheth ni ddylai neb o ddŷn ymfalchio arnynt: ei wybodau, ei ddwyfoldeb, ac a wnel o gymmwynas; am nas gŵyr ac nas gwna fyth ei ddigon.

97. Tri phwyll y sydd dros dewi: rhag dywedyd y peth nas dylid, rhag dywedyd y modd nas dylid, a rhag dywedyd y lle nas dylid.

98. Tri pheth y dylai bob dŷn eu gwybod: defodau ei wlad a'i genedl, dosparthau doethineb, a chelfyddyd y gallo ef ymgynnal ganddi.

99. Tri dŷn y dylid eu gochel: a weto i'e gyda phob dŷn, ac ar bob achos, a ochelo farnu nag y'mhlaid nag yn erbyn un dŷn ba bynag, ac a wrthepo bob dŷn, achos neu heb achos.

100. Tr' pheth o'u hadfer a estynant einioes dŷn: y wlad a'i magwys yn blentyn, yr ymborth a'i maethwys yn blentyn, a'r myfyrdawd a'i dyddanwys yn blentyn.

XIX. TRIODD DOETHINEB ETTO.

1. Tri pheth a wnant droedled gadarn i ddoethineb: ieuencid i ddysgu, synwyr i ddeall, a cheudawd i gadw.

2. Tri anhetgor gwlad a chenedl: priodasau, cyfundodau dosparthus, a chyfarwyddid; canys heb y pethau hyn nis gellir cyfrwyrn a'r wlad a chenedl.

3. Tri madfanogion byd: bardd, fferyllt, a llafurwr. Sef bardd yn athraw gwybodau, deall, a doethineb; fferyllt yn cynnal celfyddydau llaw ac offeryndodau daionus; a llafurwr yn aru daiar er ymborth dŷn ac anifel.

4. Tri ansaf fanogion byd; teyrn, cyfnewidydd, a chybydd. Sef drwg o bwyll ac ansawdd ac amcanion eu cyf-

lyras y byddant, ac a wnant ddaioni ansawdd anghyfednaws; tēyrn yn gwarogi direidi ac yn gwerinaw anwar, cyfnewidydd yn diwall eisiwed; a chybydd yn cyfoethogi'r to a ddél; a drwg o ansawdd cyfednaws ydynt; sef y bydd tēyrn yn anghyfiawn gan oluda galluocrwydd, cyfnewidydd a wna dwyll ac afraid ac afraid o drachwant a blŷs anghyfednaws, a chybydd a newyna ei dylwyth a'i deulu a phawb o'r byd hyd y gallo er ynnill golud, ac ni wna ddaioni o'i fodd, sef daioni cyfednaws, oni newyno ef ei hunan o'r byd.

5. Tri dŷn atgas: tylawd balch, cyfoethawg celwyddawg, a hên godinebus.

6. Tri pheth annaturiawl: marchnattref heb ladron, hên gybydd heb arian, a merch lân heb garwr.

7. Tri pheth hardd ger bron Duw a dŷn: cyttundeb rhwng brodyr a chwiorydd, cariad rhwng cymmodogion, a gwr a gwraig yn cadw ei fydd mewn cyttundeb.

8. Tri pheth sy raid byw hebddynt os mynir heddwch: golud, arfau, a gwraig.

9. Tri dŷn a fydd diogel a diango! ba le bynag ydd elont, ai heddwch ai rhyfel y bo: benyw, gwr cyn barf, a gwr heb arf; ac nis dylid niwed corfforawl iddynt.

10. Tri nŷd anwr: dal gormod sylw ar a fo distadl, drwgdybio yn ddiachos, a heb ynddo draserch a nebun o'r byd.

11. Tri nod bradwr: chwannocrwydd i ymgyswllt a'r drwg, tafawd gweniaethus, a serch ar bob newydd.

12. Tri nod gwroldeb: treiglyddiaeth mynych gartrefgyrch, anyoethusder, ac annalchineb.

13. Tri pheth ni ddylid ymddiried gormodd iddynt: i geffyl cyflog, i was balch, ac i wraig a sonio lawer am ei threfnidaeth.

14. Tri pheth melldigedig en rhwystraw: priodas gyfraithlawn, cynnorthwyaw yr anghenus, a throedigaeth at fuchedd well.

15. Tri dŷn ni ddylynt gerydd: plentyn yn llefain am dād neu fam: dŷn yn myned yn dlawd drwy gynpull gwybodaeth, a dŷn yn ymdrallodi mewn serch.

16. Tri phall melldigedig: palla bwyd i'r newynog, palla lletty i ddiertth ac estron, a phalla addysg i'r un a'i gofyno.

17. Tri llwybr na ddoder afrwyddiant arnynt: llwybr plentyn i ysgol, llwybr tierth i ben ei daith, a llwybr meddyg at y claf.
18. Tri anawd llefurwr: gweithiwr dlog, had hedryw, a thir tragolwg.
19. Tri gwrthwynebrwydd gŵr: plant gwrthnysig, gwraig buteinllyd, ac anair ei gymmydogion.
20. Tri pheth ofer ohwiliaw am danynt: aur y mhws prydydd, iechyd y nghorff meddwyn, a doethineb mewn meddwl balch.
21. Tri pheth ereill ofer chwiliaw am danynt: callineb mewn pen chwaldodog, diwydrwydd mewn cyfngder, a ffyddlondeb mewn calon ariangar.
22. Tri chais doeth: gwraig dawedog o blith ei gymmydogion, boddlondeb yn ei gastref ei hun, a santeiddrwydd yn ei gydwybod.
23. Tri breninoldeb gwr: dodrefn tŷ a thir o'i wneuthuriad ei hŷn, ymborth o'i drefdir ei hŷn, a doethineb o'i awenbwyll ei hun.
24. Tri pheth ofer dysgwyl am danynt: gwirionedd mewn rhagrithwr, cywirdeb mewn gwenieffthrwr, a chyfiawnder gangyfreithwr.
25. Tri rhyw ddŷn y sydd: dŷn i Dduw, dŷn i-ddŷn, a dŷn i ddiawl: dŷn i Dduw a wna dda dros ddrwg, dŷn i ddŷn a wna dda dros dda a drwg dros ddrwg, a dŷn i ddiawl a wna ddrwg dros dda.
26. Tri pheth a gywirant eu gair yn ddifffuant; angen, dial Daw, ac edifeirwch.
27. Tri achos esgusedig i ddŷn ddywedyd celwydd: i gadw bywyd ei gyd-gristion, i heddycha cymmmodogion, ac i gadw ei wraig yn foddlon.
28. Tri chyw o'r un nŷth: creffwr tafawd, bardd deuparth, a dwyfol cyffes.
29. Tri rhyfedd byd: hen heb drachwant, gwraig heb wagedd, a dŷn da heb iddo elynion.
30. Tri pheth hyfryd i'r dŷw: telyn gyweirber, newyddion da, a llais dŷn a gerir.
31. Tri llawenydd gwr ar gyfaillorn: llŷw tan, ei yn eparth, a ntab bychan yn gweiddi.
32. Tri pheth y dylai pob Cynro tiriog ceradw ei

gyanal: gwraig briod, gwr wrth arf ac nas dydd arf ei hunan, ac athraw teuluaid.

33. Tri chelwydd y sydd: celwydd o wedyd, celwydd o dewi, a chelwydd o ymddwyn; sef y pair pob un o'r tri i arall gredu y peth nas dylai.

34. Tri ennill a geir yn golled yn y diwedd: ennill clôd yn argywedus o gamp a gweithred, ennill golod o gribddail a phob anghyfiawnder, ac ennill y goreu mewn drwg ymryson.

35. Tair colled â dry yn ennill mawr yn y diwedd: colli da'r byd o roddi cardawd, colli clôd a pharch y byd am ddedwydd o gamp a gweithred a chynneddf, a cholli bywyd dros wir a chyfiawn.

36. Tri pheth ni ddarfyddant fyth: cerdd o awen flodeuawg, enaid dyn, a chariad perffaith.

37. Tri chás â drig fyth: rhwng priawd â'i lyslant, rhwng ewn a moch, a rhwng Cymry a Saeson.

38. Tri pheth y sydd ac nid dim hebddynt; nerth Duw hollalluawg, cariad Duw holl drugarawg, a doethineb Duw hollwybodawl.

39. Tri pheth anhawdd i wir gristion: eu gwneuthur: caru drwg, balchiaw yn ei dda, ac esgeulusaw ei ddyled; Dduw a dyn.

40. Tri pheth angenrhaid i ddyn â elo i dafarn: pen cadarn, bola gwydyn, a chod drom.

41. Tripheth â erys ar ol pob dyn: da rhinweddffawr, gatr ac enw da iddo ei hun, addysg dda i'r etifeddion a'r lle y bu, ac amgerddediad da ar bob peth a drafodes ef ar ymddwyn a gweithred.

42. Tripheth gwell no golud y gad dedwydd idde i blant a'u hetifeddion: addysg o lwyll, addysg arddangos, ac annogiad i wneuthur fal y gwemeth yntau, aches y parch a'r clod â gefir iddo.

43. Tri chynghor yr aderyn melyn; na sawr alata ara â ddarffo, na chréd yr hyn ni allo fod, ac na chwennyeb na allech ei gael.

44. Tri pheth gwell i wr ei grogi no'u meddur: tylwyth anghywir, plant anafyddion, a gwraig feddw.

45. Tri y sydd ac nis gellir fyth iddynt eu llawn ddi: rhieni, athraw da, a Duw Dad.

46. Tri pheth sydd a buan yr un à allo gydgerdded ag wynt: llucheden, meddwl dyn, a chynnorthwy Daw. (Llyfyr arall ewyllys da.)

47. Tri pheth yw rhan y goludawg: mwyfwy trachwant, mwyfwy gofal, a lleilei yr ymfwyniad,

48. Tri pheth goreu yn y byd er llës dyn: tlodi, clefyd, a phlant; canys o'u meddu y cair gwybod llawer gwir nis gellid hebddynt.

49. Tri meddyg anniffygiawl i bob clwyf a chlefyd: anfan, amser, ac amynedd.

50. Tripheth na chreder dros yr hanner à fostier o honynt: am olud, am ddeallt, ac am ddaioni.

51. Tripheth ys dir cael o honynt gant gofid am un dyddanwch: helwriaeth, rhyfel, a serch ar fenyw.

52. Tripheth nid da y cyfan o honynt: gwneuthur y cyfan à chwennycho llad, credu y cyfan à weto ben gwlad, a dangos y cyfan à wyper.

53. Tripheth cyffelyb iddei gilydd: cleddyf gloyw à ryda o'i hir gadw yn ei wain, dwr gloyw a ddrewa o hir sefyll yn llonydd, a doethineb à fydd farw o'i hir anarfer.

54. Tri ymborth dyn à barant iechyd, hiroes, a synwyr gloew: ydfwyd, blithfwyd, a garddfwyd.

55. Tri ymborth à barant afiechyd, byroes, a synwyr pwl: cigfwyd, cyffeithfwyd, a gwyrawdfwyd.

56. Tri pheth da i wr à garo iechyd: digon o gwsg y gwanwyn, digon o fwyd yr haf, a digon o dan y gauaf.

57. Tair ffordd y daw erëd ar bob peth: sef o gredu pob peth yni wyper amgenach, o anghredu pob peth yni wyper paham ac ydd adnaper y tystion, ac o gredu ni waeth beth lle ho a'i tystia yn gredadwy.

58. Tri pheth à nerthant ddyn i sefyll yn erbyn yr holl fyd: gweled aasawdd a phrydferthwch gwirionedd, gwel- ed dan bais y celwydd, a gweled y modd y mae y gwir a'r eelwddydd yn diweddu.

59. Tripheth à wna ysgrifenydd da, nid amgen: tra- gywyddoli côf ar weithred ardderchawg, gadael addysg gadarn i'r oesodd a ddelont, a phery clod a bery dios fyth iddei enw ei hunan.

ATHRAWIAETH

GERAINT FARD D GLAS.

I. LLYMA GYNGHORION Y BARD D GLAS O'R
GADAIR,

*I bab Gwr Doeth, a dymunai reagu bodd Duw a dynidr.
yn y byd yma ac yn y byd arall; sef ydynt;*

1. Câr dy Dduw yn fwy no dim, canys efe â wyr bob peth, â wêl y sydd yn mhob calon, ac yn mhob cydwybod, ac nidoes dim yn nghudd rhagddo, ac ar bob gweithred, a gair, a myfyrdawd, a meddwl, efe â ddod farn gywir a chyfiawn.

2. Câr dy gymodawg yn gymaint â thi dy hunan, a gwna erddo â dymunit iddo ef ei wneuthur i tithau; ac o byny y câr di dy Dduw itti yn gymodawg agos i' th gynnorthwy ar bob achos, yn ddiwyll ac yn ddiaddoedd.

3. Câr dy enaid yn fwy nō' th dri gelyn, nid angen y byd, y cnawd, a'r cythraul, canys pa lês ai oddiwrth amgen a garot, os a' th enaid ar goll o' th anghariad tuag atto?

4. Câr di bawb a' th garo dithau, bid gas genyt â fo yn casu Duw: Duw a eirch it garu' th gymodawg yn ail i' th hunan. Duw a'i gorchymyn itti, ac nid câr ti i Dduw os tydf na wnei oll o'i orchymynion ef; ac na wrthot ti y, neb a' th garo, canys Duw ni wrthyd y neb a'i câr; eithyr gwrthyd yr hwn na wnelo, yn y bo gallu, fal y gwna ef, canys ni câr hwnw Dduw, onts na gwarthæer ac nas anfyddaer y neb â garer.

5. Whechryw gariad y sydd yn y byd, nid angen, un yw cariad nefawl, ail yw cariad uffernawl, trydydd, cariad noturiawl, pedwerydd, cariad gorchymynawl, pummed, cariad corfforawl, chwechfed, cariad gymydawl: sef hyn yw cariad nefawl, caru Duw a'i saint, a phob santaidd, a phob daioni a daionus, a phob hardd a gweddus, a phob annrygiopus; cariad uffernawl yw caru pob pechawd, canys cās yw pechawd gan Dduw er lleied y bo, a gelyn hefyd i ddyn, er bychaned y bo; cariad noturiawl yw i ddyn garu ei rieni, a'i briawd, a'i blant, a'i frodyrde, a'i genedyl,

a'i gymdeithion; Cariad gorchymynawf yw i ddyn garu ei dad, a'i fam, a'i gymrawd, a'i dad ysbrydawl, a'r estron, a'r tlawd, a'i gymydawg, a'i elyn. Ac yn y cariad hyny y câr ef Dduw, canys nid llai no charu â wneir â wneler ei orchymynion yn ufyddâwl; cariad corfforawf yw i ddyn garu ei gymhar cyfreithlawn, a'i dda byd hyd y bo cyfiawn, a'i eppil, a'i geraint, a'i genedyl a'i amgen; cariad ysbrydawl yw i ddyn garu ei enaid ei hunan, ac enaid pob Criston ffyddlawn, a phob daioni, a phob gwirionedd, a phob iawn, a'i Dduw, a'r dyn â garo ymhob cariad yn ffyddlawn ys dir y cerir ef gan Dduw; a llwyras cariad cariad Duw; ac o fodd arall yn ddiahebb, namyn Duw nid oes gariad; ac arall a ddywed, namyn cariad nid oes Duw; ac un arall, namyn cariad nid oes gwynfyd; ac etton, namyn cariad nid oes nef; a namyn câs nid oes gythraul; namyn câs nid oes uffern.

Sef ei dywaid y Bardd Glas o'r Gadair.

II. LLYMA EREILL O GYNGHORION Y BARDŴ GLAS O'R GADAIR.

1. Na ddos i'r cyngbor na'rh elwir iddo yn gyntaf, canys diflas gan bob un yr hyn â gynnigir heb ei ofyn.

2. Arfer dy hun ar gampau daionus a chanmoladwy, canys o hyny y cei fodd Duw a dyn, ac o hir ymarfer ag wynt, ys dir y greddfant ynot, fal nas gelli amgen no champau â wnant fodd dy gymodawg a bodd dy Dduw.

3. Bydded itti gyfallen o wraig briawd gyfreithlawn, fal nas whenychot odineb, a mal y gwypot y cariad â ddylit at briawd a phlant, ac ydd ymarferot ag ef, canys heb ymarfer â phob cariad ni elli wybod pob daioni, ac heb wybod daioni o bob rhyw nis gelli ymddarbod yn griston ffyddlawn a pherffaith, na gwneuthur bodd Duw; ac heb fod Duw nis gelli fyned i deyrnas nef.

4. Dysg dy blant ar ddaioni; ac i wybod ac i wneuthur â fo gyfiawn a thrugar, ac i ddeall gofynion cariad o bob rhyw; canys diahebb â ddywed, gwell i blentyn heb ei eni no heb ddysg, canys am bob daioni a wnelo dyn y mae

Duw yn bendithiau ei dâd, a'i fam, a'i sawl ai dysgwys; ac am bob gweithred ddrwg a wnelo, y mae Duw yn melli-dithiau ei dâd a'i fam, ac a'i dysgwys; am fagu tiffedd a dyn heb ddysg; a phob daioni a wnelo ddyn, o ddysg y gwna ef hwynt; a phob drwg a wnelo, diffyg dysg yr achos; ac eithyr dysg nis gellir daioni, fal y dywed diarhebydd, a phynag heb ddysg a wneler yn dwyn rhith daioni o sŷsawdd anifel y daw, yr hwn ni wŷr na drwg, na da, achos hyny nis dylit yn dâl iddo.

5. Na fynycha oddigartref, canys yn nghartref pob un y mae ei ddyn a'i dda; a diarhebion a ddywedant, gormes pob anghartref, a goren tref yw cartref; a gwedi treiglau pob tref hawddfyd i gartref; ac medd ereill, cals ddedwydd yn ei gartref; ac eilwaith cais ddoeth yn ei dyddyn; ac oŷton, cais annoeth yn mhob man eithyr yn nghartref; a hefyd, cais ddiriaid ni wyddys yn mha le; ac arall, na dyn na da ni lwyddant i anghartrefawg; na arall hefyd a ddywed, na charo ei gartref yn y byd hyn, ni cheiff gartref yn y byd a ddaw; ac arall, ni charo ei dref ni cheiff y nef: canys o gartrefogion y ceir gwlad a phanedyl, ac o anghartrefogion, herwyr, a difrawd, a gormes, ac ymdrin, ac arferion gwyddelig.

6. Nad dyro echwyn heb edrych i bwy: os i ddyn cywir ti a gai dripheth, nid amgen, clod, a chariad yr anghenus, a'th fendithiau i'th drachefyn ffordd y clywer am danat; ac o hyny cariad dy wlad, a diolch tragywyddawl gan Dduw: os i anghywir, ti a gai dripheth arall, nid amgen, cōst, a blinder, a digofaint am eu ceisiau, heb itti ronyn a ddiolch gan na Duw na dŷn.

7. Bydd gywir i'th arglwydd cyfoeth, ac na ddos ganho yn a fyno cyn y gwypot ai iawn ai amgen y bo; dos yn ei gyfiawnder, ac na ddos yn ei ymdrin lle na bo gofynion gwlad, ac na ddos yn gartrefawg yn nghyfoeth brenin amgen, lle na bo owyn gormes, a lle bo dos yn nghyngor dy wlad a'th genedyl, hyd y bo'th gynrawd: canys diarheb a ddywed, gweddw barn un, cadarn barn llawer; a thrêch gwlad nog Arglwydd; a'r cyfiawn a geiff ei le; a'r gwir a ddaw'n wir; ac un arall, tēg a ddaw'n dēg yn y diwedd.

8. Trin dy dir, ac na thrin dir arall yn llōg. Safed pob un ar ei draed ei hunan, fal y mae diarheb, na fydd ormes

ar neb am à fo'th raid, lle na bot hên na than dy nam, adiarheb arall à ddywed, Duw à gâr à garo ei hunan, ac nis câr ei hunan, nas caro yr iawn. Cofia ddiarheb arall, goreu cyflog gwas à fo gwas iddo ei hunan. Gwybydd dri pheth gwneuthur dy dŷ, dy arad, a dy lyfyr: a'r neb na wypo y tripheth hyn, ni wybydd ei raid o gelfyddydau gwlad. Na fydd ddiawg; hedyn pob drwg yw diogi: nid tlawd ond diawg; nid goludawg ond diwyd; nid rheithgar ond gweithgar; nid doeth na fo ddoeth drosto ei hunan; nid call ond call er ei lês ei hunan: lês hunan lês gwlad, lês gwlad lês byd.

9. Na'th weler mewn un drwg, ac nag aros lle bytho; bid arnat fraw ac ymswyn ei weled, a chlywed am dano. O myni wybod mesurlath drwg, ti ai gwybyddi wrth à fynit ac wrth nas mynit i arall wneuthur hti: yn hyny hefyd y cefi fesurlath daioni; a llyna brif bwnc gwybodaeth à ddodes Crist yn addysg i bob Criston, ac ai dodes yn briforchymyn.

10. Na watwar neb, na dyn clâf, na dyn dolurus, na dyn eloff, nac à fo dall, na byddar, na hagr, nac à fo dan un nam corffrawl, nac à fo diffyg synwyr arno, nac à fo dlawd, nac à fo anferth a drwg ei gampau, na neb oblegid bai ac anaf a fo arno; eithyr cysura di y clâf a'r dolurus; a'r anafus, a'r clwyfus, ac à fo flinderus, a phortha y tlawd, a chynnorthwya y gwan, a dod addysg ar y drwg ac anferth ei gamp, a dangos iddo dy gynghor, a rhybuddia ef yn hybwyll, ac na watwar neb o'r rhai à ddangosed, canys gnawd yw i'r neb a'i gwnel syrthiaw yn yr unrhwy, naill ai yn y byd hwn, ai yn y byd tragwyddawl.

11. Na ryarfer à gormodd o ymgyfeilliaw à nebryw o ddyn; canys goreu gan bob dyn ei hunan, ac ni char ef ryhir ymgyreh ag ef; canys o hyny ni fydd iddo ef ei hunan, modd y bo gorhoff gantho; a distas y bydd ar ba bynag o ddyn, na fo hamdden iddo herwydd à garai, ac à ddymunai; ac ni hir gâr ef y neb nas gedy yn ei ansawdd, ac nid rhyw i neb eithyr ei ansawdd; mal y mae diarheb, a diarheb arall, nid dwyn oddiar neb ond ei ddwyn oddiarho ei hunan; nid lledrad ond oddiar à fo serch; nid anrhaith ond difuddiaw i wr ei hunan; ac etton, nid rhwym ond rhwymaw awen; ac arall, nid anghyfaill ond rhygyfaill; nid yspail ond yspeillaw anner.

12. Gocheldramwy gormodd i dafarn, canys tripheth a geiff dyn o'i hir ddilyn; nid amgen; colled da byd, colled iechyd corff, a cholled enaid, ac o'r tricholl, colli Duw a'i saint.

13. Gochel ddrwg-wragedd, canys nis gellir lles oddi wrthynt, eithyr y mawr afles. Tri eaw y sydd ar wraig ddrwg, nid amgen, porth uffern, rhwyd y cythreuliaid, a'r gwenwyn melys; a diarheb arall a ddywed, gwraig ddrwg yw y drycaf o bob drwg, a gwraig ddrwg yw y llwybyr i bob drwg arall; ac o ddal pwyll ar a welir yn mynd, odid o fil un drwg nad gwraig ddrwg a fu yn achos iddo, y naill a'i o gynhyrriad ai o gynaliad: bys ymhob drwg yw gwraig ddrwg.

14. Na fawr ogana ddyn oanmoledig er maint a fo dy gas arno, ac er maint y bo ei gas ef arnat-ti; canys ni choelir ei gas ar neb; fal y mae diarheb, ac arall; cas ni ddywed a fo gwir ar ei gas; ac arall, ni choelir neb ar ei gas; ac arall, ni chydfydd cas a gwionedd.

15. Na fawr ganmola ddyn goganedig, er maint y bo dy gariad arno; canys ni chredir y dyn hyny yn erbyn Hawer o ddynion; canys a ddyweto bob un gwir yw; ac arall o ddiaheb, ni ellir camsyniad ar bawb; ac arall, cwydd o ben un, gwir o benau pawb.

16. Na baedd felldithion dynion y ddaiar; canys Crist ei hun a ddywed, a felldigir ar y ddaiar, minau ai melldiga-fyn y nef, hyd pan ddelynt i'r iawn, nid amgen treiswyr, a lladron, a chyhuddwyr, ac anudonwyr, a godinebwyr, a mtrawyr, a chybyddion, ac nas parchont y suliau, a meddwon, a gloddestwyr, a'r diawg, a'r llidiawg, a'r twyllwyr o bob rhyw, a'r athrodwyr, a'r cynhenegion, a'r beitchion, a phob trahans; canys Duw nis gad yn rhydd yn y nef a font ar y drygau hyny, ac nis gellir yn y nef amgen no bod Duw.

17. Na ymddiried yn ormodd i olud bydawl; canys tripheth nis gellir craff a gafael arnynt, amser, gwynt, a golud bydawl; canys nid golud trysor nas trafoder, ac a trafoder ni wyddys ei helynt, ai yn ei ol, ai amgen y daw.

18. Na fostia yd ddim, canys nid oes itti na byd, na iechyd, na chyfoeth, na gallu o'r byd; ond benthg an-niogel, ac am hyny cam y dywedi di fod itti feldiant ar y

peth a ellir ei ddwyn rhagod pan y mynir gan Dduw.

19. Cydnebydd di dy hun, achos tri goruchafion doethineb y rhoddes Duw i ddŷn, nid amgen, adnabod ei Dduw ai gwnaeth, adnabod ei hun, sef o galon a deall a ehydwythod, sef adnabod ei dda ei hun oddiwrth dda arall, ac a fo da iddo, ei hun yn amgen nog a fo da i arall, sef o'r gwybodan hyn y mae doethineb.

20. Na chred yn ormodd gyhudded dy wraig ar neb; gwawd yw i'r wraig ethrawd y neb a fo ei gwr yn ei garu iwyaf; canys ni châr gwraig a garo ei gŵr, nag a garo ef; a lle bo hael y gŵr, gwnawd y wraig yn anhael; canys tripheth ni, châr gwraig, cariad ei gwr at arall, gwybod o'i gwr a wnelo hi, a dangos cyfrinach.

21. Gwna ddaioni a'th olud bydawl tra bych yn meddu arnynt, fal y bo it dâl a gobrwy erbyn y pan elych yn maes o'th feddiant, fal y dywaid lo oludawg. "Dyro tau tra fo tau, wedi tau nid ti a biau" canys nid tlawd tragwyddawl ond cybydd chwanaegg, canys ni chymmer hwnw hanner digon yn y byd yma, ni cheiff yntau ddiun yn y byd arall pan ei oddiyma. Rhodd i dlawd rhodd i Grist, ac esé a'i tal itti ddydd brawd; fal y mae diarheb, a roddir i dlawd, a delir ddydd brawd.

22. 'Mogel pan foch ddedwydd rhag syrthjaw yn nireidi, canys gwrthwyneb yw gweled dedwydd yn myned yn ddiriaid, fal y dywaid y ddiaheb, pa dyna, y liayn cyntaf y tyr; a hofi gweled diriaid yn myned yn ddedwydd, neu bechadur yn myned yn santiaid, neu gybydd yn myned yn hael, neu ynfyd yn myned yn ddoeth, neu faleb yn myned yn war, neu wyddelig yn myned yn addwyn; a diarheb arall, nid gwaradwydd ymwellau; nid gogoniant ymwaethu; a diarheb arall, goreu gorchwyl ymwellau, gwaeth no phob gwaethaf ymwaethu.

23. Dod mawr ddiolch i Dduw beth bynag y rhotho ef itti; canys amdriachos dyledig dyn ddiolch i Dduw ni roddion; cyntaf, nid yw Duw dan ddyled i neb, a phawb dan ei ddyled ef; ail yw, ni ellir cymhell arno roddi ond a fyao ef ei hun y rhydd; trydydd, ni ddyry Duw i neb ond a fo er llés iddo, ai golud ai tlodi bytho; ac am hynny, iawn yw rhoi diolch i Dduw am beth bynag y rhotho; ac ni gwyd y cythraul dda i neb ond er drwg iddo, a phob

gudaf cybydd, a phob mawredd besechion, a phob caffael o dwyff, a phob elwch gloddest, a meddwdawd, a gŵdineb, cythraul a'u rhydd et dinystyr i enaid dyni. Canys nid o Ddaw y daw i neb o ddyn a fo er athes, nac iddo ei hun nae i arall. Rhodd Duw i ddedwydd rhodd i bawb, rhodd diawl i ddirtaid nid rhodd i neb; oethyr addawd a ddwg oddiar ai rhothor yn ngafael ac oddiar oll a wnele a hi ac ai perthyn:

24. Parcha bawb, a phawb a th' barchant dithau; ac yn enwedig rho barch i'r neb a fo gwell no th' ger bron Duw, a Duw a th' barch dithau. Parcha bawb a fo th' well ger bron dyn rhag cael cas ac ainharch oddwrtho; parch y neb a fo is no th', et cael clod gan ddynion a gobrwy gan Ddaw; canys Duw ei hun a ddywaid, lle bytho cariad perffailth rhwng dau y byddai yntan yn drydydd.

25. Car di th' dygystal et cael ei fodd a'i gymdeithas, ac o' gwnei di felly; ti a gai garedigrwydd a gair da gan bawb; car na fo th' dygystal et boddau Duw, a chael benth y neb cyfryw a gurot; a lle rhotho dlawd ei fendith Duw at rhy hefyd, ac ary atto yn gadarn a thra mesur hys nas gellir na byd na lled arno; car hefyd dy well, a diogelwch a gal yn dy wlad a th' gyfystred; ac y mae dydd yn aros y goreu ac ys dfr y daw; y bydd da iddo gariad ei waeth ac a fo et oris; ac yna efe a th' gymmer yn oddygystal ag efe ei hunan: sef o' gart pob rhyw; et a th' gerir dithau gan bob rhyw; ac o' gael cariad pob rhyw y daw itti glod, a pharch ac ynnill, a chydwybod lan, ac ymadferthwch Duw.

26. Na fydd lidiawg, na balch, nac ystyfnig, na diriaid, gwawr drwg ddiwedd i a font felly; ond bydd di addwyn, a gwar, a mwyn, a charedig, a maddeugar, canys gnawd yw i a fo felly gael goruchafiaeth, fal y dywed Crist, "Dyoddefus a orfydd ar bob peth," a lliid y sydd fab i falchedd, a balchedd yn fab i ddawl, a gwrthwyneb i Ddaw, a gelyn dyn, ac eginyn pob drygloni; ac nis gellir a gymmait ei ddwrg yn y byd a balchedd; nid oes ond y drwg o bob rhyw herwydd y bo achos iddo, ac ai cynnal, ac nid lliid iddo et walfi no chynnal pob drwg, amlosg et iddo hyny o gyfynwaith et ai cynnal yn er ansawd.

27. Na eiddo wrth Duw er bychardd o'r byd byddi a

sotho ef itti yn y byd hwn; canys po leiaf fo y meddiant lleiaf fydd y cyfrif, a pho leiaf fo y cyfrif lleiaf fydd y gofal, a pho lleiaf y gofal, mwyaf fydd y llawenydd; canys pan fo raid itti ateb am bob gwerth As ar a fu ar dy helw erioed, pa fodd y cefais, ai yn ddrwg, ai yn dda, yna y gelli ddywedyd mae gwyn ei fyd yr hwn a fu leiaf iddo o dda byd, ac y gweli 'n oreu ar y neb a fu leiaf ei feddiant yn y byd yma, lle nas gosodes ef a fu o dda bydawl ar dda, ac er llês y neb na chawsant gan Dduw ond y bychandawd a'r tloidi. Yna y dychon dyn ddywedyd mae gwae ef pan aned, pan fo y cyfrif yn fawr ar llaw yn ddiidim; y farn yn agos, a'r brawdwr yn gyfiawn, a'r holwr yn llwyr, gan wybod y cyfan, a'r gydwybod yn euawg, a'r carohar yn barawd; ac yna y gwelir yn amlwg mae goreu yw i ddyn y maint a ddanfono Duw iddo yn ddibechawd, ac nid a ddymunai y corff ei gael, ac a fynai y trachwant yn ei afael; canys pwy bynag a ddilyno ei wyllys, a chwant y corff, yn y byd yma, fe gyll gwyllys yr enaid yn y byd arall; canys a lasurio yn gywir, ac a gymedrola yn hybwyll, ac a drugarâo yn haelionus, ac a weddio yn deilwng, ac a fucheddo yn gyfiawn, ac a fo mewn cariad perffaith, ef a ddenfyn Duw iddo a'i gwasanaetho yn y byd yma yn ddibechawd, ac a rydd iddo wynfyd a golud tra-gwyddawl yn y byd a ddaw: a phoed gwir hyny gan bawb yn y byd yma.—A phoed felly y bo.

Sef y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywed.

III. LLYMA DDEWISBETHAU Y BARD-GLAS O'R GADAIR.

Bore tawelgain,
Ac adar cydsain;
A meillion yn frith,
Gan ddefni byrwlth;
Digwswl wybren,
A maclawr addien;
A gwawrgan hedydd,
A lawyalch ar wydd;

Crechwengerdd eos,
O gilgoed agos;
Crychnant raianllawr,
Blodeuawg ambawr;
Llaferydd adar,
Hin heulaidd glaiar;
Iachusber wybyr,
A charw ar frithlwybyr;

Cydgerdd bytheiaid,
 Llais wŷn a defaid;
 Cyweirber delyn,
 Nwyfusber ynglyn;
 Caniadaeth traserch,
 O berfin gwenferch;
 Medrusferch lawen,
 Ffrwythlonder awen;
 Glaswyn caruaidd,
 Geiriau serchogaidd;
 Cyfeillach addwyn,
 Gweled camp drylwyn;
 Hen fedd blasusber,
 Eynneddfawl fwynder;
 Rhianndlos berfaith,
 A doethgain araith;
 Llwybrfrys cynnesin,
 Celu pob cyfrin;
 Mwythusber gilwg,
 Serch heb drythylwg;
 Cusanu gwenferch,
 Ar lawr glas lanerch;
 Llatai cywirgall,

Cyfaill da 'i ddeall;
 Parabyt caredig,
 Castu hên eiddig;
 Rhodle dirgelfan,
 I garu meingan;
 Caru a'm caro,
 Call a'm cynghoro;
 Cartrefu yn ael nant,
 Sychbridd areulbant;
 Ty bychan cynhes,
 Gerwyneb gwyndes;
 Llyfyr doeth awenbwyll,
 Deallus gymhwyll;
 Gofwy prydyddion,
 Croesawir doethion;
 Cynnadled cerddau,
 Cywreiner chwedlau;
 Cael fy nghyfeillion,
 O bryffwnt beirddion;
 Cael fy nghariadferch,
 Yn rhwymau traserch;
 Ac o'i chael bun ga,
 I'm byw ei chelu.

a love ... Y Bardd Glas o'r Gadair ai Cant.

IV. CASDDYNION Y BARDŌ GLAS O'R GADAIR.

1. Dyn heb grefydd a rhinwedd dda.
2. Mâb heb ddysg a chelfyddyd.
3. Merch neu wraig heb gywilydd.
4. Gwas heb ofn ac ufydd-dawd.
5. Tylawd rhyfalch.
6. Balch ar ei gampau drwg.
7. A ymfrostia'n a fo cywilydd iddo.
8. Cyfoethawg o ledrad a gormes.
9. Bardd annifyr annesodm.
10. Esgob heb wybodaen daionna.
11. Gwr na charo ei garennydd.

12. Pwyf heb offeiriad.
13. Sgwyr digydwydod.
14. Brenin cribddeilgar.
15. Braiddwr heb gyfiawnder trugarawg.
16. Doeth heb weithredoedd da.
17. A'chwardd am ben pob peth heb ystyriaw pobers.
18. A ffroma yn ddiachos.
19. A gafas ddysg heb ymwellâu'n ei fywyd.
20. Ni welwys ac ni fyn weled.
21. Cadarn yn erbyn pob ymbwyl.
22. Ofnus ymhob peth.
23. Celwyddawg cynneddfawl.
24. A ddywed ie gyda phob un.
25. A ddadyl yn erbyn pob un.
26. A ddywed ei feddwl lle nas ceisier.
27. A ery'n ôl ymhob rhwystri.
28. Athrodwr cynnwynawl.
29. Gwenieithwr wrth bawb.
30. A garo drin ac a' ymladd heb achos.

Y Bardd Glas o'r Gadair ai dywed.

Aber i longau,
Ysgol i lyfrau,
Tofordd i lgau,
Gorsedd i ddadlau,
Melin i gydau,
Llys i seigiau,

Marchnad i gyfnewtiau,
Arwyl i weddian,
Netthior i gerddau,
Cadlas i warâu,
Deall i wybodau,
Cydwbybod i rinweddau.

Y Bardd Glas o'r Gadair ai Cant.

V. GORDDODAU.

Perchi gwr er er fawed,
Prynu bwyd er ei bisted,
Eiriach llystr er ei ioked,
Treulio yr aur er ei gysled,
Ofni claf er ei lesged,
Cosbi y corff er ei fysted,
Cahlu y byd er ei gryfed.

Aru y tir er ei lefed,
 Cau y buarth er ei gwaced,
hinsid- Erllyn taith er ei meithed,
 Gorphen gwaith er anhawsed,
 Ymlid gâl er ei ddewred,
 Rhoi elusen er ei thloted,
 Gwneuthur iawn er ei dosted,
reception Arfoll tlawd er ei waeled,
 Caru y gwir er ai cydred,
 Gochel diawl rag ei ddryced,
 Caru Duw gan ei ddaed.

Y Bardd Glas or Gadair ai cant.

Llawer cryf drwg ei arlaith,
 Llawer gwan da ei araith.
 Llawer gwir drwg ei wedyd,
 Llawer doeth dwys ei adfyd.
 Llawer tæg drwg ei ddeunydd,
 Llawer hagr ygar y bydd.
 Llawer tlawd mād ei fuchedd,
 Llawer berthawg drwg ymarwedd.
 Llawer llèn drwg ei wyddor,
 Llawer mul mād ei gynghor.
 Llawer diriaid ar ei farch,
 Llawer dedwydd mewn dir anmharch.
 Llawer cam yn dwyn enw barn,
 Llawer cyfiawnder dan draed yn sarn.

Y Bardd Glas o'r Gadair ai cant.

Adfyd a rydd addysg,
 Addysg a bair gwybodaeth,
 Gwybodaeth a ddyry ddoethineb,
 Doethineb a gais ddaioni,
 Daioni a dry'n ddwyfoldeb,
 Dwyfoldeb a gyrch wynfydoldeb.

Y Bardd Glas o'r Gadair ai Cant.

VI. ASTRONDDYSG Y BARDD GLAS O'R GADAIR.

Yn y talcen y mae y deall,
 Yn y gwegil y mae y côf,
 Yn y iâd y mae y dosparth,
 Yn y deall, a'r côf, a'r dosparth,
 Yn un, y mae y pwyll,
 Yn yr ysgyfaint y mae yr anadyl,
 Yn y ddwyfron y mae y chyant,
 Yn yr afu y mae y gwres,
 Yn y gwythi y mae y gwaed,
 Yn y bustyl y mae y digofaint,
 Yn y dduwg y mae y llawenydd,
 Yn y galon y mae y cariad,
 Yn y rhai hyn i gyd y mae y serch,
 Yn y serch y mae yr enaid,
 Yn yr enaid y mae y meddwl,
 Yn y meddwl y mae y ffydd,
 Yn y ffydd y mae Mâb Duw,
 Ym mâb Duw y mae bywyd didranc,
 Yn mywyd didranc y mae gwynfyd anorphen.

*A gwyn ei fydd a wnelo yn iawn a'r ynniau a ddodes
 Duw ynddo, er cyrhueddyd gwynfyd anorphen hyd
 fyth bythodd. Amen.*

Y Bardd Glas o'r Gadair si dywed.

LLYMA SAITH CYNNEFNYYDDION BYD.

1. Cyntaf, ddaiar, ac o hano pob cosf a chaled, a phob saw cadarn.
2. Ail, dwr, ac o hano pob llyn ac jr.
3. Trydydd, awyr, ac o hano pob anadyl ac ynnod.
4. Pedwerydd, haul, ac o hano pob gwres a goleuni.
5. Pummed, tŵyfre, ac o hano pob trintad, a serch, ac ymnwyl.
6. Chweched, Ysbryd Glan, ac o hano pob deall, a phwyll, ac awen, a gwybodaü.
7. Seithfed, Duw, ac o hano pob bywyd, a chadernyd, a chynnal hyd fyth bythodd.

Ac o'r saith cynnefnyddion y mae pob bôd a byw: a phoed ar drefyn Duw y cyfan oll. Amen.

Y Bardd Glas o'r Gadair si dywed.

SAITH RHODDION YR YSBRYD GLAN.

1. Deall yn y meddwl, yn rhyau.
2. Pwyll, yn y deall, yn dosporthu.
3. Gwybodau, o bwyll yn arall barn. *to attend*
4. Northodd corfforawl, yn gweithredu yn ol y bo barn.
5. Serch, o northodd y synwyrâu, yn caru yr iawn, ac yn casáu y casu.
6. Cynneddfau daionus, yn dyfod o wneuthur a fo iawn, herwydd barn o bwyll a deall, a herwydd serch corfforawl.
7. Cydwybod, yn trefnu rhag mynd ar gam yn â wneler, ac o hyn y bydd boddau Duw, ac yn gyfymal yn ei ysbryd ef.

Y Bardd Glân o'r Gadair ai dywed.

ARALL.

- O rynnid y pen y tardd y pwyll,
- O ymdawr y pwyll y tardd yr ystyr,
- O drafodion yr ystyr y tardd y deall,
- O drafodion y deall y tardd meddwl,
- O gadernyd y meddwl y tardd gwyllys,
- O chwantaŷu yr wyllys y tardd yr ymgais,
- O arferion yr ymgais y tardd y prawf,
- O graff y prawf y tardd gwybodau,
- O ganfod y gwybodau y tardd y serch,
- O irder y serch y tardd y cariad,
- O ansawdd cariad y tardd pob daioni.

Y Bardd Glân a'r Gadair ai dywed.

ARALL.

- O ynniau y corff y tardd y synwyrâu,
- O ynniau yr anaid y tardd y pwyll,
- O brawf y pwyll a synwyrâu y tardd y deall,
- O lafur y deall y tardd y gwybodau,
- O nwyf y gwybodau y tardd yr awen,
- O ansawdd yr awen y tardd y serch,
- O ynniau y serch y tardd yr athrylith,
- O ansawdd yr athrylith y tardd y cynneddfau,
- O ddantau y cynneddfau y tardd y campan,

O affaith y campau y tardd pob drwg a da,
 O ystyr pob affaith y tardd barn,
 O ddyspwyll barn y tardd y gwybodau,
 O gynghor gwybodau y tardd cydwybod,
 O gydwybod y tardd y dyledau,
 O wneuthur a fo dyled y boddëir Daw,
 O foddau Daw y ceir gwynfyd tragwydd.

Y Bardd Glas o'r Gadair ei dywedd

ARALL

O ddirder angen y daw yr ystyr,
 O'r ystyr y daw y pwyll,
 O'r pwyll y daw y deall,
 O'r deall y daw y meddwl,
 O'r meddwl y daw y serch,
 O'r serch y daw yr awen,
 O'r awen y daw yr ymgais,
 O'r ymgais y daw y gwybodau,
 O'r gwybodau y daw y barn,
 O'r barn y daw cydwybod,
 O'r cydwybod y daw y dewis,
 O'r dewis y daw y weithred,
 O'r weithred y daw pob drwg a da.

Y Bardd Glas o'r Gadair ei cant.

EREILL

Nid gwr heb ddysg,
 Nid dysg heb ddawn,
 Nid dawn heb awen,
 Nid awen heb serch,
 Nid serch heb ymgais,
 Nid ymgais heb lwydd,
 Nid llwydd ond o ddaioni,
 Nid daioni ond cyflawn,
 Nid cyflawn ond cariad,
 Nid cariad ond nudd-dawd,
 Nid nfydd-dawd ond i Ddaw.

Y Bardd Glas o'r Gadair ei dywedd.

O myni gadw dy fudd cadw dy gartref,
 O myni gadw dy gartref cadw dy fraint,

O myni gadw dy ffrainc cadw dy fro,
 O myni gadw dy ffrô cadw dy dda,
 O myni gadw dy dda cadw dy ddwrn,
 O myni gadw dy ddwrn cadw dy wyneb,
 O myni gadw dy wyneb cadw dy ais,
 O myni gadw dy ais cadw dy gof,
 O myni gadw dy gof cadw dy bwyll,
 O myni gadw dy bwyll cadw dy awen,
 O myni gadw dy awen cadw dy gydwybod,
 O myni gadw dy gydwybod cadw gorchymynion
 Duw, ac eiddo y rhai hynny, ti a' godwi y
 cyfan. *Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.*

Gofudawg pob gweithgar,
 Doeth pob pwyllgar,
 Llwyddiannus pob ymgeisgar,
 Hybarch pob cariadgar,
 Biogel pob tangneisgar,
 Call pob ystyrgar,
 Addwyn pob meddylgar,
 Dysgedig pob awengar,
 Awenaidd pob anjanger,
 Dihafaroh pob celfyddgar,
 Cadarn pob gwybodgar,
 Gwybodus pob cerddgar,
 Cerddolion pob cydwybodgar,
 Cydwybodgar pob dwysawl,
 Dwysawl pob ambwyllgar.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai Cant.

BEILCHION Y BARDD GLAS O'R GADAIR.

Balch gwisg ar y sbectol,
 Balch bwreid ar y gwlan,
 Balch hecypd ar y tan,
 Balch mychid ar wylt,
 Balch costog ar ei stomac,
 Balch baw anghenprag,
 Balch Spis ar ei anrhaith,
 Balch Gymnast ei wlad.

Y Bardd Glâs o'r Gadair ai dywad.

Hoff pob newydd,
 Diddestyl pob hân,
 Rhyfedd pob anghynnesn,
 Doeth pob dieithyr,
 Call pob hyffordd,
 Dall pob anghyfarwydd,
 Rhwydd pob parawd,
 Da pob gwellad,
 Mawr pob daioni,
 Hawdd pob galledig,
 Hylaw pob medyr,
 Cryf pob gwybodus,
 Ewan pob anallu,

Nerth pob gallu,
 Hardd pob trefnus,
 Llwyddus pob diwydrwydd,
 Braint pob gwybodaeth,
 Cyfoeth pob crefft,
 Moliannus pob ymgais,
 Digon pob boddlondeb,
 Diogel pob dedwydd,
 Cadarn pob cyflawn,
 Llawen pob serchawg,
 Hygar pob awenaidd,
 Nwyfus pob gobaith,
 Glew pob dwyfal.

Y Bardd Glas o'r Gadair ai dywed.

VIL LLYMA GYFORDDODAU Y BARD D GLAS O'R GADAIR.

1. Gair a bair iaith,
 Iaith a bair ddangos,
 Dangos a bair ystyr,
 Ystyr a bair addysg,
 Addysg a bair ymbwyll
 Ymbwyll a bair ddeall,
 Deall a bair wybod,

Gwybod a bair ymgais,
 Ymgais a bair gallu,
 Gallu a bair gwyllys,
 Gwyllys a bair gwneuthur,
 Gwneuthur a bair celfyddyd
 Celfyddyd a bair dosparth,

Dosparth a bair iawn ar bob peth,
 Iawn ar bob peth a bair bodd Daw,
 Bodd Daw a bair bywyd tragywydd.

Nid bywyd ond iawn ar bob peth,
 Nid iawn yn mhob peth ond bywyd,
 Nid bywyd o iawn ar bob peth ond yn Nuw
 Nid byw ond a fo iawn ymhob peth,
 Nid byw ond a fytho yn Nuw,
 Nid yn Nuw ond a fo iawn yn mhob peth,
 Nid yn nechrau ond gair Daw,
 Nid yn niwedd ond yn Nuw.

2. Gair a lefair,
 Llafar a ddengyn,
 Dangos a ystyr,

Ystyr a dysg,
 Dysg a feldwl,
 Meddwl a bwyll,

Pwyll a deall,
Deall a wybydd,
Gwybod a ymgais,
Ymgais a eill,
Gallu a wyllys,

Gwyllys a wna,
Gwneuthur a gyrch dyben,
Dyben pob peth iawn,
Iawn ymhob peth bywyd,

Bywyd o iawn bywyd tragywyddawl,
Bywyd tragywyddawl bod yn ngwir,
Bôd yn ngwir bôd yn Nuw,
Bôd yn Nuw bod yn iawn,
Bôd yn iawn bôd wrth air Duw,
Nid gair ond gair Duw,
Nid llafar ond gair Duw,
Nid dangos ond gair Duw,
Nid ystyr ond gair Duw,
Nid dysg ond gair Duw,
Nid meddwl ond gair Duw,
Nid pwyll ond gair Duw,
Nid deall ond gair Duw,
Nid gwybod ond gair Duw,
Nid ymgais ond gair Duw,
Nid gallu ond gair Duw,
Nid gwyllys ond gair Duw,
Nid gwneuthur ond gair Duw,
Nid dyben ond gair Duw,
Nid iawn ond gair Duw,
Nid bywyd ond gair Duw,
Nid gair Duw ond gwir,
Nid gwir ond cyfiawn ar air a llafar,
Nid gair ond cyfiawn o air,
Nid gair ar bob gair ond gair Duw.

3. Heb air nis gellir iaith,
Heb iaith nis gellir dangos,
Heb ddangos nis gellir ystyr,
Heb ystyr nis gellir addysg,
Heb addysg nis gellir pwyll,
Heb bwyll nis gellir deall,
Heb ddeall nis gellir gwybod,
Heb wybod nis gellir gallu,
Heb allu nis gellir gwyllys,
Heb wyllys nis gellir ymgais,

Heb ymgais nis gellir gweithred,
 Heb weithred nis gellir iawn,
 Heb iawn nis gellir bywyd,
 Heb fywyd nis gellir bod.

4. Gair yn ngham iaith yn ngham,
 Iaith yn ngham dangos yn ngham,
 Dangos yn ngham ystyr yn ngham,
 Ystyr yn ngham addysg yn ngham,
 Addysg yn ngham pwyll yn ngham,
 Pwyll yn ngham gwybod yn ngham,
 Gwybod yn ngham ymgais yn ngham,
 Ymgais yn ngham gallu yn ngham,
 Gallu yn ngham gwyllys yn ngham,
 Gwyllys yn ngham gweithred yn ngham,
 Gweithred yn ngham pob peth yn ngham,
 Pob peth yn ngham, marw,
 Marw, na fytho yn Nuw,
 Na fytho yn Nuw, ni fydd yn môd.

5. Gair cyfiawn, iaith gyfiawn,
 Iaith gyfiawn, dangos cyfiawn,
 Dangos cyfiawn, ystyr cyfiawn,
 Ystyr cyfiawn, addysg gyfiawn,
 Addysg gyfiawn, pwyll cyfiawn,
 Pwyll cyfiawn, deall cyfiawn,
 Deall cyfiawn, gwybod cyfiawn,
 Gwybod cyfiawn, ymgais cyfiawn,
 Ymgais cyfiawn, gallu cyfiawn,
 Gallu cyfiawn, gwyllys cyfiawn,
 Gwyllys cyfiawn, gweithred cyfiawn,
 Gweithred cyfiawn, pob peth yn gyfiawn,
 Pob peth yn gyfiawn, bywyd cyfiawn,
 Bywyd cyfiawn, bywyd yn Nuw,
 Bywyd yn Nuw, bywyd tragwydd.

*Ac felly terfyna Cyfdrddodau y Bardd Glas
 o'r Gadair.*

DIWEDD.

